Y DRYSORFA.

Rhif. 702.] EBRILL, 1889. [Llyfr LIX.

YR ARF-LYNGES YSPAENAIDD YN 1588 YN EI PHERTHYNAS A PHROTESTANIAETH Y DEYRNAS HON.

GAN Y PARCH. W. R. JONES *(Goleufryn)*, CAERGYBI.

(MEWN DWY BENNOD.)

PENNOD I.

Ar y 29ain o fis Tachwedd, dri chan mlynedd i'r diweddaf, elai y frenines Elisabeth, yn marchog gyda rhwysg a mawredd mewn cerbyd a dynid gan bedwar o feirch gwynion, i Eglwys Sant Paul yn Llundain; ac yr oedd llawenydd mawr drwy y ddinas a thrwy y deyrnas oll. O flaen yr eglwys cyhwfenid un ar ddeg o fanerau, a ddygasid oddiar yr Yspaeniaid; ac wedi pregeth o'r pulpud careg, o dan groes St. Paul, lle y byddai Latimer a Ridley yn arfer pregethu, cyfodai y frenines i anerch ei deiliaid, ac i'w hannog i gydnabod y Llaw Drugarog ydoedd wedi gwasgar eu caseion, amddiffyn ei gorsedd hithau, a dyogelu eu rhyddid a'u bywydau hwythau. Dydd diolch ydoedd am waredigaeth y wlad rhag ymosodiad yr Arf-lynges Yspaenaidd, a gyfenwid yr Arf-lynges Anorchfygadwy *(The Invincible Armada)*. Yr oedd llawenydd cyffelyb drwy holl wledydd Protestanaidd y Cyfandir. Yr yr Iseldiroedd bathwyd dernyn newydd o arian er cof am y fuddugoliaeth, gyda darlun o'r llynges ar un tu iddo, a'r geiriau, "I Dduw y byddo y gogoniant," ar y tu arall; a'r geiriau awgrymiadol canlynol yn argraffedig o amgylch yr ymylon, "Hi a ddaeth, a aeth, ac a fu, A.D. 1588." Yn Genefa dathlodd Theodore Beza, yr esboniwr enwog, yr amgylchiad, drwy gyfansoddi yn Lladin emyn ardderchog, gyfaddas i'r achlysur.

Ac onid oedd achos? Un o'r arwyddion mwyaf o wendid ein Protestaniaeth ydyw ein bod yn anghofio ei dyddiau mawrion. Gresynwn ddarfod i'r flwyddyn ddiweddaf fyned heibio heb i'r frwydr fawr, dri chan mlynedd yn ol, gael nemawr o sylw. Hyd ag y gwyddom ni, nid ysgrifenwyd ond ychydig am dani, a hyny yn y cyfnodolion hyny sydd, bob amser, yn cyfodi eu llef yn erbyn Pabyddiaeth, eithr yn gwneyd hyny fel pe cyfodai un "ei fwyell mewn dyrysgoed." Pa le y mae ein beirdd a'n llenorion? Ofnwn fod ein gwlad yn hepian gyda golwg ar allu y Babaeth. Cyfleusdra ardderchog fuasai y flwyddyn o'r blaen i anhuddo ein brwdfrydedd Protestanaidd. Gwelsom un yn ysgrifenu, gydag anffaeledigrwydd oracl, nad ydoedd perthynas yn y byd rhwng yr Armada â Phrotestaniaeth; nad oedd a fynai crefydd â'r amgylchiad o gwbl! Hwyrach mai perygl ein haneswyr, fel ein gwyddonwyr, yn awr ydyw gwthio eu darganfyddiadau yn rhy bell, a cheisio gosod eu damcaniaethau hoff eu hunain yn lle ffeithiau. Fe allai mai y peth nesaf ddywedir wrthym fydd, nad ydoedd y Diwygiad Protestanaidd ei hunan

namyn mymryn o chwyldroad cymdeithasol, gyda Luther, Melancthon, Calfin a Swinglius yn flaenoriaid iddo; ac nad ydoedd rhyfel y Deng mlynedd ar hugain, ond math o gythrwfl politicaidd bychan, gyda Gustavus Adolphus yn arweinydd iddo! Dyddiau drwg yw y rhai hyny y cytuna pawb i fod yn ddystaw am ffeithau mawrion hanes Protestaniaeth, rhag digio eu cyfeillion sydd yn meddwl yn wahanol. Mae y gair Protestaniaeth wedi myned yn ysgymun gan lawer yn Eglwys Loegr; hyderwn nad ydyw wedi myned felly gan yr enwadau Ymneillduol. Y peth sydd eisieu ydyw galw i gof y dyddiau o'r blaen, yn y rhai y dyoddefodd ein tadau ymdrech mawr o helbulon, i sicrhau i ni y dreftadaeth werthfawr o ryddid crefyddol sydd genym.

Dylid cofio, modd bynag, fod y Diwygiad Protestanaidd, o'r dechreu, wedi cymeryd ffurf ychydig yn wahanol yn Mhrydain i'r hyn ydoedd ar y Cyfandir. Yno yr ydoedd yn gwisgo ffurf grefyddol i ddechreu, a gwleidyddol wedi hyny; yma, drachefn, dechreuodd yn wleidyddol a gorphenodd yn grefyddol; math o ddechreu yn y cnawd, a dybenu yn yr ysbryd. Yn yr Almaen a'r Yswissdir nid oedd unrhyw allu gwleidyddol, canolog, cryf, i ymaflyd yn y Diwygiad, ar ei doriad cyntaf allan, ac i geisio ei droi i'w amcanion ei hunan: felly yr oedd yr arwedd grefyddol arno yn cael perffaith chwareu teg i ymddadblygu. Yn Lloegr, ar y llaw arall, yr oedd un o linach y Tuduriaid, mab neu ferch, ar yr orsedd yn wastad; a chyda'r erthygl fawr hono yn eu credo am uwchafiaeth y goron, yn ceisio marchog y Diwygiad i'w mantais eu hunain, gan geisio crafangu i'w dwylaw eu hunain y gallu hwnw a gymerwyd o ddwylaw y Pab. Er hyny, yr un a'r unrhyw ysbryd ydoedd yn y cyffrawd Protestanaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ymhob man. Ysbryd yr Arglwydd yn ymsymud ar wyneb y dyfnder ydoedd. Yr ydoedd yn ddigon politicaidd, ar y Cyfandir, i roddi ffurf newydd i lywodraethau, a pheri i dywysogion blygu iddo; yr ydoedd yn ddigon ysbrydol, yn Mhrydain, i wneyd Elisabeth, merch Harri VIII., yn Brotestant da, er nad yn Buritan o fath yn y byd; ac i gyfnewid, mewn un teyrnasiad, dôn grefyddol y wlad. A gornest fawr y Diwygiad Protestanaidd ydoedd y frwydr lyngesol yn y flwyddyn 1588. Pell ydym oddiwrth feddwl mai y frenines Elisabeth ydoedd Deborah y Diwygiad; eto dyma'r pryd y dialwyd dialeddau Israel, ac yr ymgymhellodd y bobl o ddifrif i dori ymaith yn llwyr oddiwrth Rufain. Am ddyweyd nad oedd dim perthynas rhwng yr Arf-lynges â Phrotestaniaeth, nid ydyw ond ynfydrwydd, gan fod pob peth yn profi yn wahanol. Nid ydym am wadu fod amcanion politicaidd mewn golwg; ond ymdrech fawr ddiweddaf y Babaeth ydoedd, drwy Phylip II. o Yspaen, fel offeryn, i feddiannu Prydain, ac i lindagu Protestaniaeth yma, yn yr Iseldiroedd, ac yn yr Almaen. Amcanai Phylip, mae'n ddiau, gadw ei uwchafiaeth ar y môr, a'i feddiannau yn myd newydd y Gorllewin; dichon ei fod yn teimlo hefyd mai efe, ar ol Mari Stuart, o Ysgotland, a ddienyddiesid y flwyddyn flaenorol, ydoedd yr etifedd uniongred nesaf i orsedd Lloegr; ond ni phetruswn ddyweyd na buasai yr holl bethau hyn gyda'u gilydd yn cymhell un mor araf a Phylip i'r fath anturiaeth, ac i barotoi y fath lynges, oni bae fod rhywbeth arall mewn golwg. Wrth geisio lladd yr holl adar hyn meddyliai am un arall, y penaf o honynt i gyd, yn ei fryd ef, sef lladd y Diwygiad, ac adennill yr holl fyd i fod yn eiddo yr Eglwys Babaidd. Yr oedd hanner nifer teyrnasoedd Ewrop wedi tori yn rhydd oddiwrth Babyddiaeth; breuddwyd brenin Yspaen ydoedd clymu y rhai hyny drachefn wrth gadair Sant Pedr. Dyma yr olwg a

gymer yr holl haneswyr, Hume, Macaulay, Froude, Motley, a J. R. Green, &c., ar yr amgylchiad, ac y mae rhai o honynt hwy nas gellir, mewn un modd, ddyweyd eu bod yn rhy ffafriol i Brotestaniaeth.

Byddai yn fantais i ni, fe allai, daflu cipdrem ar Gyfandir Ewrop yn mlwyddyn yr Armada. Y flwyddyn hono yr oedd yr awyrgylch boliticaidd yn neillduol o drymaidd. Daroganai y mân-brophwydi fod pethau rhyfedd i gymeryd lle yn y flwyddyn 1588, fel y daroganai eu heppil ar ol hyny, fod pethau rhyfedd i ddygwydd yn y flwyddyn 1866. Haerid fod arwyddion yn "y nef uchod, ac ar y ddaear isod, gwaed a thân a tharth mwg." Honid fod ser-ddewiniaid Germani wedi prophwydo gan' mlynedd cyn hyny y byddai diwedd y byd yn cymeryd lle y flwyddyn hono! Nid oedd eisieu dewin i fynegu yr ysgydwid gorseddfeinciau, y chwelid ymherodraethau, ac yr ymleddid brwydrau gwaedlyd. Nid rhaid ond taflu cipolwg ar Ewrop i ganfod fod pethau aethus wrth y drws. Yr oedd Ffrainc, gyda'i theyrn ieuanc, gwan, a llygredig, Henry III., ar yr orsedd, yn rhanedig drwyddi. Ei fam, Catherine de Medici, rhyw ail Jezebel o fenyw, ydoedd mewn gwirionedd yn teyrnasu. Yn Nghadair Sant Pedr, yn Rhufain, eisteddai Sixtus V., y creadur mwyaf cyfrwysddrwg a diegwyddor o Bab fu erioed yn y Fatican. Yr oedd blaen y dòn fawr a ysgubodd ar draws y Cyfandir, ynghyd a Luther, Melancthon, Calfin, Knox, Coligny, &c., y cewri a gerid ar ei brig, wedi myned heibio. Ond yr oedd llygaid pawb tuag Yspaen. Yno, yn yr Escurial, lle a adeiladesid ganddo yn balas, yn fynachlog, ac yn fedd, yr oedd Phylip II., fel rhyw bryf copyn mawr, yn gwau rhwydau i ddala Protestaniaid, ac yn gwylio yn fanwl holl symudiadau Cyfandir Ewrop. Efe oedd teyrn galluocaf y byd ar y pryd; bu ei allu, dros ryw dymmor, yn fwy na gallu Bonaparte ei hunan. Ymestynai ei diriogaethau dros y rhanau helaethaf o dri chyfandir; yr ydoedd yn oruchaf ar dir a môr. Cadwai fyddin sefydlog o hanner can' mil o filwyr, a'r rhai hyny yn enwog drwy Ewrop am eu dewrder a'u pybyrwch, pan nad oedd gan Loegr gatrawd o filwyr rheolaidd. Tybir fod cyllid ei deyrnas gymaint ddengwaith a chyllid y deyrnas hon a'i threfedigaethau yn amser Elisabeth. Llenwid pob man âg arswyd gan ei filwyr, a bygythiai ei lyngesoedd holl arfordiroedd Ewrop. Dygai ei longau masnachol iddo aur y Gorllewin, a pherlysiau y Dwyrain. Yspaen, y pryd hwnw, oedd pïau masnach yr America a'r Cefnfor Indiaidd. Yn ei wasanaeth, fel cadfridog, yr oedd Alexander Farnese, y Duc Parma, un o gadlywyddion blaenaf ei oes, ac un y dywedid am dano na chollodd frwydr erioed. Yr oedd gan Phylip un amcan, a hwnw ydoedd gorchfygu y byd, a diwreiddio Protestaniaeth allan o hono; ond claddai ei gynlluniau yn ei fynwes, ac nid oedd neb byw yn cael gwybod am danynt, oddigerth ei hoff gadfridog, y Duc Parma, a'r tri-wriad hyny o weinidogion a'i cylchynai, y rhai a elwid ganddo, o herwydd eu bod yn cydgyfarfod yn nyfnder y nos, y Cynghor Canol-nosol. Yr oedd yn feistr ar y gelfyddyd o ffugio: twyllodd Elisabeth a'i chynghoriaid i feddwl ei fod am heddwch, hyd nes yr oedd yr Armada yn ngolwg glenydd Lloegr!

I gyfarfod â'r gallu mawr yma, nid oedd gan Brotestaniaeth ond edrych am ymwared at Brydain, a gweriniaeth fechan newydd-anedig Holland. Yr oedd y ddiweddaf newydd ennill ei hannibyniaeth oddiar Yspaen, ac yn barod i wneyd pob aberth er ei gadw, gan ei ystyried yn werth gwaed ei Thywysog William, a gyfenwid Gwilym y Tawedog. Collodd ef ei fywyd drwy

gleddyf llofrudd, a gyflogwyd i'r gwaith gan aur Phylip, ac a arfogwyd gyda phardwn oddiwrth y Pab. Ac am Loegr, nid oedd ei holl boblogaeth hi, y pryd hwnw, ond tua phum miliwn, ei thrysorlys mewn annhrefn, ei llynges yn eiddil, a'i byddin heb fod yn unlle. Yr oedd Ysgotland yn deyrnas ar wahan, ac ar bwnc y Diwygiad yn rhanol; yr Iwerddon, fel arfer, yn wrthnysig; a gwaeth na'r cyfan, nid ydoedd y dealltwriaeth perffeithiaf rhwng Prydain a Holland. Darfu i waith Elisabeth yn hoedena gyda hwn a'r llall, ac yn neillduol yn danfon ei hanwesyn, Iarll Leicester, drosodd yn gadfridog i'r Iseldiroedd, a'i gwaith yn ofera cymaint gyda Phylip o berthynas i'r telerau am heddwch, dafiu diflasdod ar feddyliau Barneveld, ac eraill o bobl flaenaf Holland. Ond yr oedd y bywyd newydd yn ymgynhyrfu yn Mhrydain; y dyheuad am ryddid yn ymweithio tuag i fyny. Elai dynion ieuainc o Loegr drosodd i Ffrainc a'r Iseldiroedd i ymladd brwydrau Protestaniaeth. Ymunai y "Morgwn Seisnig" (*The English Sea-dogs*), Drake, Frobisher, Hawkins, &c., a'r "morfegeriaid Ellmynaidd" (*The Dutch Sea-beggars*) ynghyd i wibio'r moroedd am longau Yspaenaidd i'w hysbeilio. Yr oedd Syr Francis Drake wedi dyfod yn ddychryn y moroedd. Wedi clywed o hono am barotoad y llynges Yspaenaidd, aeth allan, a rhyw 30 o longau bychain gydag ef, i Cadiz a Lisbon; llosgasant y llongau, dinystriasant y darpariaethau a barotowyd gan Phylip ar gyfer goresgyn Prydain, a daeth yn ol gydag ysglyfaeth lawer, gan ddywedyd iddo ef "ddeifio ychydig ar farf brenin Yspaen."

Haid ryfedd oedd y "morgwn Seisnig:" cyfuniad hynod o Buritaniaeth ac anturiaeth. Tybient fod hela y Jesuitiaid, dinystrio dylanwad y Chwil-lys, suddo llongau Yspaen, a lladrata trysorau Phylip, yn waith cydweddol â'u galwedigaeth fel "etholedigion Duw." Modd bynag, dengys yr holl bethau hyn pa fath oedd y teimlad ar y pryd; gorfodid Elisabeth a'i chynghorwyr i wynebu brenin Yspaen, a bod yn arwyr Protestaniaeth. Hyn, dybygem ni, ac nid eu cariad at y gwaith yn gymaint, a'u dygodd i gyhoeddi rhyfel yn erbyn y Babaeth. Prydain ei hunan, ysywaeth, yn fwy na'i brenines a'i gweinidogion, ydoedd wedi ei chynhyrfu i'w gwaelodion.

PENNOD II.

Buwyd am flynyddoedd yn parotoi yr Arf-lynges Yspaenaidd. Nid arbedwyd na thraul na thrafferth i gasglu ynghyd lynges na welodd y byd erioed ei bath, i gario drosodd lengoedd Yspaen, milwyr y Chwil-lys, i oresgyn Prydain Brotestanaidd. Cynnwysai oddeutu 150 o lestri o bob math, y rhan amlaf o honynt, yn ol fel yr ystyrid llongau y dyddiau hyny, o faintioli anferth, ac wedi eu harfogi a'u dodrefnu y modd goreu y gallai celfyddyd y pryd hwnw, ar gyfer y gwaith oedd iddynt. Ar eu byrddau yr oedd tuag 8000 o forwyr, a 2088 o gaethion yn rhwyfwyr, dros 20,000 o filwyr rheolaidd, heblaw llu o wirfoddolwyr, yn cynnwys rhai o brif bendefigion Yspaen. Rhifai y cyflegrau 2650, a chariai yr holl longau 60,000 o dunnelli, yr hyn ydoedd yn swm anferth pan y cofiom nad oedd holl lynges reolaidd Prydain yn cynnwys ond rhyw 30 o lestri, a'u tunnellaeth (*tonnage*), gyda'u gilydd, heb fod yn fwy na'r eiddo un o'r agerdd-longau mawrion sydd yn croesi y Werydd! Ac nid hyny yn unig, eithr parotoid math o lynges arall gan y Duc Parma, mewn rhan o'r Iseldiroedd ag oedd eto yn meddiant Yspaen, i gario drosodd 30,000 o filwyr glewion oedd ganddo wedi eu casglu o bob gwlad, gyda'r amcan o oresgyn Lloegr; ond pegwn mawr y fuddugoliaeth a ddylynoid

ydoedd i'r llynges hon fethu dyfod i gyfarfod y llall.

O'r diwedd wedi cael pob milwr a morwr ar y bwrdd, cychwynodd yr Armada o Lisbon, gan ymlithro yn fawreddog, llong ar ol llong, i lawr y Tagus. Yr oedd y Pab eisoes wedi ysgymuno Elisabeth, ac wedi rhoi ei choron, mewn addewid, wrth draed Phylip; ei orchwyl nesaf ydoedd bendithio y llynges oedd i ddwyn oddiamgylch y cynllun hwn. Yr oedd rhai o brif swyddogion y Chwil-lys ar fwrdd yr Armada, a channoedd o offeiriaid Pabaidd o Yspaen yn dyfod trosodd i gymeryd meddiant o Frydain. Tra yr oedd y Pab Sixtus âg un llaw yn cymeryd y goron oddiar ben Elisabeth, â'r llaw arall rhoddai het *Cardinal* ar ben alltud o Sais, o'r enw Allen, gan ei apwyntio yn Archesgob Canterbury! Creadur ydoedd Allen a gasäi y wlad a'i magodd, yn enwedig ei Phrotestaniaeth, ac ydoedd yn barod i wneyd unrhyw fudr-waith a geisiai Rhufain ganddo. Cyfieithodd y Tarw (*The Pope's Bull*) ofnadwy a ddanfonasai y Pab allan yn erbyn Elisabeth, ac a'i hargraffodd yn Antwerp, ynghyd a phamphled arall, llawn o'r celwyddau a'r enllib mwyaf gwaradwyddus a ffiaidd am y frenines. Enwasid y rhan fwyaf o longau yr Armada yn ol enwau yr apostolion, *Sant Matthew*, *Sant Phylip*, *Sant Iago;* felly edrychid ar yr ymgyrch yn fath o groes-gad grefyddol. Prin na thybiem fod yr enwau hyn yn dynodi cymeriad y frwydr; canys yr oedd raid i'r seintiau hyn ymladd â'r "morgwn Seisonig," mewn llongau yn dwyn yr enwau *Y Llew*, *Yr Arth*, *Y Tarw*, &c., a hyny mewn gornest lle yr ydoedd sylweddau yn erbyn ofergoeledd, dychymygion yn erbyn ffeithiau, a ffyddlondeb i wlad, i gydwybod, ac i Dduw, yn erbyn ffug-nodded oruwchnaturiol y seintiau. Er derbyn o honi fendith y Pab, ni chafodd y llynges rwydd-deb o'r dechreu. Pan ar gychwyn bu farw yr Arch-lyngesydd, yr Ardalydd Santa Cruz, a phenodwyd yn ei le y Duc Medina Sidonia. Gelwid y cyntaf, ar gyfrif ei ddewrder, yr "Ardalydd Haiarn," a'r ail ar gyfrif ei gyfoeth, y "Duc Euraidd;" ac ni bu cyfnewid yr haiarn am yr aur o unrhyw fantais i'r anturiaeth. Bu yr elfenau, o'r dechreu, yn angharedig iawn wrth yr Armada; y ser yn eu graddau, y môr yn ei wyntoedd a'i ystormydd, yn ymladd yn erbyn Sidonia. Mewn gwirionedd, y mae mwy o hanes peiriannau rhyfel y Goruchaf, y gwynt a'r môr, y tywyllwch a'r tònau, y rhai a "gadwodd efe hyd amser cyfyngder, hyd ddydd ymladd a rhyfel," yn hanes y llynges hon na dim arall. Collwyd amryw o'r llongau mwyaf cyn dyfod o honynt i olwg tir Prydain o gwbl. Darfu i Gymro o'r enw Dafydd Gwynn, oedd yn rhwyfwr yn un o'r llongau ac ydoedd er's un mlynedd ar ddeg yn gaethwas yn Yspaen, arwain mintai o wrthryfelwyr, a thrwy gymeryd mantais ar y gwynt a'r ystorm, rhedodd ddwy o'r llongau i dir Ffrainc.

O'r diwedd, ar y 30ain o Orphenaf, y cafodd Lloegr yr olwg gyntaf ar yr Armada hir-ddysgwyliedig. Gwnelsid pob peth a allai cyfrwystra a chelwydd ei wneuthur i beri i'r Prydeiniaid hepian yn ddiofal, gan geisio eu perswadio nad ydoedd yn d'od, a'i bod wedi ei bwriadu i fyned i le arall; ond bellach wele hi wedi gwneyd ei hymddangosiad. Yr oedd Prydain yn oddaith o frwdfrydedd o ben bwygilydd. Rhaid cydnabod mai y parotoad goreu oedd fod ysbryd y wlad wedi ei gynhyrfu; mwy o ysbryd na dim arall. Am y milwyr, yr oedd eu nifer yn fwy na'u dysgyblaeth. Nid oedd Iarll Leicester o nemawr werth fel cadfridog; ac yr oedd y frenines yn grintach hyd at gybydd-dod, ac yn benchwiban hyd at blentynrwydd. Gwir iddi, ar un o'i mynydau mawrion, ac yr oedd ganddi, wrth lwc,

amryw o'r rhai hyny, wisgo mewn gwisg filwrol, a marchogaeth i'r gwersyll yn Tillbury, a chyfarch y milwyr, gan ymdynghedu y byddai iddi farw ar faes y frwydr cyn y goddefai weled dinystrio Protestaniaeth y deyrnas, a chymeryd ymaith ryddid y deiliaid. Ond yr oedd llyngeswyr Lloegr, Howard, Drake, Hawkins, Frobisher, &c., yn deall eu gwaith yn dda. Nid oedd rhifedi holl longau rhyfel rheolaidd y frenines dros 30; ond y fath oedd y brwdfrydedd, fel yr ychwanegwyd atynt, drwy roddion personol y deiliaid a'r trefi, hyd nes yr oeddynt yn rhifo tua 191. Yr oedd bychander eu maintioli, o'r dechreu, yn fantais iddynt ar longau mawrion anhylaw yr Arf-lynges, gan eu bod yn gallu symud mor chwimwth, ac yn gallu taflu pedair ergyd am bob un i'r Yspaeniaid. Nid oedd magnelwyr y llynges Yspaenaidd, ychwaith, o'u cymharu â'r Prydeiniaid, ond prentisiaid anfedrus ar y môr, tra yr oedd ei morwyr yn berffaith anghyfarwydd â'r siannel a'i thro-wyntoedd. Daeth yr Armada i mewn i'r Culfor Seisonig *(The English Channel)* yn rhwysgfawr anghyffredin, yn hwylio yn fawreddog ar ffurf hanner lloer: y *Sant Martin*, llong y llyngesydd, yn y canol, a'r holl longau eraill yn ffurfio hannergylch o'i deutu, a chymaint oedd eu nifer a'u maintioli, fel yr oedd gryn saith milldir o bellder rhwng y ddau gorn! Ond yn ngeiriau morwyr yr oes hono, fe dynwyd plu yr Yspaenwr o un i un, collwyd llong ar ol llong, mewn ysgarmes ar ol ysgarmes, hyd oni orfu i'r llynges fyned o'r sianel, yn y pen arall, allan i Fôr y Gogledd, yn ddarnau, yn cael ei gyru o flaen y gwyntoedd, a Howard, Hawkins, a Drake yn ei herlid.

Ni fu erioed y fath siomedigaeth! Ni fu, i'n tyb ni, amgylchiadau erioed yn dangos llaw Rhagluniaeth mor amlwg. A chymeryd allan o'r cyfrif frwdfrydedd y genedl Seisonig, a dewrder a medr y morwyr Prydeinig, ynghyd a phybyrwch yr Ellmyn yn rhwystro y Duc Parma i ddyfod allan o'u porthladdoedd, nid oedd yr holl hanes, o du Yspaen a Lloegr, ond un gyfres olynol o gamgymeriadau a bonglerwch. Y dyddiau yr oedd y llynges Yspaenaidd yn dyfod i olwg pentir Lloegr, cawsai y llyngesydd Seisonig orchymyn oddiwrth y frenines, nad ydoedd yn debyg y deuai y gelyn y fiwyddyn hono; felly, ar iddo ddiarfogi y môr-filwyr, a rhoi amryw o'r llongau i gadw! Yr oedd y llynges Brydeinig yn anmharod mewn cyflenwad o bylor ac ymborth, ïe, yn mhob peth ond brwdfrydedd ysbryd y dynion. O du Yspaen, drachefn, y mae y naill gamgymeriad yn dylyn y llall. Cynllun Phylip ydoedd i'r Armada hwylio am Calais, ac angori yno hyd nes y deuai y Duc Parma a'i fyddin i ymuno â hi, ac yna fod iddynt, gyda'u gilydd, lanio ar draeth Margate, a gorymdeithio i fyny a chymeryd dinas Llundain ar unwaith. Yr oedd hwn yn gynllun difai ar bapyr; ond yr oedd amryw bethau na chymerwyd i ystyriaeth gan y gŵr o'r Escurial. Drwy gryn drafferth, ac wedi cael ei bluo, fel y gwelwyd, y cyrhaeddodd Sidonia i Calais; ac erbyn iddo ddyfod yno, nid oedd yr un Parma yn y golwg. Yr oedd hwnw drachefn fel march yn cnoi yr enfa, yn llawn awydd am ddyfod, ond nis gallai; canys yr oedd llynges Holland yn gwarchae pob bwlch a chulfor yn fanwl. Ganddo ef yr oedd y darpariaethau helaethaf, a'r milwyr goreu ar y pryd, yn yr holl fyd; ond pa les oeddynt, tra yr oedd pob afon a morgilfach dan warchae tyn, fel nas meiddiai ddyfod allan? ac nid oedd ganddo yntau ond llynges o ysgraffau, i gludo ei filwyr dros y sianel, ar dywydd teg, diwrthwynebiad. Dysgwyliai Parma i Sidonia a'r Armada, i ysgubo yr holl Gulfor Seisonig yn lân iddo oddiwrth bob gelyn cyn y

mentrai allan; dysgwyliai Sidonia, ar y llaw arall, bob dydd ei weled yntau yn dyfod i'w gynorthwyo i orchfygu y llongau Prydeinig! Rhyfedd gweled cadlywyddion Yspaen, prif allu milwraidd y byd, yn cael eu dyrysu fel hyn gan groes-amcanion.

Tra yr oedd Coron Lloegr a bywyd Protestaniaeth megys yn gorwedd yn y fantol, ar y Sabbath cyntaf yn Awst, 1588, angorai llynges fawr Yspaen yn angorfa Calais, i ddysgwyl y Duc Parma i ymuno â hi. Ac ni wyddai y llyngeswyr Seisonig nad allai Parma ddyfod drannoeth; felly yr oedd raid cael yr Armada allan o'r angorfa cyn i Parma uno ei lengoedd â hi. Drwy ddyfais ryfedd, wedi ei hawgrymu iddo, meddir, gan y frenines ei hunan, y cafodd y llyngesydd Howard y llongau Yspaenaidd o borthladd Calais. Bedair blynedd cyn hyny darfu i un Gianibelli, Italiad o genedl, oedd yn trigo yn Antwerp, ddyfeisio math o longau, llawn o bylor a defnyddiau hylosg eraill, a'u danfon, gyda'r llanw, yn erbyn pont fawr a wnaethai y Duc Parma er gwarchae Antwerp, a'i chwythu i fyny gyda difrod arswydus; a byth wedi hyn fe adnabyddid y llongau hyny gan yr Yspaeniaid fel "diafl-longau Gianibelli." Ar adeg hwyliad yr Armada, gwyddid fod Gianibelli yn Lloegr; ac er nad oedd a fynai efe yn uniongyrchol â'r ddyfais a ddefnyddiodd Howard gyda'r Armada, eto diau mai ei ddyfais ef, yn Antwerp, a'i hachlysurodd. Modd bynag, yr oedd ofn Gianibelli ar yr Yspaeniaid. Ar hanner nos, Awst 7, tra yr oedd y llynges Yspaenaidd yn gorwedd yn dawel wrth angor gerllaw Calais, canfyddent ryw bethau duon, yn y tywyllwch, yn ymlithro gyda'r llanw hyd atynt, ac yna yn ymffrwydro ar unwaith yn golofnau mawrion o dân. Daeth yr adgof am ddiafl-longau Antwerp yn anorchfygol i gof pawb ar fwrdd y Armada. Ymdaenodd y dychryn mwyaf drwy yr holl lynges, a cheisiai pawb ffoi gan waeddi, "Llongau tân Antwerp! Llongau tân Antwerp!" Nid oeddynt mewn gwirionedd ond wyth o hen longau wedi eu pŷgu a'u tanio, a'u danfon i beri dychryn i'r Yspaeniaid! Drannoeth yr oedd y llynges Yspaenaidd wedi ei chwalu, a rhai o'r llongau wedi myned i'r làn; a dyma y dydd y bu yr unig frwydr, deilwng o'r enw, rhwng yr Yspaeniaid a'r Prydeiniaid. Hon yw y frwydr a adnabyddir dan yr enw brwydr Gravelines. Bu yn ymladd caled drwy y dydd; lladdwyd pedair mil o Yspaeniaid, suddwyd tair o'u llongau, aeth tair arall i'r làn, tra na chollwyd cymaint ag un o'r llongau Prydeinig. Bu yr Armada, am ddyddiau dylynol i hyn, yn hollol at drugaredd yr ystormydd, a bron a myned yn ddrylliau ar draethau Flanders. Penderfynodd Sidonia ddychwelyd adref drwy Fôr y Gogledd; ac nid oes ar glawr hanes am olygfa fwy siomedig na gweled y rhyfel-longau beilchion hyn yn cael eu gyru o flaen y gwyntoedd o'r sianel i'r môr ystormus hwnw. Ni fedd Prydain, yn holl hanes ei thymmorau, fis Awst mor ystormus â hwnw. Ysgafnhäwyd y llongau Yspaenaidd o'r pethau a ddarparesid ar gyfer goresgyn Lloegr; maes-gyflegrau a barotöwyd ar gyfer brwydrau, offerynau i gymeryd dinasoedd caerog; ïe, brithid wyneb y môr gan gelaneddau ceffylau ac asynod, a gwahanol greaduriaid a fwriwyd oddiar fwrdd y llongau fel pethau dianghenrhaid. Erlidiwyd yr Yspaeniaid gan Syr Francis Drake hyd onid aethant heibio i Gulfor y Forth yn Ysgotland, gan yr ofnid iddynt droi yno; ond nid oedd gan Drake nac ymborth na phylor i ymlid ymhellach ar eu hol. Prin y cawsant heibio i ynysoedd yr Orkneys, nad oeddynt yn nannedd ystormydd ofnadwy Môr y Gogledd; byddent weithiau yn cael eu gyru yn erbyn glenydd Norway, bryd arall mewn perygl o

fyned yn ddrylliau ar greigiau Shetland, neu bentir Ysgotland, yr hwn, iddynt hwy, a atebai yn llythyrenol i'w enw, yn Benrhyn Dialedd (*Cape Wrath*) mewn gwirionedd. Os drwg eu helynt ar ororau Ysgotland, gwaeth fyth ar lenydd yr Iwerddon. Collwyd cannoedd o fywydau ar y pentiroedd a'r creigiau peryglus hyny. Cafodd môr-ladron yr Orkneys, tylwythau (*clans*) yr Ucheldiroedd, a lladronach crwydrol Donegal a Galway, gynauaf toreithiog iawn. Ar y traeth gerllaw Sligo cyfrifwyd un cant ar ddeg o gyrff Yspaeniaid wedi eu bwrw i'r làn! Aeth miloedd o fywydau, a'r rhai hyny yn cynnwys toraeth pendefigaeth Yspaen, yn aberth i'r tònau! O'r diwedd cyrhaeddodd tua 10,000 adref i Corunna, rhai i farw o'r pla, eraill i ddihoeni o gywilydd!

Dyma ddiwedd yr anturiaeth fawr i geisio diwreiddio Protestaniaeth o'r byd. Ni ddylem fostio o drychinebau, nac ymddifyru mewn dialeddau; ond yn yr hanes hwn, nis gallwn lai na gweled fod y Goruchaf wedi cymeryd, o'r dechreu, y cweryl i'w law ei hun. Os bu Rhagluniaeth ddwyfol erioed â'i llaw yn cyfryngu, yr ydoedd felly, gellid meddwl, yn yr achos hwn. Yr oedd marw y llyngesydd Yspaenaidd, ar y cychwyn; y llynges, can gynted ag y daeth allan i'r Werydd, yn cael ei goddiweddyd yn ebrwydd gan wyntoedd cryfion; camgymeriad yr Yspaeniaid yn hwylio yr ochr Seisonig i'r sianel; cyfeiriad yr awelon i roi mantais i'r Prydeiniaid; gwaith y Prydeiniaid yn methu erlyn ar ol yr Yspaeniaid, gan eu gadael felly i ofal yr ystormydd;—y mae yr holl bethau hyn fel yn cydgyfeirio at ryw Law anweledig oedd yn cyfryngu yn y cyfan. Ymgysurai Phylip yn y syniad ddarfod iddo ef anfon ei ddynion a'i longau i ymladd â dynion, ac nid â'r elfenau; ond nid felly y cydnabyddai Lloegr ei dyled i'r ystorm a ddinystriodd yr Armada. Cafodd bôst y gorchfygwyr ei wyleiddio gan fawredd y waredigaeth. "Ti a chwythaist â'th wynt; y môr a'u tôdd hwynt, soddasant fel plwm yn y dyfroedd cryfion." Yr Arf-lynges oedd un o'r ymosodiadau mwyaf ofnadwy a wnaeth y Babaeth erioed ar Brotestaniaeth; a phrofodd yn dro-bwynt yr ymdrech rhwng Rhufain a'r Diwygiad Protestanaidd. Penderfynwyd rhai o'r cwestiynau pwysicaf mewn hanesiaeth gan y frwydr o flaen Gravelines. Nad ydoedd Prydain yn myned i ymostwng, unwaith yn rhagor, dan iau y Babaeth, a atebwyd, unwaith am byth, gan wynt y nefoedd, a chan fagnelau Syr Francis Drake. Neidiodd y deyrnas hon i fywyd newydd drwy yr ymdrechfa; bu iddi fel mynediad trwodd o farwolaeth i fywyd. Yr ydoedd dinystr yr Armada yn bregeth fawr i'r holl wledydd—Pabaidd a Phrotestanaidd; ond felly i Loegr yn anad yr un. Gwaredasid hi gan Law Ddwyfol, ac i amcanion goruchel. Diosgwyd y Fraich, parthwyd y môr, gwnaed arwyddion mawrion drwy law Duw Hollalluog, nes teimlo o'r genedl ei mawredd a'i bychander yr un pryd. Dinystriwyd am byth y gyfaredd oedd gan Rufain ar wledydd Ewrop; profwyd nad ydoedd y Babaeth yn anorchfygol, ac felly calonogwyd pob Protestant ar y Cyfandir. Ni fu Prydain byth yr un wedi hyny. O'r dwthwn hwnw allan, pasiodd uwchafiaeth y môr o feddiant y galluoedd Pabaidd drosodd i'r rhai Protestanaidd —o feddiant Yspaen i Holland a Lloegr. Daeth Prydain yn ebrwydd yn feistres y môr, a chymerodd ei lle fel un o alluoedd Protestanaidd blaenaf Ewrop. Yr oedd tynged y Diwygiad Protestanaidd a thynged Lloegr wedi eu cydwau â'u gilydd, i sefyll neu syrthio gyda'u gilydd. Cydsafasant ar ddydd y prawf, a safant hyd yn awr. Aeth Yspaen i lawr byth er hyny. Llesteiriwyd y Diwygiad yno

drwy law greulawn erledigaeth, a byth er dyddiau Phylip yr Ail y mae y wlad ffrwythlawn hono yn dihoeni dan iau y Babaeth. Mae rhyw arwyddion fod amseroedd yr anwybodaeth ar fyned heibio; a'n dyledswydd ni ydyw estyn ati y gangen olewydden, a thalu da am ddrwg iddi, drwy wneyd a allom er ei hefengyleiddio a'i dyrchafu.

Ar ben y tri chan' mlynedd, gwers fawr yr hanes i ni ydyw gwerthfawrogi ein Protestaniaeth. Y peth y daeth y Nefoedd allan i'w amddiffyn mewn modd mor amlwg; y peth a unodd Prydain, nid yn unig â gwleidydd Protestanaidd y byd, eithr hefyd â hi ei hunan, gan ddwyn ei bywyd dyfnaf i'r golwg; y peth a adawyd yn dreftadaeth ardderchog i ni gan ein hynafiaid, nid i'w gymysgu a'i lygru, eithr i'w buro a'i eangu,—a fwriwn ni hwnw ymaith? Na wnawn; yn y dyddiau hyn o Ddefodaeth ni a fynwn ei gadw yn ddilwgr; yn nghanol Enwadaeth mynwn ei gadw yn eang; yn nghanol Anmheuaeth a Sosialaeth, gwnawn i'r byd gofio mai o dan aden Protestaniaeth yn unig y mae yn bosibl i wir Ryddid, Cydraddoldeb, a Brawdoliaeth, i ffynu.

YR UNDEB A'R CYDWEITHREDIAD DDYLAI FOD RHWNG Y SAINT.

Gan y Parch. OWEN HUGHES, *Tanyrallt, Talysarn.*

MAE y syniad o undeb yn nodweddiadol o'r amseroedd. Mae gweithwyr ein teyrnas—Lloegr, Cymru, Scotland a'r Iwerddon—yn ffurfio undeb yn eu plith eu hunain. Mae gwyddoniaeth a chelfyddyd yn tynu i'r un pwynt: y trên yn difodi pellder, ac yn tynu gwahanol barthau at eu gilydd; yr agerlongau wedi gwneyd "*The unsociable ocean*" yn gyfrwng cymdeithas. Felly y pontydd, camlesydd, a'r *tunnels*. Trown eto i gyfeiriad gwleidyddol: mae "*the unity of the empire*" yn arwyddair proffesedig pob plaid, ac mae y newydd-beth a elwir Undebwyr yn greadigaeth neillduol yr oes undebol hon. Eto, yn eglwysig. Yr oedd 1845 yn gyfnod newydd yn hanes Undeb eglwysig: canys ar y dydd cyntaf o Hydref y flwyddyn hono, cyfarfyddodd yn Liverpool gynnrychiolwyr pedwar ar bymtheg o wahanol enwadau crefyddol, i geisio ffurfio gwaelod canolog i sefyll arno ac i fod yn rhwymyn undeb.

O hyny hyd yn awr mae gwedd Cymru wedi newid. Yr oedd "gwaed a thân a tharth mwg" y "Dadleuon Duwinyddol" yn arwyddion Cymru y pryd hwnw. Cewri oedd ar y ddaear y dyddiau hyny, Owen Davies, Jones Dinbych, Christmas Evans, Richard Jones y Wern, John Roberts Llanbrynmair. Credwn yn ddibetrus eu bod oll wedi "ymgyfarfod yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw, yn ŵr perffaith at fesur oedran cyflawnder Crist;" eu hymladd â phechod ac â'u gilydd wedi darfod:

> "Pawb o'r brodyr yno 'n un,
> Heb neb yn tynu 'n groes."

Ceisiwn sylwi fel y canlyn ar undeb y Saint:—

I. *Ei* BWYSIGRWYDD.

Mae pa beth bynag sydd yn cael lle mawr yn y Bibl, ar unwaith yn bwysig yn marn pawb a gredant yn ei ysbrydoliaeth. Mae y syniad o undeb y saint i'w ganfod yn yr Hen Destament yn y ffurf o "ddinas Duw." Anfarwoldeb dinas Duw sydd yma, nid anfarwoldeb y person unigol; mae y diweddaf wedi ei fagu yn nghôl y cyntaf. Cymdeithas yn anfarwol: dyma un o syniadau *unconscious* y Bibl. "Ac efe a'm dyg i ymaith yn yr ysbryd i fynydd mawr ac uchel, ac a ddangosodd i mi y ddinas fawr, Jerusalem sanctaidd, yn disgyn allan o'r nef oddiwrth Dduw." Gallem feddwl fod Dafydd a seintiau eraill y Bibl yn dyheu am hyn. Nodwn un engraifft: "Jerusalem a adeiladwyd fel dinas wedi ei chydgysylltu ynddi ei hun. . . . Dymunwch heddwch Jerusalem. . . . Heddwch fyddo o fewn dy ragfur, a ffyniant yn dy balasau. Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion y dywedaf yn awr, Heddwch fyddo i ti." Mae

addewidion yr Hen Destament i'r un cyfeiriad. "Rhoddaf iddynt un galon ac un ffordd." "Efe a gynnull grwydriaid Israel, ac a gasgl wasgaredigion Judah o bedair congl y ddaear." Dywed yr Arglwydd wrth Ezeciel: "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Wele fi yn cymeryd pren Joseph, yr hwn sydd yn llaw Ephraim, a llwythau Israel ei gyfeillion, a mi a'u rhoddaf hwynt gydag ef, sef gyda phren Judah, ac a'u gwnaf hwynt yn un pren, fel y byddont yn fy llaw yn un." Nid yw hyn ond ychydig engreifftiau. Deuwn ymlaen i'r Testament Newydd. Gweddiodd Iesu Grist fwy am undeb ei bobl nag am ddim arall: "Fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonaist i." Y mae undeb yn brawf o ddwyfoldeb Cristionogaeth: "Fel y byddont un, megys yr ydym ni yn un." Cynllun yr undeb yw undod y Drindod yn yr Hanfod Ddwyfol. Mae llythyrau Paul wedi eu britho â gweddiau am undeb yr eglwysi: "Gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr ysbryd yn nghwlwm tangnefedd." Rhy faith fyddai nodi pob engraifft. Digon yw hyn i ddangos fod undeb a chydweithrediad y saint yn un o hanfodion y grefydd Gristionogol.

II. *Undeb yn ei* NATUR.

1. Undeb mewn amrywiaeth. Nid oes dwy ddeilen yn hollol unffurf. Nid oes dau laswelltyn yn hollol yr un fath. Amrywiaeth mewn cydgordiad yw tlysni y greadigaeth. Felly yma: "a ni yn llawer un ydym." "*Lliaws* y rhai a gredasant oeddynt o *un* galon." "Yr *holl* deulu." Mae yma bob amrywiaeth, eto un teulu. Nid yr un yw cariad y bachgen at ei dad a chariad yr eneth ato. Nid yr un yw nodwedd *pob* plentyn yn yr un teulu. Un yn gryf, arall yn dyner, arall yn ddoeth. Felly teulu Duw. Mae yma angylion ac archangylion, cerubiaid a seraphiaid, thronau ac arglwyddiaethau, ser y boreu a meibion Duw. "Arall yw gogoniant yr haul, ac arall yw gogoniant y ser." Mae y llestr yn rhoi ffurf i'r dwfr, felly dyn yn rhoi ffurf i ras. Mae goleu yr haul yr un, ond yn taro ar wahanol wrthddrychau, yr hyn sydd yn amrywio ei belydrau.

2. Undeb mewn cydsafiad â rhyddid. Bostia Eglwys Rhufain o'i hundeb, ond undeb trais a gormes ydyw. Maent oll o'r un feddwl am nad oes neb yn *cael* meddwl. Maent oll o'r un gredo, am nad oes neb yn *cael* credu yn ol dirnadaeth ei feddwl ac argyhoeddiad ei gydwybod. Credo *ready-made* sydd gan Eglwys Rhufain. Nid fel y Samariaid gynt: "Nid ydym ni weithian yn credu oblegid dy ymadrodd di; canys ni a'i clywsom ef ein hunain, ac a wyddom mai hwn yn ddiau yw y Crist, Iachawdwr y byd." Diolch i Luther ac eraill am hawl bersonol dyn i farnu drosto ei hun!

III. *Undeb yn ei* RWYMAU. Nodwn dri.

1. Y gwirionedd. "Ein cymdeithas ni yn yr efengyl." Yr efengyl a'i gwirioneddau anfeidrol sydd yn un rhwymyn am holl saint Duw: "Amgyffred gyda'r holl saint beth yw y lled a'r hyd, a'r dyfnder a'r uchder, a gwybod cariad Crist yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth." Fel y mae ymchwiliad am wirioneddau daearegol yn rhwymo dynion yn gymdeithas, neu ymchwiliad i wirioneddau seryddol yn rhwymo dynion yn gymdeithas, felly *mae* a bydd ymchwiliad i wirionedd yr efengyl yn rhwymyn tragywyddol y saint.

2. Yr Ysbryd. "Amryw ddoniau, eithr yr un Ysbryd." Yr oedd pob cenedl dan y nef yn Jerusalem; eto yr oeddynt "yn eu clywed yn llefaru bob un yn ei iaith ei hun, fawrion weithredoedd Duw."

3. Person Crist. (1.) Efe yw canolbwynt holl feddyliau, bwriadau, arfaethau, a gweithrediadau Duw o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb. "Ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll." (2.) Amcan mawr ei farwolaeth oedd "fel y casglai ynghyd yn un blant Duw y rhai a wasgarasid:" "crynhoi ynghyd yn Nghrist yr holl bethau yn y nefoedd ac ar y ddaear ynddo ef:" "dirymodd trwy ei gnawd ei hun y gelyniaeth . . . fel y creai y ddau ynddo ei hun yn un dyn newydd . . . fel y cymmodai y ddau â Duw yn un corff trwy y groes." (3.) Addysg y Testament Newydd yw fod holl seintiau yr oesoedd a holl angylion y nefoedd yn un gymdeithas fawreddog o'r ddaear i'r nefoedd: "Canys chwi a ddaethoch i fynydd Sïon, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, at fyrddiwn o angylion, i gymanfa a

chynnulleidfa y rhai cyntafanedig y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd."

"Mae eglwys Dduw trwy 'r ddae'r a'r nef yn un,
Y meirw a'r byw â'u cydsain yn gytun;
Teilwng yw 'r Oen, medd seintiau yn y nef,
Teilwng yw 'r Oen, yw 'n llafar ninnau a'n llef."

IAWN YMDDYGIAD YN MODDION GRAS.

Y MAE yn anhawdd gwybod beth i'w ddyweyd ar y mater hwn. Y mae wedi bod yn destun siarad yn ein Cymanfaoedd, yn ein Cyfarfodydd Misol, yn ein Cyfarfodydd Ysgolion, a chan yr ymwelwyr â'r eglwysi. Rhyw destun hynod ydyw, a thestunag y mae'n resyn fod anghen dyweyd dim arno, sef, "Iawn ymddwyn yn nhŷ Dduw, ac yn moddion gras."

Yr oeddym yn darllen y dydd o'r blaen, waith un o'r dynion enwocaf a fedd ein teyrnas; ac y mae hwnw yn dyweyd mai yn Nghymru y mae crefydd yn fwyaf llewyrchus a blodeuog, ac mai cenedl y Cymry ydyw y genedl fwyaf crefyddol dan haul. Yn awr, onid oes rhyw anghysondeb anghyffredin yn hyn,—fod anghenrheidrwydd am annog, ac areithio, ac ysgrifenu am i genedl felly ymddwyn yn addas ac yn weddaidd yn moddion gras, ac yn nhŷ Dduw? Wel, anghysondeb neu beidio, *y mae* anghen; ac y mae anghen dyweyd wrth genedl y Cymry, ac yr ydym yn meddwl y gellir dyweyd cenedl y Cymry yn arbenig. Fe ddywedir ein bod ni fel cenedl, ac yn neillduol felly yr Ymneillduwyr, yn fwy yn y camwedd gwarthus hwn nag un genedl arall. Mae'n resyn fod yn rhaid dyweyd hyn am danom; eto, y mae yn ffaith sydd yn cael ei dyweyd a'i hysgrifenu yn fynych. Wrth feddwl am hyn, prin yr ydym yn gallu credu mai cenedl y Cymry yw y genedl fwyaf crefyddol, ac yr ydym yn cael ein tueddu i gredu fod y "gŵr enwog" y crybwyllasom am dano yn camgymeryd yn ddirfawr.

Fe ddywedir yn gyffredin, a darllenasom hyny ein hunain yn ddiweddar iawn, fod y Cymry ymhell iawn ar ol y Saeson yn ngweddeidd-dra eu hymddygiadau a'u moesau yn moddion gras.

Clywsom fod un gweinidog enwog o Sais yn dyweyd yn ddiweddar, pan yn pregethu mewn addoldy yn Ngogledd Cymru yma, iddo gael ei synu yn fawr at y twrw, a'r pesychu, a llefain y plant, &c., fel y dywedodd yn gyhoeddus,—"Mai un pwnc mawr yn ei grefydd ef, ydoedd peidio gosod rhwystr ar ffordd crefydd pobl eraill." Mae'n ddiammheu y synai llawer o'r Saeson, pe gwelent luaws o bethau anfoesgar cenedl y Cymry yn eu haddoliadau cyhoeddus a'u cynnulliadau crefyddol.

Pe yr edrychem ar ein haddoldai fel lleoedd Dwyfol eu hawdurdod, y mae yn ddiammheu y byddai yn llawer hawddach perswadio y lliaws am y pwysigrwydd o ymddwyn yn weddaidd a moesgar pan oddimewn iddynt.

Yr ydym yn cael ein dysgu yn dra eglur yn y Bibl fod yn ddyledswydd arbenig arnom amcanu at fod yn foesgar, yn foneddigaidd, ac i iawn ymddwyn yn nhŷ Dduw, yn ogystal ag ymhob moddion o ras; oblegid fe ddywedir ynddo, "Perchwch fy nghysegr;" "Sancteiddrwydd a weddai i'th dŷ, O Arglwydd, byth;" "Fel y gwypech pa fodd y mae yn rhaid i ti ymddwyn yn nhŷ Dduw;" "Mor ofnadwy yw y lle hwn; nid oes yma onid tŷ i Dduw;" "Gwylia ar dy droed pan fyddech yn myned i dŷ Dduw," &c.

Yr ydym yn cael yn amlwg fod yr Arglwydd yn sylwi ar holl symudiadau ac ymddygiadau pawb dan y nefoedd. Gwelwn hyny yn amlwg yn hanes Ahab, am yr hwn y dywedir, "Ac Ahab a gerddodd yn araf;" a sylwodd Duw arno, ac a ddywedodd wrth Elïas y prophwyd, "Oni weli di fel yr ymostwng Ahab ger fy mron? Am iddo ymostwng ger fy mron I, ni ddygaf y drwg yn ei ddyddiau ef." Er fod Ahab yn un o'r breninoedd mwyaf annuwiol a fu yn teyrnasu ar Israel erioed, eto pan welodd yr Arglwydd ef yn ymostwng ac yn "cerdded yn araf" o'i flaen, efe a oedodd ei farn arno. Mae trystio â'r traed wrth ddyfod i dŷ addoli, yn neillduol felly wedi i'r moddion ddechreu, yn ymddygiad hollol anfoesgar. Fe ddylem, ac y mae yn weddus i ni, ddyfod i foddion crefyddol yn wylaidd, yn araf-

aidd, ac yn ddifrifol; oblegid fe ddywedir, "Sancteiddrwydd a weddai i'th dŷ, O Arglwydd, byth." Ond, ysywaeth, fel arall y gwelir cannoedd yn dyfod i'n haddoldai y dyddiau hyn; fel am y mwyaf ei drwst a'i dwrf.

Gallem enwi amryw bethau ag sydd yn ymddangos i ni yn ymddygiadau anweddaidd ac annheilwng iawn, pa rai a welwn yn llawer rhy aml yn ein cynnulliadau crefyddol. Ni wnawn ond braidd eu henwi yn bresennol.

Dyna un ymddygiad anfoesgar iawn, ydyw y pesychu anghymedrol a glywir yn fynych yn ein cynnulleidfaoedd. Mae yn ddiammheu fod y pesychu mawr a glywir yn fynych yn fwy o arferiad drwg nag y mae llawer yn ei feddwl; ac y gellir peidio dan lawer amgylchiad, ond meddwl am beidio.

Dyna ymddygiad anweddaidd iawn arall, ydyw edrych o gwmpas fel pe byddent o dan gyflog i wybod pwy a pha amser y bydd pawb yn dyfod i mewn, ac yn arbenig felly, beth fydd gwisg pawb.

Eto, ceir gweled rhai yn darllen llyfrau, a'r rhai hyn heb fod y llyfrau goreu bob amser. Ceir gweled eraill yn edrych i fewn i'w llyfrau *Notes*, &c. Clywsom un gweinidog parchus yn dyweyd unwaith, y bydd gweled dynion yn edrych i'w llyfrau yn ei friwo ef yn fwy na dim; fel pe byddai ei bethau ef yn ddim gwerth eu gwrando. Gwyddom am rai sydd yn arfer darllen "*rhyw lyfrau*" ar hyd y blynyddoedd yn y moddion crefyddol.

Gallem enwi lluaws o arferion eraill hynod o anfoesgar sydd i'w canfod yn llawer rhy fynych yn ein cynnulliadau crefyddol, megys cysgu, siarad, a chwerthin, &c. Mae *actio* y pethau hyn yn moddion gras, ac yn nhŷ Dduw, yn brawf amlwg o ddiffyg synwyr yn y pen, yn ogystal ag o ddiffyg gras yn y galon.

Mewn gwirionedd, nis gallwn daflu mwy o anfri ar dŷ Dduw, a'i breswylydd, na thrwy ymddwyn yn anweddaidd oddifewn iddo; ac yn neilldnol felly mewn moddion crefyddol.

Megys ag y sylwodd un gweinidog parchus yn ddiweddar iawn, y dylem ymddwyn yn addas, ac yn foesgar yn nhŷ Dduw am mai TY DDUW ydyw. "Nid addas," meddai yr un gŵr, "a fyddai i neb ymddwyn yn anfoesgar yn un o dai ein cymydogion, neu o fewn i un o balasdai ein gwlad." Mae'n ddiammheu nas gallem daflu mwy o anfri ar unrhyw balasdy, ynghyd a'r boneddigion a fyddo yn preswylio ynddo, na thrwy ymddwyn yn anweddaidd pan o'i difewn iddo. Wel, pa faint mwy anweddaidd a fyddai i ni ymddwyn felly yn Nhŷ Dduw, am yr hwn y dywedir, "Y lle yr wyt yn sefyll arno sydd ddaear sanctaidd?" A therfynwn gyda dyfynu yr un adnod ag a ddyfynwyd o'r blaen —yr hon sydd yn bur blaen a phendant ar y mater,—"Perchwch fy nghysegr, yr Arglwydd ydwyf fi."

W. PARRY (*Llechidon*).

Y DDYSGYBLAETH EGLWYSIG.

Gan y Parch. DAVID REES, *Bronant.*

AWGRYMIR gan lawer o ddynion call, teimladwy dros achos crefydd, fod y ddysgyblaeth yn galw am sylw y dyddiau hyn. Dywed rhai ei bod wedi myned i golli yn gwbl mewn rhai eglwysi. Ond dylai fod mewn grym ymhob eglwys, er cadw tŷ glân i'r Arglwydd.

Ystyrir y gair *Dysgyblaeth* yn gyffredin fel yn dynodi y ceryddon cyhoeddus a weinyddir gan yr eglwys am feïau cyhoeddus. I ddynodi ei chymeriad ceryddol, sonir am "*wialen* y ddysgyblaeth." Mae hyn yn dangos ar unwaith fod ein golygiadau am natur a dyben dysgyblaeth eglwysig, os nid yn anghywir, yn anmherffaith iawn. Y mae y ddysgyblaeth yn golygu y driniaeth bersonol a dderbynia yr aelodau, yn gystal a'r driniaeth gyhoeddus—y cynghorion a'r cyfarwyddiadau caredig, yn gystal a'r ceryddon. Felly gellir edrych arni yn y ddwy wedd—yn bersonol a chyfrinachol, ac hefyd yn gyhoeddus.

Gyda golwg ar y gyntaf, er ei bod y fwyaf pwysig, esgeulusir hi braidd yn hollol mewn llawer eglwys. Nid oes gwyliadwriaeth ddigon manwl yn cael ei chadw ar agwedd ysbrydol yr aelodau; ac ni sylwir yn ddigon craffus ar arwyddion oerfelgarwch a dirywiad ysbrydol. Ni wneir ymchwiliad digon manwl i'w hachosion, ac ni ddefnyddir moddion i adferu yr enaid a'i ddiwygio.

Gall llawer sydd yn awr ar dir

gwrthgiliad dystio na chawsant gynghor, na chyfarwyddyd, na rhybudd gan aelod na swyddog, na gweinidog, er eglured oedd yr arwyddion o'u dirywiad ysbrydol. Y mae yn ddiau nad all pob un ddim dyweyd hyn; ond rhy fach o hyn sydd yn bod. Pe byddai y cynghorion a'r cyfarwyddiadau personol yn ddigon aml a difrifol, ni byddai galwad mawr am y ceryddon cyhoeddus.

Ond y mae y rhan gyhoeddus o'r ddysgyblaeth yn un bwysig dros ben; ac oddieithr i hon gael ei chyflawni mewn ysbryd priodol, ofer fydd holl lafur y weinidogaeth.

Dylai pob drwg gael ei chwilio i'r gwaelod, a'i feddyginiaethu yn briodol. Os na wneir hyn, bydd yr effaith yn niweidiol. Gwelir ambell un yn colli yr ychydig lewyrch oedd arno yn flaenorol, ac un arall yn "ymadnewyddu yn ysbryd ei feddwl," mewn canlyniad i weinyddiad y ddysgyblaeth arno. Ac mor bell ag y mae fy sylw i yn cyrhaedd, ymddibyna yr effeithiau, i raddau pell, ar yr ysbryd a amlygir yn ei gweinyddiad.

Nid oes dim yn fwy niweidiol wrth ddysgyblu na thrafod yr achos yn arwynebol. Os na threiddir i waelod y drwg, gwell o lawer peidio cyffwrdd âg ef o gwbl. Ac os na ddengys y troseddwr arwyddion boddhaol o edifeirwch, creulondeb â'i enaid fyddai ei dderbyn i'r eglwys.

Os bydd ymryson wedi cyfodi rhwng brodyr, fe ddylid bod yn ochelgar rhag gwrando ar lais y rhai a ddywedant bob amser yn y cyfryw amgylchiad—"Mygwch ef! mygwch ef!"—a'r tân heb ei ddiffodd. Oddieithr i'r tân gael ei ddiffodd, bydd yn sicr o dori allan gydag adnewyddol nerth. Dylai yr eglwys wisgo dwyfroneg cyfiawnder bob amser pan y byddo yn gweinyddu dysgyblaeth; fe ddylai fod mor anmhleidiol fel na byddo lle i ddrwgdybiaeth. Nid oes, ac ni ddylai fod yn yr eglwys ond un wialen. Nid yw Crist yn caniatâu cadw dwy wialen yn yr eglwys i geryddu—un i geryddu y tlawd, ac un arall i geryddu y gŵr cyfoethog; ysgubell ar gyfer y gŵr bach, a brigyn ar gyfer y gŵr mawr, rhag ei ddolurio. Gobeithio na chymer hyn le yn eglwysi Cymru, ond y cadwer crefydd yn ei phurdeb wrth ddysgyblu!

Yn y ddysgyblaeth, y mae ysbryd ac egwyddorion yr eglwys yn dyfod i'r golwg yn aml ac yn effeithiol iawn. Ceir gweled mewn llawer amgylchiad pa faint o ysbryd ffydd a chyfiawnder sydd ynddi—pa un fwyaf o ofn dyn neu ofn Duw sydd ynddi. Bydd dadl yn dygwydd bod rhwng y dyn tlawd a'r dyn cyfoethog weithiau; ac os digir y dyn cyfoethog, fe gollir llawer at gynnal y weinidogaeth; ac y mae rhai yn yr eglwys yn ymddibynu arno am lawer o'u cynnaliaeth. Os na fydd i gyfiawnder gael ei weinyddu yn yr amgylchiad yna, fe gyll yr eglwys hono, a'r weinidogaeth, ei dylanwad yn llwyr yn yr ardal hono.

Bryd arall, bydd dau yn gyfartal yn yr eglwys o ran dylanwad ac amgylchiadau personol; ond bydd gwahaniaeth yn eu cysylltiadau teuluaidd. Bydd un yn gysylltiedig â hanner yr eglwys drwy gyfathrach a pherthynas, a bydd ei ddylanwad yn rhedeg drwyddynt oll. Bydd ei achos ef yn wan, o bosibl. Dyna brawf ar ysbryd yr eglwys! Dyna brawf ar ei hegwyddorion! A weinyddir cyfiawnder ar draul digio y teuluoedd cyfoethog a chyfrifol? Os na wneir, bydd yr eglwys yn dangos nad yw ei chalon ond llawn o dwyll a rhagrith. Ond fe allai y dywed rhai y byddys mewn perygl o rwygo yr eglwys, ac onid gwell gwyro ychydig oddiwrth y gwirionedd er mwyn cadw tangnefedd? Onid trugaredd fyddai cael gwared o ddynion sydd yn tynu gwarth ar eglwys Dduw, wrth eu goddef i fyw fel y maent gyda chrefydd? Rhaid i'r eglwys fod yn gyfiawn ac yn anmhleidiol cyn y bydd i'r Ysbryd Glân wneyd ei breswylfod ynddi.

Gofaler gweinyddu y cerydd mewn ysbryd cariadus ac addfwyn: Galat. vi. 1, 2. Os na bydd ffyddlondeb yn cael ei gymysgu â thynerwch, bydd yn foddion i galedu yn lle argyhoeddi. Oddieithr i'r troseddwr gael yr argaff mai oddiar gariad at ei enaid y gweinyddir y cerydd, ni fydd yn debyg o dderbyn lles oddiwrtho. Rhaid addef fod eisieu doethineb mawr wrth ddysgyblu. Ond bendith a fyddai codi y ddysgyblaeth yn fwy i sylw y dyddiau hyn. Ac y mae yn ddiammeu y dylai fod mwy o sylw yn cael ei alw at y mater yma, wrth dderbyn blaenoriaid yn aelodau o'r Cyfarfod Misol.

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill* 1*af*, 1888, *i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

DOSBARTH CANOL.

SABBOTH, EBRILL 7FED—*(Y rhan olaf o'r Wers am* HYDREF 7FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 11).

CEIR y nodiadau ar yr OLL o'r Wers uchod gyda'u gilydd yn Rhifyn *Mawrth.* tu dal. 95, 96.

SABBOTH, EBRILL 14EG—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* HYDREF 14EG *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 11).

Porthi y pedair mil.

1. Ceir llawer o *debygolrwydd* rhwng y wyrth hon—Marc viii. 1—9, â'r un a gofnodir yn Marc vi. 35—44. Yr oedd y ddwy wyrth yn agos i'w gilydd o ran amser a lle. Tyrfa fawr oedd yn dylyn yr Iesu yn y naill a'r llall, a thosturi y Gwaredwr a'i cymhellodd i'w cyflawni. Cyfodid y cwestiwn o anhawsder i ddiwallu y fath dyrfa mewn lle anial, yn y naill a'r llall. Gofynodd ein Hiachawdwr yr un cwestiwn yn y ddau amgylchiad, "Pa sawl torth sydd genych?" Gosodwyd y dyrfa i eistedd ar y llawr y ddau dro. Bendithiodd yr Iesu yr ymborth, a rhoddodd ef i'w ddysgyblion i'w rannu i'r bobl. Porthwyd y miloedd âg ychydig ymborth, trwy ei gynnyddu mewn modd gwyrthiol, y ddau dro. Casglwyd y gweddill y ddau dro, yn swm mawr mewn basgedau.

2. Y mae yma hefyd rai pethau yn *gwahaniaethu.* Porthwyd pum' mil o wŷr yn y naill, a phedair mil yn y llall. Pum' torth a dau bysgodyn oedd yn y naill, saith dorth ac ychydig bysgod bychain yn y llall. Yr oedd deuddeg basgedaid yn ngweddill yn y naill, er fod y dyrfa yn fwy a'r ymborth mewn llaw yn llai; saith basgedaid oedd y gweddill yn y llall. Yr oedd y dyrfa yn fwy estronol y tro hwn na'r llall, y lle yn fwy anial ac unig, teimladau cynhyrfus y bobl yn gryfach; ac yr oedd yr Iesu newydd ddychwelyd o daith hir a blinderus.

SABBOTH, EBRILL 21AIN—*(Yr ail ran o'r Wers am* HYDREF 14EG *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 11).

3. Dangosir *gwendid ffydd y dysgyblion* yn eu gwaith yn gofyn "O ba le y gall neb ddigoni y rhai hyn â bara yma yn yr anialwch?" pan yr oeddynt mor ddiweddar wedi gweled amlygiad mor ryfeddol o allu gwyrthiol Crist, mewn cyffelyb amgylchiad, yn porthi y miloedd â phum' torth a dau bysgodyn: viii. 4.

4. Ar y llaw arall, gwelwn *dynerwch a dyngarwch ein Gwaredwr*, yn ei waith yn "tosturio wrth y dyrfa," yn cyfrif yr amser yr oeddynt wedi bod gydag ef, ac yn awr "heb ganddynt ddim i'w fwyta," yn gweled nad oeddynt yn gymhwys i'w gollwng ymaith yn y cyflwr hwnw, ac yn sylwi yn fanwl fod "rhai o honynt wedi dyfod o bell," viii. 2, 3. Dyma nodwedd ei genadaeth rasol yn ein byd ni—"tosturio wrth y dyrfa." Ni cheisiai ffafr mawrion y byd, ond elai ar ol y tlodion a'r truenusion, "y rhai a gollasid," a'r doraeth fawr o ddynolryw.

Y mae y gair a gyfeithir "tosturio" yn air cryf iawn. Golyga y fath deimlad o dosturi ag sydd nid yn unig yn cynhyrfu y meddwl, ond hefyd yn effeithio ar y corff—yn peri i'r gwaed gyflymu, yr ymysgaroedd i deimlo, &c. Parai ei ddynoliaeth berffaith ef fod y cydymdeimlad mwyaf byw rhwng y corff â theimladau cryfion yr enaid. Ffoadur ydoedd yr Iesu pan yn cyflawni y ddwy wyrth o borthi; yn y gyntaf, daethai o Galilea o herwydd gelyniaeth Herod; yn yr ail, ciliasai o Galilea oddiwrth y Phariseaid a'r llywodraethwyr crefyddol. Ond annghofiai ei hunan y ddau dro, mewn cydymdeimlad tosturiol âg anghen y dyrfa.

5. Parodd yr amlygiadau hyn o allu gwyrthiol a thosturi yr Iesu i'r bobl ddwyn ato gleifion lawer i'w hiachâu. Dywedai llawer mai efe oedd y prophwyd oedd ar ddyfodiad i'r byd, ceisient ei wneyd yn frenin, ac elent ar ei ol am iddynt fwyta o'r torthau a'u digoni, nes eu tramgwyddo a'u gyru ymaith gan ei athrawiaeth ysbrydol a nefol, a'i ddysgeidiaeth oruchel am dano ei hun.

SABBOTH, EBRILL 28AIN—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* HYDREF 21AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 11).

Agoryd llygaid y dall yn Bethsaida.

Marc yn unig a rydd hanes gwyrthiau iachaol yr Iesu yn ei ymdaith olaf, yn llinell y rhês o fynyddoedd ar yr ochr ddwyreiniol i'r Iorddonen a môr Galilea. Adgofion Pedr a gadwodd y trysorau hyn. Perthynent i amser tra chofiadwy ganddo, a phwysig yn ei hanes ysbrydol.

ADN. 22: *Ac efe a ddaeth i Bethsaida.* Nid y Bethsaida ar yr ochr orllewinol,

yn Galilea; ond Bethsaida Julias, ar làn gogledd-ddwyreiniol môr Tiberias. Yma, mewn lle anial yn agos i'r pentref, yn ol Luc ix. 10, y cymerodd y wyrth gyntaf le o borthi y dyrfa. *A hwy a ddygasant ato un dall, ac a ddeisyfasant arno ar iddo gyffwrdd âg ef.* Eu cais hwy oedd cyffyrddiad yr Iesu, ac iachâd yr un fynyd. Ond cymerodd efe ei ffordd ei hun, dull mwy araf a chwmpasog. Awgrymir rhesymau am hyn ymlaen.

Adn. 23: *Ac wedi ymaflyd yn llaw y dall, efe a'i tywysodd ef allan o'r dref.* Cymerodd yr Iesu y dyn mud a byddar "o'r neilldu allan o'r dyrfa," vii. 33. Ond dygwyd y dall hwn i le mwy neillduedig—"a'i tywysodd ef allan o'r dref." Yr oedd rheswm dros iddo gyflawni ei wyrthiau yn awr yn ddirgel; yr oedd ei "ymadawiad" i gael "ei gyflawni yn Jerusalem." Tybir hefyd fod elfen o addysg yn y neilldua hwn. Nis gallai y mud a'r byddar glywed ei lais, dim ond gweled ei arwyddion; nis gallai y dall hwn ei weled, ond yn unig ei glywed yn siarad a theimlo cyffyrddiad ei law. Felly yr oedd ei arwain i unigrwydd yn brawf ac yn ddysgyblaeth i'w ffydd, yr hyn fe allai yr oedd arno fawr eisieu. *Ac wedi iddo boeri ar ei lygaid ef.* Dywedir hefyd am y mud a'r byddar, "ac wedi iddo boeri, efe a gyffyrddodd â'i dafod ef," vii. 33. Arferid poeri i iachâu; felly gyda'r dall yn Ioan ix. 6. Arferid hyn yn yr hen oesoedd fel meddyginiaeth i'r llygad. Tybia Meyer fod y poer, fel yr olew, i'w gyfrif yn drosglwyddydd y gallu gwyrthiol, vi. 13. Ond ni ddefnyddid ef at y glust, ond gwlychai yr Iesu ei fys a chyffyrddai â'r tafod, vii. 33; ac yma â'r llygaid. Ni chymhwysid ef byth at y glust; a gallai ei fod yn gyfrwng arwyddluniol gwell i ddeffroi ffydd. *A dodi ei ddwylaw arno.* Y mae cyffyrddiad tyner y llaw yn effeithio yn gryf ar y gewynau, a thrwyddynt hwy ar y meddwl, a thrwy y meddwl arnynt hwythau yn ol. Yr oedd ein Hiachawdwr yn hynod am wneyd i'r goruwchnaturiol ymddangos mor debyg ag y gellid i'r naturiol.

Efe a ofynodd iddo, a oedd efe yn gweled dim. Daw yr un peth i'r golwg yma eto. Mor debyg i feddyg dynol, wedi myned trwy un ran o'r prawf, yn aros ac yn holi y claf am lwyddiant y rhan hono!

Sabboth, Mai 5ed—(*Y rhan olaf o'r Wers am* Hydref 21ain *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 11).

Adn. 24: *Ac wedi edrych i fyny, efe a ddywedodd, Ŷr ydwyf yn gweled dynion megys prenau yn rhodio.* Cyf. Diwyg. "*Yr ydwyf yn gweled dynion!*" Mynegiad o lawenydd am ddechreu gweled. "*Canys yr wyf yn eu gweled megys prenau yn rhodio.*" Nid yn bersonau unigol ar wahân, ond fel coed ar ymyl y ffordd yn llithro heibio i'r teithiwr. Neu, dynion yn rhodio, ond yn wrthddrychau mawr, heb fod ar ffurf ddynol, megys prenau. Dengys hyn nad oedd wedi ei eni yn ddall, onidê ni fuasai ganddo syniad am ddynion na phrenau. Dyma ddarluniad o weled aneglur, gweled megys yn y gwyll. Y radd gyntaf o iachâd. Sylwa un ei fod yn nod manwl o wirionedd, fod y dyn yn desgrifio ymddangosiad dynion iddo yn awr, fel yr oedd yn ddiau wedi sylwi ar yr un fath ymddangosiad yn ystod adfeiliad ei olwg, yr hwn a ddybenodd mewn dallineb. Iachaodd Crist ef yn raddol, fe allai am fod ei ffydd yn wan, ac mai profiad graddol o adferiad ei olwg oedd debycaf o'i arwain i radd uwch o ffydd. Barna Olshausen y buasai iachâd cyflym yn niweidiol, ac mai er mwyn y llygaid eu hunain y gwnaed ef yn raddol. Y mae y sylw yna yn rhagdybied yr hyn a nodwyd o'r blaen am undeb y naturiol a'r goruwchnaturiol yn ngwyrthiau Crist. Y personau a hanner-welai y dyn oedd ei gymdeithion fe allai, neu y bobl oedd draw yn edrych, ac yn cerdded yn ol ac ymlaen mewn dyddordeb pryderus.

Adn. 25: Cyf. Diwyg.:—*Wedi hyny y gosododd efe ei ddwylaw drachefn ar ei lygaid ef; ac efe a edrychodd yn sefydlog, ac a adferwyd, ac a welodd bob peth yn eglur.* Y mae ammheuaeth am eiriad manwl y testun yn yr adnod hon—y darlleniadau yn amryw. Ond nid oes amrywiad o bwys, ac y mae yr ystyr yn hollol eglur.

Adn. 26: *Ac efe a'i hanfonodd ef adref i'w dŷ, gan ddywedyd, Na ddos i'r dref, ac na ddywed i neb yn y dref.* Neu—'na ddywed i neb a gyfarfyddi yn amgylchoedd y dref.' Cyf. Diwyg., "Na ddos hyd yn nod i mewn i'r pentref." Yr oedd gan ein Harglwydd reswm dros hyn yn ei berthynas âg ef ei hunan, fel y nodwyd. Nid oedd cyhoeddusrwydd i'w dynu, yn y cyfwng hwn, oddiar linell yr amser a'r lle ordeiniedig i'w ddyoddefaint a'i angeu. Ond yr oedd rheswm, o bosibl, mewn perthynas i'r dyn ei hunan hefyd. Gofynai ei ystâd ysbrydol am amddiffyn unigrwydd, fel y byddai i'r fendith a brofasai addfedu i berffeithrwydd.

Dosbarth o wlad dywell, hanner-paganaidd oedd hwn. Ac os oeddynt yn synied mai trwy ryw swyn yr oedd Crist yn iachâu, yr oedd ei ddull doeth Ef o weithredu yn chwalu y fath syniadau

Er fod ei feddwl yn awr yn llawn o'i farwolaeth, yr hon oedd yn ymyl, ni throai heibio oddiwrth gŵyn yr anghenog. Dengys yr hanes gyda pha fath dosturi a hunan-anghof y cyflawnai ei wyrthiau; â pha fath ddwfn ostyngeiddrwydd (heb un awydd am y clod sydd o ddynion), â pha fath ddoethineb a hunanfeddiant goruchel. Dengys y wyrth hon hefyd, fel y sylwa un, gydgordiad gwyrth â natur, neu gwrs naturiol gwyrth—graddol fynediad i mewn y gallu Dwyfol i'r hen natur, a'i ganlyniadau yn y natur newydd.

DOSBARTH HYNAF.

SABBOTH, EBRILL 7FED—*(Y rhan olaf o'r Wers am* MEDI 30AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 24).

ADN. 25: *Yna y dywedasant wrtho, Pwy wyt ti?* Y mae y cwestiwn hwn yn canlyn y ddau ddywediad o eiddo Crist, "minnau sydd oddiuchod" (adn. 23), ac "mai myfi yw efe," adn. 24. Deallent ystyr y dywediadau hyn, ond ni chydnabyddent hyny. Gofynent y cwestiwn mewn rhan i wawdio: 'Pwy gan hyny yr wyt ti yn tybied dy hun?' 'A wyt ti yn tybied mai ti yw y Messïah?' Gofynent ef hefyd, mewn rhan, er mwyn ei wasgu i gyhoeddi ei hun yn amlwg fel y Messïah, fel y gallai eu gelyniaeth ymaflyd yn yr ateb, i'w gyhuddo a'i gondemnio. Gofynant yr un cwestiwn yn x. 24: "Pa hyd yr wyt yn peri i ni ammeu? os tydi yw y Crist, dywed i ni yn eglur." Ond gofynir "Pwy wyt ti?" yn yr adnod hon, gyda mwy o erwindeb a malais. *A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd hefyd wrthych o'r dechreuad.* Parodd yr ateb hwn o eiddo yr Iesu drafferth fawr i esbonwyr, o herwydd amwysedd "Yr hyn," ac "o'r dechreuad." Dealla Meyer ef fel cwestiwn o syndod mewn atebiad i'w cwestiwn hwy: "Ai yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd wrthych o'r dechreuad?"—'ai am hyny yr ydych eto yn gofyn?' Cawn fod y rhan fwyaf o esbonwyr yn syrthio i'r golygiad canlynol, o ran sylwedd: 'Myfi *ydwyf* yr hyn (neu yr hwn) yr wyf yn ei *ddywedyd* wrthych.' Gwahaniaethir llawer am ystyr "o'r dechreuad." Dealla rhai ef—'o ddechreuad fy ngweinidogaeth;' eraill 'yn hanfodol,' neu 'mewn gwirionedd'—(trwy olrhain peth i'r dechreuad, i'w egwyddor gyntaf); eraill 'yn nghyntaf oll, cyn rhoddi yr un *enw* arnaf fy hun, myfi ydwyf yr hyn yr wyf yn ei lefaru i chwi.' Sylwir fod y gair a gyfieithir yma "dywedyd" yn golygu yn hytrach "llefaru"—nid dywediadau unigol yma a thraw, ond ystyr gyffredinol ei holl addysg iddynt. Credwn fod yr ystyr fel y nodwyd: 'Na cheisiwch adnabod fy Mherson ar wahân i fy ngatguddiad o honof fy hunan yn fy ngeiriau—dyna *ydwyf* fi, yr hyn yr wyf o hyd yn ei *lefaru* wrthych.' Efe yw y *Gair;* y mae ei bregethau a'i ymddyddanion yn ddadguddiad o hono ef ei hunan. Pan ofynodd Moses enw Duw (medd Alford), yr ateb dirgeledig oedd, "*Ydwyf yr hwn* (neu yr hyn) YDWYF." Yr oedd ei hanfod yn guddiedig. Efe yn unig a allai amgyffred ei hunan. Ond pan ofynwyd yr un cwestiwn i Dduw yn y cnawd, yr ateb yw "*Ydwyf yr hyn yr wyf* YN EI LEFARU." "Duw a *ymddangosodd* yn y cnawd." Y mae y *Gair* yn dadguddio ei hun mewn *geiriau.* Efe ei hun yw swm a sylwedd ei holl ddywediadau. Efe yw awdwr a gwrthddrych y dadguddiad. Ei athrawiaeth yw Efe ei Hunan.

ADN. 26: *Y mae genyf fi lawer o bethau i'w dywedyd ac i'w barnu am danoch chwi.* "Llawer o bethau" 'mewn ffordd o gerydd am eich rhagfarn a'ch anghrediniaeth.' *Eithr cywir yw yr hwn a'm hanfonodd i; a'r pethau a glywais i ganddo, y rhai hyny yr ydwyf fi yn eu dywedyd i'r byd.* 'Ond yr wyf yn ymattal rhag eu dywedyd yn awr, ac yn cyfyngu fy hun i'm neges uniongyrchol, sef i hysbysu i'r byd y pethau a glywais yn fy ystâd o rag-hanfodiad gyda Duw—y Cywir, yr hwn a'm hanfonodd.' Yr oedd cyfranu gwirionedd Dwyfol i'r byd y gwaith mwyaf pwysig, ac yn cau allan bethau llai pwysig. Dyma ystyr arall a ddyry rhai: fod ein Harglwydd yn llefaru geiriau llym wrth y rhai oedd yn ei wrando, i'w dwyn i adnabod eu hunain pechadurus; ond ei fod yr un pryd yn siarad dros eu penau hwy i genedlaethau dylynol ac i'r holl fyd.

ADN. 27: *Ni wyddent hwy mai am y Tad yr oedd efe yn dywedyd wrthynt hwy.* Y mae hyn yn rhyfedd, pan yr oedd newydd ddyweyd ac ail-ddyweyd yn adn. 16, 18—"y Tad yr hwn a'm hanfonodd i." Dywed un esboniwr ar hyn, nas gellir cyfrif am anwybodaeth anghrediniaeth. Sylwa Meyer fod dosran newydd o'r ymddyddan yn dechreu yn adn. 21, ac felly y gallai nad yr un rhai oedd y gwrandawyr yn gwbl.

ADN. 28: *Am hyny y dywedodd yr Iesu wrthynt, Pan ddyrchafoch chwi Fab y dyn, yna y cewch wybod mai myfi yw efe, ac nad wyf yn gwneuthur dim o honof fy hun; ond megys y dysgodd fy Nhad fi, yr wyf yn llefaru y pethau hyn.* "Am

hyny" yn cysylltu âg adn. 26. Cyfeiria yr Iesu at eu gwaith yn ei ddyrchafu ef i'r groes: "pan ddyrchafoch *chwi* Fab y dyn." Sonia am ei farwolaeth fel "dyrchafu" yn iii. 14 a xii. 32, 33. Yr oedd hwn yn ymadrodd cynnefin ymhlith yr Iuddewon am groeshoelio. Wedi ei farwolaeth, caent wybod pwy ydoedd: am fod ei farwolaeth yn sail ac ammod ei ogoneddiad, tywalltiad yr Ysbryd, gwyrthiau yr apostolion, sefydlu yr Eglwys, cosbedigaeth yr Iuddewon, a'i ail-ddyfodiad i farn. Agorid llygaid rhai o'u bodd, i edifeirwch; eraill er eu gwaethaf, yn rhy ddiweddar. Y mae y pethau a nodir yn niwedd yr adnod yn gyfystyr a dyweyd—"Chwi a gewch wybod mai myfi yw y Messïah, mai y Tad a'm hanfonodd." "Nad wyf fi yn *gwneuthur* dim o honof fy hun"—"yr wyf yn *llefaru* y pethau hyn." Yr oedd ei weithredoedd Ef yn hysbysiad o'r Tad —yn "llefaru" yn yr ystyr eangaf. "Y pethau hyn"—ei athrawiaeth yn gyffredinol.

Adn. 29: *A'r hwn a'm hanfonodd i sydd gyda myfi: ni adawodd y Tad fi yn unig.* Cadarnhad i'r hyn a ddywedasai yn adn. 28 am ei undeb a'i gymundeb â'r Tad. Ar ol y ffurf gadarnhaol, rhoddir ef yn y ffurf nacaol, am fod y gwrthwynebiad a'r gelynion nerthol oedd iddo yn peri iddo ymddangos fel pe buasai wedi ei adael. *Oblegid yr wyf fi yn gwneuthur bob amser y pethau sydd foddlawn ganddo ef.* Rheswm am bresennoldeb y Tad bob amser gydag ef, yn ol un golygiad. Ond, meddai esboniwr arall, nid yw y geiriau hyn yn rhoddi *rheswm* am yr undeb hanfodol rhwng y Tad a'r Mab. Undeb *moesol*, neu gymundeb, sydd yma. Gesyd un golygiad ufuddod y Mab yn *rheswm* am yr undeb, a'r golygiad arall yn *ganlyniad* yr undeb: yn ol y naill—'yr ydym yn un am fy mod yn ufuddhau;' yn ol y llall—'yr wyf yn ufuddhau am ein bod yn un.' Yn ol y syniad hwn, amlygiad oedd "gwneuthur bob amser y pethau sydd foddlawn ganddo ef" o'r undeb hanfodol, anweledig oedd rhwng y Tad a'r Mab. Credwn mai Meyer sydd yn gywir yma, yn erbyn Olshausen. Nid am undeb yr hanfod y sonir; buasai yn anmhosibl i'r Tad beidio bod "gydag ef," a'i "adael yn unig" yn yr ystyr hono. Llefara ein Hiachawdwr yn ei sefyllfa gyfryngol, fel "gwas" y Tad, am yr amlygiadau o'i foddlonrwydd ynddo ac iddo.

Adn. 30: *Fel yr oedd efe yn llefaru y pethau hyn, llawer a gredasant ynddo ef.* "Llawer" o'r gwrandawyr cyffredin. Gwahaniaethir yr Iuddewon a gredasant yn yr adnod nesaf. "Credasant" â gradd uwch o ffydd na'r rhai yn ii. 23, am ei bod yn ffydd "trwy glywed," a'r llall yn unig trwy weled yr arwyddion.

Sabboth, Ebrill 14eg—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Hydref 7fed *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 28).

Adn. 31: *Yna y dywedodd yr Iesu wrth yr Iuddewon a gredasant ynddo.* Agorir yma ddosran newydd o'r ymddyddan. Yr Iuddewon hyn oeddynt rai o'r penaethiaid, fel y tybir. Yr oeddynt wedi credu ei eiriau i ryw fesur: Cyf. Diwyg., "a'i credasant ef." Gwyddai efe mor anwadal oedd eu ffydd; felly llefara wrthynt y geiriau a ganlyn. Trodd y geiriau hyn hwynt ar unwaith yn wrthwynebwyr iddo. *Os aroswch chwi yn fy ngair i, dysgyblion i mi ydych yn wir.* Sylwa un fod "os aroswch" yn tybied *bod* yn ei air. Ond y mae y *bod* hwn mor wan ac aneglur, fel mai ei ras cyfoethog ef yn unig sydd yn ei gydnabod. Golyga "aros yn ngair Crist" breswyliad y credadyn ynddo fel elfen barhaol ei fywyd mewnol ac allanol; cylch ysbrydol newydd, yn yr hwn y mae y creadur newydd yn byw, symud a bod. Ceir y syniad hwn yn fynych yn yr Efengyl hon, yn enwedig yn ymddyddan yr Iesu â'i ddysgyblion ar ol y swper, pen. xv. Rhoddir aros yn ngair Crist fel yr un peth a bod gair Crist yn aros ynom ni; a bod aros yn ngair Crist yr un peth ag aros yn Nghrist, neu yn brawf o hono: "Os aroswch ynof fi, ac aros o'm geiriau ynoch," xv. 7. Yr ydym yn aros yn ei air ef pan y mae ei air ef yn aros ynom ni—yn ymafyd yn yr enaid, yn ei dreiddio, ac yn cael preswylfa sefydlog ynddo, nes y mae y "gair" a "ffydd" yn gweithredu yn barhaus ar eu gilydd (Heb. iv. 2)—yn cael eu "cyd-dymheru." Dyma ammod a phrawf bod yn *wir* ddysgyblion i Grist. *Ydych*—yr oeddynt wedi rhoddi rhyw arwydd allanol, dybygid, eu bod yn credu ynddo, ac yn cymeryd eu hochr gyda'i ddysgyblion.

Adn. 32: *A chwi a gewch wybod y gwirionedd.* Golyga y "gwybod" hwn y wybodaeth uwchaf: gwybodaeth brofiadol, fywiol ac ysbrydol; sylweddoliad mewnol o'r gwirionedd, nid yn y deall yn unig, ond yn ysbryd dyn. Gwirionedd Dwyfol yw cynnwys "gair Crist;" Efe ei hun sydd yn meddu ac yn cyfranu y gwirionedd; felly y mae ei *wybod* yn dechreu gyntaf pan y mae dyn yn credu. Fel hyn y mae *credu* yn ammod *gwybod* yn yr ystyr ddyfnaf. *A'r gwirionedd a'ch rhyddhâ chwi.* Y mae gwirionedd Duw yn a thrwy Grist yn rhyddhau oddiwrth bechod a chyfeiliornad. Sail ac elfen

teyrnas pechod yw tywyllwch. Rhyddhâ oddiwrth iau *deddf* fel gosodiad oddiallan, a gesyd hi yn anian oddimewn. Rhyddhaodd yr Eglwys oddiwrth oruchwyliaeth deddf, a galwodd hi allan i ryddid sanctaidd yr efengyl. Rhyddhâ y credadyn oddiwrth bechod, cyfeiliornad ac ofn, i'r graddau y mae yn "gwybod" —yn dirnad yn ysbrydol, trwy sylweddoli neu brofi gwirionedd Crist. Swm y cwbl yw hyn—mewn sancteiddrwydd y mae gwir ryddid ysbryd dyn, mewn gwasanaeth ac ufudd-dod i Dduw oddiar gariad. Y "gwirionedd megys y mae yn yr Iesu" yw yr unig allu i gynnyrchu hyn.

Adn. 33: *Hwythau a atebasant iddo.* Pwy yw yr "hwythau?" Rhyw rai eraill yn mhlith y gwrandawyr, medd rhai. Iuddewon ag oeddynt wedi aros yn annghrediniol a gelynol, medd lluaws o esbonwyr. Haws o lawer genym gredu, gyda rhai o'r esbonwyr goreu, mai yr un personau ydynt—"yr Iuddewon a gredasant ynddo." Felly y mae rhediad naturiol yr hanes yn dangos, adn. 31—33. Nid yw y gair yn adn. 37—"yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i"—yn annghyson â hyn. Darfu i eiriau miniog Crist,—geiriau yn cynnwys mai caethion oeddynt hwy—ddadymchwelyd eu ffydd wan, a'u troi yn y fan i gymeryd ochr gyda'i wrthwynebwyr. *Had Abraham ydym ni.* Yr oedd ystâd o gaethiwed yn syniad gwrthodedig iawn gan y bobl oedd i fendithio ac i lywodraethu y byd (Gen. xxii. 17 a Ioan xvii. 16). *Ac ni wasanaethasom ni neb erioed.* Eu rhyddid fel cenedl a feddylir. Annghofient yr Aipht a Babilon. Edrychent yn unig ar y genedlaeth bresennol (er eu bod yn dyweyd *erioed*), y rhai a oddefid gan y Rhufeiniaid, yn ol eu harfer fel mater o gallineb, i gadw rhyw rith o'u hannibyniaeth gwladol. Yr oedd sefyllfa ddarostyngol yr Iuddewon, yn wyneb eu syniad am eu huwchafiaeth ar bob cenedl, wedi eu cynhyrfu i ymdrech gwallgof am eu rhyddid. Bu ymladdfeydd dychrynllyd rhyngddynt â'r Rhufeiniaid. Ni dderbynient eu darostyngiad o law Duw fel yr oedd yn gosb am eu pechodau. Nid oedd dim yn fwy annyoddefol ganddynt na'r syniad o fod yn gaethweision dynion. A dyma un elfen gref yn eu hawydd am ymddangosiad y Messïah, y dysgwyliad y byddai iddo ef eu gwaredu a'u gwneyd eto yn arglwyddi y byd. *Pa fodd yr wyt ti yn dywedyd, Chwi a wneir yn rhyddion?* Camgymerent yma yr ystyr naturiol am yr un ysbrydol, fel y gwelir yn yr ymddyddan â Nicodemus, y Wraig o Samaria, a'r ymddyddan am Fara y Bywyd.

Sabboth, Ebrill 21ain—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Hydref 7fed *yn y* Gwersylfraau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 28).

Adn. 34: *Pwy bynag sydd yn gwneuthur pechod, y mae efe yn was i bechod.* Arweinia Crist hwynt i syniad dyfnach am ryddid trwy ddangos y gwrthwyneb—caethiwed. Pechod yw y gwir gaethiwed. "*Pwy bynag* sydd yn gwneuthur pechod," bydded ei ryddid a'i haniad y peth y byddo," y mae efe yn *was*," yn llythyrenol yn *gaethwas;* fel y darllena rhai copïau (heb y geiriau "i bechod"). Cyf. Diwyg. *bond-servant.* Nid "pwy bynag a becho" a ddywedir; canys felly byddai pawb yn gaethweision pechod. Ond "pwy bynag sydd yn *gwneuthur* pechod:" golyga hyn fyw mewn pechod; ei wneuthur yn wirfoddol, o ymhyfrydiad ynddo; ei "wneuthur" fel gwaith ei fywyd, fel y mae y crefftwr yn gwneuthur gwaith ei alwedigaeth. "Gwneuthur *y* pechod" yw y gwreiddiol. A ydyw y fannod yn awgrymu unoliaeth pechod o dan bob ffurf? Gesyd Olshausen bwys mawr ar y fannod fel yn golygu y pechod neilldiol ag y mae y dyn yn fwyaf tueddol iddo—byw yn y cyflawniad o hwnw, yn erbyn y ddeddf, ei reswm a'i gydwybod a'i brofiad ei hunan; ac felly yn wrthddywediad byw yn ei erbyn ei hunan.

Pa fodd y mae pechod yn gaethiwed i enaid dyn, a sancteiddrwydd yn rhyddid iddo? Crewyd dyn gan ac ar gyfer Duw; rhaid felly fod ei ddedwyddwch yn ei gyd-gordiad âg ewyllys Duw. Y mae rhyddid yn ammod dedwyddwch, neu fe allai yn ddim ond enw wedd arall arno: sancteiddrwydd neu wasanaeth Duw gan hyny yw rhyddid. Yma y mae yr holl beiriant yn gweithio yn ei le, ac yn ateb dyben ei fôd. Y mae yn canlyn fod pechod yn gosod dyn yn erbyn Duw, yn ei erbyn ei hunan, y rhan isaf o'i natur yn llywodraethu ar yr uchaf; felly y mae yn gaeth i'w dueddiadau drwg, a thrwyddynt hwy i'r diafol.

Adn. 35: *Ac nid yw y gwas yn aros yn tŷ byth: y Mab sydd yn aros byth.* Teimlir fod anhawsder i esbonio yr adnodau hyn, yn benaf oblegid sydynrwydd y newidiad o un ystyr i'r gair "gwas" i ystyr arall; ac hefyd o ystyr gyffredinol *(generic)* y gair "mab" yn yr adnod hon, i'r ystyr neilldiol i'r gair yn yr adnod nesaf. Beth hefyd yw "y tŷ?" A pha fodd y mae caethwas pechod yn y "tŷ" o gwbl? A pha fodd y mae fod y Mab yn aros yn y tŷ byth yn ei alluogi i "ryddhau?"

Er eu bod hwy yn "hâd Abraham," ac felly yn "y tŷ"—yn y ddwyflywiaeth, neu yr eglwys weledig—eto caethweision

pechod oeddynt. Y mae yn egwyddor mewn bywyd cymdeithasol, nad oes i'r caethwas le parhaus yn y tŷ. Caiff ei werthu, ei newid, neu ei fwrw allan. Ni chaiff gwas pechod aros byth yn yr eglwys; bwrir ef allan yn sefydliad teyrnas y Messïah. Deil Bengel, Ebrard, Stier, ac Alford fod yma gyfeiriad at Ismael ac Isaac, mab y wasanaethferch a mab y wraig rydd. Gall fod neu beidio. Y pwnc yw fod y caethwas a'r mab mewn sefyllfa wahanol yn y teulu. "Y mab sydd yn aros byth." Y mae lle y mab yn gwreiddio mewn perthynas, y mae *o'r* teulu; tra nad yw y caethwas yno ond o ddamwain.

Adn. 36: *Os y Mab gan hyny a'ch rhyddhâ chwi, rhyddion fyddwch yn wir.* Y mae y "mab" cyffredinol yn awr wedi pasio i Fab Duw. Y Mab yw meistr y tŷ; rhoddodd y Tad "bob peth yn ei law ef;" 'efe gan hyny a all eich rhyddhau o gaethiwed pechod, a'ch gwneyd chwithau yn feibion yr addewid, yn blant ysbrydol i Dduw.' Dyma *ryddid* gwirioneddol. Ymddangosiadol a gau yw pob un arall, adn. 33.

Adn. 37: *Mi a wn mai hâd Abraham ydych chwi.* 'Yr wyf yn addef eich bod yr hyn yr ydych yn ymfrostio bod—"hâd Abraham," ond yn ol y cnawd yn unig.' "Hâd Abraham," nid "plant" ysbrydol Abraham, adn. 39. *Ond yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i.* Dengys Efe iddynt yr hyn oedd ynddynt, er eu holl fanteision allanol. Yr oeddynt mor bell o fod yn hâd ysbrydol Abraham, fel mai "lladd Tywysog y bywyd" oedd yn eu calonau, er yn anymwybodol iddynt eu hunain, fe allai, ar y pryd; yr hyn hefyd a wnaethant. Hyn oedd eithafnod yr holl wrthwynebiad i Grist—ei "ladd." A dyma duedd a gorpheniad naturiol yr egwyddor o *gasâu* bob amser; am hyny y dywed Ioan yn ei Epistol 1af am "bob un sydd yn casâu ei frawd," mai "lleiddiad dyn ydyw:" iii. 15. *Am nad yw fy ngair i yn gènni ynoch chwi.* Rhoddir amryw ystyron i'r gair a gyfieithir "gènni." 'Nid yw yn cael lle ynoch;' 'nid yw yn cael dyfodfa i mewn i chwi.' Yr ystyr oreu yw—'nid yw fy ngair i yn gwneyd *cynnydd* ynoch—yn pwyso ymlaen, yn lledu ei wreiddiau.' Etyb hyn yn hollol i'w sefyllfa, heblaw fod yr ystyr yn ieithyddol gywir. Yr oedd gair Crist wedi cael dyfodfa dros amser byr i'w calonau; ond nid oedd wedi gwneyd cynnydd, neu ddadblygu, o'u mewn. Yn lle hyny, aethant yn ol yn ebrwydd i'w hanghrediniaeth blaenorol. Fel yr hâd, heb "ddyfnder daear."

Adn. 38: *Yr wyf fi yn llefaru yr hyn a welais gyda'm Tad i.* 'Yr achos fod fy ngeiriau yn ddieffaith ynoch, yw tarddle hollol wahanol fy ngeiriau i a'ch gweithredoedd chwithau.' Olrheinia hwynt at y ddau *dad.* Deuai hyn yn naturiol ar ol eu hymffrost o fod yn hâd Abraham. Yr oedd Efe erioed "gyda Duw," yn "mynwes y Tad," yn ei gyfrinachau dwyfol—"yr hyn a welais gyda'm Tad i"—a daeth i'r byd i'w hysbysu. Efe oedd y Mab, yn aros yn y tŷ ac yn gweled gweithredoedd ei Dad. *A chwithau sydd yn gwneuthur yr hyn a welsoch gyda'ch tad chwithau.* "Llefaru" a "gwneuthur" eto, megys yn adn. 28; ond fod y ddau yno am Grist, a'r "gwneuthur" yma am yr Iuddewon. 'Nid Abraham yw eich tad,' fel y dengys yn yr adnodau nesaf yn eglur. 'Dengys eich gweithredoedd pwy yw eich tad.'

Sabboth, Ebrill 28ain—(*Y rhan gyntaf o'r Wers am* Hydref 14eg *yn y* Gwersly frau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 11).

Adn. 39: *Hwythau a atebasant ac a ddywedasant wrtho, Ein tad ni yw Abraham.* Gwelai yr Iuddewon ei fod Ef yn meddwl rhyw dad heblaw Abraham. Yr oedd y gair hwn o'u heiddo megys yn hèriad iddo i ddyfod allan, a dyweyd yn eglur beth a feddyliai. Gwna yntau hyny, ychydig ymlaen, yn y modd egluraf: adn. 44. *Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Pe plant Abraham fyddech, gweithredoedd Abraham a wnaech.* Y mae y geiriau "plant" a "gweithredoedd" yn gyd-berthynasol; dwg yr olaf ddelw y blaenaf. Defnyddir y gair "plant" mewn ystyr foesol *(ethical)*, neu gyda golwg ar fuchedd. Profai eu gweithredoedd gwrth-Abrahamaidd nad oeddynt yn blant Abraham. Gwahaniaethir felly yma rhwng "hâd" yn ol y cnawd, a'r "plant" yn ol yr ysbryd, fel yn Rhuf. ix. 8: "Nid plant y cnawd, y rhai hyny sydd blant i Dduw; eithr plant yr addewid a gyfrifir yn hâd." Golyga "plant" ddelw, gwir hàniad mewn natur ac ymddygiad.

Adn. 40: *Eithr yn awr yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i.* 'Ond dyma y ffaith, yn lle gwneuthur gweithredoedd Abraham, yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i.' Yn y frawddeg nesaf, cawn yr hyn sydd yn dangos mawredd eu pechod. *Dyn a ddywedodd i chwi y gwirionedd, yr hwn a glywais i gan Dduw.* Clywodd y gwirionedd, derbyniodd ei genadwri, sef mater y dadguddiad i'r byd, "gan Dduw"—yn ei rag-hanfodiad dwyfol. Eto, desgrifia ei hun fel *dyn;* heb hyny ni buasai cydrywiaeth rhwng ei ddesgrifiad o hono ei hun âg esiampl Abraham. *Hyn ni wnaeth Abraham.* Ni cheisiai Abraham gymeryd bywyd dyn—am dystiolaethu

y gwirionedd—a'r gwirionedd hwnw oddiwrth Dduw.

Adn. 41: *Yr ydych chwi yn gwneuthur gweithredoedd eich tad chwi.* Deil efe at hyn, yn ol 39 a 40; ond eto heb enwi y tad. *Am hyny y dywedasant wrtho, Nid trwy buteindra y cenedlwyd ni.* Gan nad oeddynt i edrych ar Abraham fel eu tad, tybient mai rhyw dad dynol arall a olygid. Golygai hyny drachefn y buasent wedi eu cenedlu trwy buteindra (Sarah), ac y buasai ganddynt ddau dad —un gwirioneddol, ac un cyfrifol yn unig (Abraham). Gwrthodent hyny, a gwelent mai tadolaeth ysbrydol a olygid. *Un Tad sydd genym ni, sef Duw.* Neu, teimlent, er heb ddeall ei eiriau yn iawn, eu bod rywfodd yn eu herbyn. Felly gollyngant eu gafael o Abraham, a chyfeiriant at Dduw fel eu Tad. Golygent Ef, fe allai, nid yn unig yn Greawdwr, ac yn Dad cyfammodol y bobl yn y ddwyflywiaeth, ond fod ei dadolaeth wedi ei waelodi yn neilduol yn nerth yr addewid am enedigaeth Isaac.

Sabboth, Mai 5ed—(*y rhan olaf o'r Wers am* Hydref 14eg *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 11).

Adn. 42: *Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt hwy, Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech i: canys oddiwrth Dduw y deilliais, ac y daethum i.* 'Nid Duw yw eich Tad, onidê chwi a'm carech i; canys felly buasech o gyffelyb haniad i mi.' Dengys nid ei fod wedi ei anfon yn unig gan Dduw, ond wedi *deilliaw* oddiwrtho, yn gyson â'r syniad o dadolaeth. *Oblegid nid o honof fy hun y daethum i, ond efe a'm hanfonodd i.* Nid neb arall a'm hanfonodd, ac ni ddaethum trwy hunan-benderfyniad. Y Tad a'm hanfonodd. Cyhoedda ei Fabolaeth a'i Fessïaeth—yr hàniad a'r anfoniad dwyfol.

Adn. 43: *Paham nad ydych yn deall fy lleferydd i? am na ellwch wrandaw fy ymadrodd i.* Dangosodd iddynt nad oeddynt yn blant Abraham na Duw. Cyn dyweyd yn eglur plant pwy oeddynt, dengys yr achos o'u cam-ddealltwriaeth o'i eiriau. Canys oddiar gam-ddealltwriaeth yr oeddynt wedi dywedyd y cwbl o adn. 33. Nid oeddynt yn deall ei leferydd, y mynegiad allanol, am nas gallent wrandaw ei ymadrodd—yr athrawiaeth, mater y "lleferydd." Y mae yr olaf yn achos (moesol) o'r blaenaf; am fod gwrthnawsedd y galon i'r gwirionedd yn tywyllu y meddwl rhag ei ddeall. Nid oeddynt "*o'r* gwirionedd," am hyny ni ddeallent ei leferydd. Ni fynent ddeall.

Adn. 44: *O'ch tad diafol yr ydych chwi.* Wedi eu harwain yn raddol, trwy y ffurf nacaol yn adn. 39, 40, 42, 43, mynega yn awr y gwirionedd llym mewn modd cadarnhaol. Y mae yn debyg eu bod wedi dechreu gweled mai i hyn yr oedd ei eiriau yn arwain. Ond cilient oddiwrth ystyr ei eiriau, tra yn gwasgu arno yn fwy yn eu croes-ddywediadau. *Chwi* yn bwysleisiol, 'gyda'ch holl ymffrost o fod yn had Abraham, ac yn blant Duw. Y *diafol* yw eich tad! Dyma eich trâs, eich achau ysbrydol.' Tystiolaeth bendant i bersonoliaeth y diafol. *A thrachwantau eich tad a fynwch chwi eu gwneuthur.* Yr un anian oedd yn eu llywodraethu, yr hyn a brofai eu disgyniad ysbrydol. *Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad; ac ni safodd yn y gwirionedd, oblegid nid oes gwirionedd ynddo ef.* O ddechreuad yr hil ddynol. Dyma y ddau drachwant dieflig—llofruddiaeth a chelwydd—trwy y rhai y daeth efe â dinystr i'r ddynoliaeth; a'r blaenaf trwy yr olaf. Gallai fod yma îs-gyfeiriad at lofruddiaeth Abel gan Cain. A dyma y ddau drachwant a'u cymhellai hwythau yn eu gwrthwynebiad i'r Iesu. Fel eu tad, ceisient ei ladd trwy eu cyhuddiadau celwyddog. Sail fewnol gweithredoedd y diafol oedd nad oedd y gwirionedd *ynddo. Pan yw yn dywedyd celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywedyd: canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo.* Olrheinir pechod, yn cael ei gynnrychioli yma gan un ffurf o hono, "celwydd," yr hyn hefyd yw ei egwyddor ymhob ffurf, i'r diafol fel ei wreiddyn a'i ffynnonell.

Adn. 45: *Ac am fy mod i yn dywedyd y gwirionedd, nid ydych yn credu i mi.* Dyma y rheswm paham nad ydych yn credu y gwirionedd—nid ydych *o'r* gwirionedd, ond *o'r* hwn sydd yn dad y celwydd, yn cyfranogi o natur eich tad. Y mae yr efengyl yn "canmol ei hun wrth bob cydwybod," ond yn yr achos hwn ni wrandewir ar lais cydwybod. Dallodd eu tad—"duw y byd hwn"—eu meddyliau fel na thywynai y goleuni dwyfol iddynt.

"O'ch tad diafol yr ydych *chwi*"—"ac am fy mod *i* yn dywedyd y gwirionedd." *I* yn y dechreu, er mwyn pwyslais cryf yn gyferbyniol i'r diafol. Yr oedd natur Crist a natur y diafol a'i blant yn yr eithafion pellaf. Gwirionedd oedd cynnyrch naturiol y naill, a chelwydd y llall. *Am*—yn dynodi yr achos. Gair cryf, yn selio eu tynged. Nid ei anghredu *er* ei fod yn dywedyd y gwirionedd (buasai hyny yn ddrwg mawr), ond *am* ei fod. Dyma natur y diafol—gwrthdarawiad moesol: "O Ddrwg! tydi yw fy Na."

Hanesion a Darnau Detholedig.

HANES YR ACHOS CYMREIG YN DUBLIN O'R DECHREUAD HYD YN AWR.

Gan y Parch. JOHN OWEN, *Cenadwr.*

II.

Yn gynnar yn y flwyddyn 1831, y mae y cwestiynau a nodwyd mewn rhan yn cael eu hateb, a phregethu yn Gymraeg, fe ddywedir, wedi ei sefydlu yn Dublin. Pa un o'r tri chwestiwn a atebwyd yn gyntaf nid ydym yn sicr, na pha foddion a ddefnyddiwyd er cael yr atebion. Ond yn y DRYSORFA am 1831 yr ydym yn cael y "casglwyd gan gynnulleidfa y Trefnyddion Calfinaidd yn Aberystwyth y swm o £4 0s. 6c. at yr achos yn Dublin." Nis gwyddom a oedd manau eraill yn gwneyd yr un peth, ond y mae yn hawdd genym gredu mai hwn oedd y cais cyntaf at ateb cwestiwn yr arian; canys dywed yr ysgrifenydd, "Pe gwnai porthladdoedd eraill Cymru yr un modd, byddai y mynyddoedd mawrion yn wastadedd." Yn y flwyddyn hon hefyd y cafwyd benthyg yr Eglwys Lutheraidd, Poolbeg Street, at gynnal y gwasanaeth, ar yr ammod, os gwir y traddodiad, "Fod y Cymry i gael yr Eglwys, ond fod yr Is-ellmyn i gael y casgliad;" a dywedir y byddai yr un yr oedd gofal y lle arno yn gofalu yn wastad am fod wrth y drws gyda'i *blate* ar derfyn pob moddion. Yn yr un flwyddyn, ac yn yr un DRYSORFA, y dywedir "Bod Mr. W. Roberts, o Lanerchymedd, wedi ei sefydlu i bregethu yn Dublin." Ond y mae yn ammheus a anfonwyd Mr. Roberts yma i'r amcan a grybwyllwyd uchod; ond mai mwy tebygol ydyw yr hyn a gawn yn y *Drych Americanaidd*, gwedi marwolaeth y Mr. Roberts hwn, yr hwn nad oedd yn neb amgen na Dr. Roberts, America. A dyma fel y dywed y *Drych:* "Dechreuodd Dr. Roberts bregethu Sabboth y Sulgwyn yn y fl. 1830, o flaen y diweddar Barchedig Thomas Jones, Amlwch. Nid oedd ar y pryd ond 20 ml. oed, oddiwrth yr hyn y gwelir fod ei dalentau wedi eu dadblygu i raddau helaeth yn ieuanc." Yn Hydref, 1831 (ond y mae yn amlwg fod y dyddiad hwn yn anghywir, gan y dywedir yn y DRYSORFA am Gorphenaf, 1831, ei fod yn pregethu yn Dublin, fel mai y tebygolrwydd yw mai yn Hydref, 1830, neu o hyny i ddechre yr haf dylynol, y daeth i Dublin),—aeth i Athrofa Bresbyteraidd Ormond Quay, ac efrydodd yno am flwyddyn dan addysgiaeth Dr. Carlysle, Dr. McArthur, a'r Parch. Alexander Stuart, M.A. Tra yn Dublin cynnyddodd ei awyddfryd am wneuthur daioni ymhlith rhai o'i gydwladwyr oeddynt yn wasgaredig yn y ddinas; ac yn y cyfamser llogodd Hen Eglwys Ellmynaidd, mewn trefn i allu pregethu yr efengyl i'r morwyr Cymreig a ddeuent i'r porthladd. Yr oedd yn ofynol defnyddio rhyw foddion effeithiol i gael y morwyr ynghyd; a chan fod yr efengylwr ieuanc yn llawn o zel ac yni, elai bob prydnawn Sadwrn o'r naill long i'r llall, i gymhell a denu y morwyr i ddyfod i'r moddion Cymreig ar y Sabboth. Gan nad oedd yn dewis udganu o'i flaen, nac ymffrostio yn ei waith ei hun, gofalai am beidio dyweyd mai efe fyddai yn pregethu. Ni fyddai y llongau yn aros yn hir yn y porthladd, ac felly dyeithriaid oedd ei wrandawyr yn gyffredin, ond y rhai oeddynt yn trigianu yn y ddinas. Dyma ddechreuad achos y Trefnyddion Calfinaidd yn Dublin.

Fel y crybwyllwyd, y mae yn ammheus a anfonwyd Dr. Roberts yma gan Gyfarfod Misol Môn, gyda'r amcan o sefydlu Achos Cymreig yn Dublin. Ond mai mwy tebygol ydyw iddo ymgymeryd â llafurio ymysg y morwyr o hono ei hunan, ac i Gyfarfod Misol Môn, yn ei gymeradwyaeth o'i lafur, estyn rhyw gymaint o gymhorth iddo. Yr oedd gŵr ieuanc arall o Fôn yma ar yr un adeg, sef Mr. Thomas F. Roberts (mab hynaf Dr. Roberts, Mynydd y Gof), ac yr oedd y ddau yn cydweithio yn egnïol ymysg y morwyr, fel y bu Mr. Roberts yn hynod o wasanaethgar a ffyddlawn yn y gefnogaeth a roddodd i Dr. Roberts. Nid ydym wedi cyfarfod â neb ag sydd yn gallu rhoddi unrhyw hysbysrwydd i ni o berthynas i'r achos yr adeg yma, ond yn unig y byddai nifer da o Gymry yn dyfod at eu gilydd; ac nid ydym yn gwybod pa fodd yr oedd yn cyd-daro â'r Pabyddion.

Ond wedi i flwyddyn y Parch. Dr. Roberts ddyfod i fyny, yr ydym yn cael ddarfod i bregethu yn Gymraeg yn Dublin gael ei ddwyn i derfyniad yr un pryd. O herwydd yn y DRYSORFA am Awst, 1832, cawn lythyr wedi ei ddyddio Mehefin 25, 1832, oddiwrth Cadben W. Evans at ei gyfaill Cadben E. Lloyd, Caergybi, yn cwyno o herwydd attaliad pregethu yn yr iaith Gymraeg yn Dublin, ac yn diolch i'r brodyr oll am eu llafur a'u ffyddlondeb tuag at gynnal achos yr Efengyl yn y ddinas hon, er iddynt fethu yn eu hamcan. A meddai, "Nid oes yr un Sabboth er pan gauwyd drws y

capel nad oes rhywrai yn dyfod yno am foddion gras." Ymlaen dywed, "Gobeithio y gwel Arglwydd Dduw Israel fod yn dda i gyffroi ei bobl mewn tosturi duwiol dros ein heneidiau gwerthfawr, a chyffroi ymysgaroedd cariad gwragedd tuag at eu gŵr sydd anwyl ganddynt; a chyffroi ymysgaroedd tynerwch mamau tuag at eu plant anwyl, fel y byddo Cymru i gyd o un llais, ac un llaw, yn estyn cymhorth, yn enwedig Sir Fôn, yr hon sydd wedi dechreu ar y gwaith anghenrheidiol hwn; fel y byddo i Sïon oddiyno helaethu lle ei phabell dros y môr, ac estyn cortynau ei phreswylfeydd dros y morwyr yn Dublin, fel na byddo iddi byth mwy attal ei rhaffau; a sicrhau ei hoelion o oes i oes i ddiwedd amser. Yr ydym wedi gwneyd yr hyn a allwn ar y Sabbothau; yr oedd ein llong ni yn rhy fechan, wythnos i ddoe, i'r gynnulleidfa. Cawsom long arall ddoe, a chynnaliwyd dau gyfarfod gweddi; a sylwodd rhyw forwr tlawd ar yr anghenrheidrwydd sydd i forwyr ddarllen a chwilio yr Ysgrythyrau, &c." Y mae yn lled sicr mai Cadben Evans ei hun oedd y morwr tlawd hwn, sef Cadben Evans, Milford, y soniwyd am dano eisoes. Y mae yn ymddangos fod y cyfnod hwn, y buwyd heb bregethu yn Gymraeg yn Dublin, wedi bod yn gyfnod profedigaethus iawn i'r rhai "oeddynt yn meddwl am ei enw Ef;" gan y byddai aml un o'r morwyr Cymreig, ar ol gadael eu llongau i chwilio am wasanaeth crefyddol yn eu hiaith eu hunain, yn eu siomedigaeth yn myned i grwydro, ac aml un yn syrthio i brofedigaeth a magl. Bu hyn yn foddion i gyffroi "meddwl puraidd" y rhai mwyaf duwiolfrydig, er ceisio ennyn zel a chydymdeimlad rhai o gyffelyb feddwl i gael achos sefydlog a pharhaus i'r morwyr ac eraill yn Dublin.

Felly, yn mis Tachwedd cawn Cadben E. Lloyd yn ateb llythyr Cadben Evans, ac yn dyweyd, "Wedi ymadael â thi yn Aber Cork am saith nos Sadwrn, yr oeddwn yn Aber Caergybi am naw nos Sabbath; a dydd Mawrth cefais y fraint o glywed mewn Cymanfa bedair neu bump o siroedd Gogledd Cymru yn addaw cymhorth at adnewyddu y Genadaeth yn Dublin. Yr oedd y Gweinidogion a'r Diaconiaid o un llais am waeddi yn wyneb holl forwyr Cymru, 'Na fydded eich gwaed chwi arnom ni.'" Ac y mae yn debyg mai Cadben Lloyd yn benaf fu yn gosod yr achos ger bron y Gymanfa a gynnaliwyd yn Bangor. Beth oedd yr addewid a wnaed, neu ffurf y penderfyniad, nid ydym yn gwybod; ond cawn i'r Parch. Robert Williams ddyfod drosodd yma o Gaergybi, i lafurio fel Cenadwr yn nechreu Hydref, 1832, ymhen ychydig ddyddiau ar ol y Gymanfa. Ar ei ddyfodiad yma y mae yn ardrethu yr Eglwys Lutheraidd, sef yr un ag yr oedd y Cymry wedi bod yn ymgynnull ynddi yn flaenorol, a hyny am £12 yn y flwyddyn. Yr oedd hon o ran ei safle yn y ddinas yn gyfleus iawn i'r morwyr, ond yr oedd yn hen adeilad salw, ac mewn heol lygredig. Mesurai 16 wrth 8½ o latheni o'r tu fewn i'r muriau, ac yr oedd wedi ei hadeiladu yn y flwyddyn 1698. Ymddengys fod trafnidiaeth lled eang rhwng y Gwyddelod a'r Is-Ellmyn oddeutu y pryd hwnw, ac felly morwyr y wlad hono yn mynychu y lle, fel y mae yr Eglwys Lutheraidd yn anfon Cenadwr yma, ac yn adeiladu eglwys ar eu cyfer; a chawn fod iddynt achos lled lewyrchus am gan' mlynedd a mwy. Ond ar ddechreu y ganrif hon yr oedd y drafnidiaeth wedi myned yn ychydig, a'r achos mewn canlyniad wedi myned yn isel; ond yr oedd yma eto weinidog, a byddai yn pregethu, yn priodi, ac yn claddu yn achlysurol. Yr oedd claddfa yn perthyn i'r Eglwys, a dywedir fod amryw Gymry wedi eu claddu ynddi. Ond erbyn hyn nid ydym yn gallu bod yn sicr iawn o'r lle y safai.

Ymhen hanner blwyddyn wedi dyfod yma, cawn y Parch. R. Williams yn ysgrifenu, ac yn dywedyd, "Fod y gwrandawyr cyffredinol yn parhau i liosogi; fod yma gannoedd o Gymry yn byw yn y ddinas; a rhyngddynt hwy a'r morwyr Cymreig, o ba rai," meddai, "y bydd nifer mawr yma bob wythnos, bydd ein haddoldy ar y Sabbathau yn lled lawn. Nos Sabbath bydd genym gynnulleidfa led fawr. Nifer yr aelodau crefyddol pan y daethum yma oedd chwech, ond yn awr yr ydym yn un ar bymtheg o nifer o rai arosol, heblaw y morwyr crefyddol, o ba rai y bydd amryw gyda ni. Ar y Sabbathau bydd genym ysgol, dwy oedfa, a chyfarfod eglwysig, a moddion cyhoeddus ganol yr wythnos."

Yn y Drysorfa am Chwefror, 1835, cawn ymysg penderfyniadau Cymanfa Llanrwst, yr hon a gynnaliwyd Rhagfyr 18, 1834: "Fod y Gymdeithas Genadol Gartrefol wedi ei sefydlu, er cynnorthwyo a dwyn ymlaen amgylchiadau gweinidogaethol yr Efengyl yn ngororau Seisonig Trefaldwyn, Dinbych a Fflint, ynghyd a Dublin, Runcorn, ac unrhyw fan a fernir yn deilwng o gynnorthwy trwy gydsyniad y nifer liosocaf o'r cyfeisteddwyr." Ac yn nghyfrif y Genadaeth am y flwyddyn yn terfynu Mehefin, 1836, cawn y talwyd at draul yr Achos yn Dublin £26 1s. 6½c. Fel yna y mae yn amlwg fod Dublin yn un o'r lleoedd

cyntaf a ddygwyd dan nawdd y Genadaeth Gartrefol.

Yn Ionawr, 1835, cawn y Parch. R. Williams yn ysgrifenu at y Parch. J. Parry, Caer, Golygydd y Drysorfa ar y pryd, i ymgynghori er cael capel newydd yn Dublin ar gyfer y Cymry; fod cydweledigaeth rhwng y cyfeillion yn Nghymru a Dublin ar y mater; a hyderai gan fod Mr. Parry wedi addaw dyfod drosodd yn yr haf, y byddai y capel newydd yn barod, er nad oedd y sylfaen wedi ei gosod, na'r tir eto wedi ei gymeryd. Yn mis Medi yr un flwyddyn cawn fod Mr. Parry yn dyfod drosodd, ac fel hyn yr ysgrifenai: "Dydd Iau, Medi 3, am ddau o'r gloch, cychwynais tua Dublin; a thrannoeth, Medi 4, glaniais ar fin yr Afon Liffey, yn Dublin, am ddeg o'r gloch yn y boreu, a threuliais dri diwrnod ar ddeg yno." Cawn i Mr. Parry bregethu y ddau Sabbath, a gweinyddu yr ordinhad o Swper yr Arglwydd y Sabbath diweddaf y bu yma; a dywed, "Fod y Cymry yn teimlo gwrthwynebiad i'r lle yr oeddys yn addoli ynddo, yn neilldiol o herwydd ei sefyllfa; yr heol yn aflan, chwareudŷ yn ymyl, ynghyd ag ystafell lle y cedwid cyfarfodydd gwleidyddol gan O'Connell ac eraill, a hyny ar y Sabbathau." A dywed ysgrifenydd arall "Fod tair math o athrawiaeth yn cael ei phregethu yn y lle bob Sabbath, yr hyn," meddai, "nid all lai na llesteirio llwyddiant yr Efengyl yn eu mysg." Ond dywed y Parch. J. Parry ymhellach, "Fod tir mewn golwg yn Talbot Street er adeiladu, a'r cynllun wedi ei dynu. Fod y gynnulleidfa yn Dublin yn hynod o anwadal, a chyfnewidiol o ran ei nifer, yn enwedig o ran morwyr; canys weithiau ni bydd yn yr holl borthladd fawr ychwaneg na deugain o forwyr Cymreig, a phrydiau eraill dros gant a hanner. Fod y Cymry yma yn hynod hoff a pharchus o'u gilydd, a'r aelodau eglwysig yn anwyl a chynes mewn cariad brawdol, yn ddau ar hugain o nifer." Y mae yn ddiau i'r Parch. J. Parry roddi adroddiad o'i ymweliad â Dublin yn un o'r Cymanfaoedd dylynol, er nas gallwn gael gafael arno. Ond wedi hyn yr ydym yn cael fod casgliadau yn cael eu gwneyd yn y De a'r Gogledd at Gapel Cymreig Dublin.

Yn Ionawr 1836, cawn fod Cyfarfod Misol Môn yn penderfynu ar fod i gasgliad gael ei wneyd ymhob capel trwy y Sir ar Chwefror 14, at yr amcan, gan hyderu y byddai Siroedd eraill yn dylyn esiampl Môn. Ac y mae lle i gredu mai yn Nghaergybi y gwnaed y casgliad cyntaf, a hyny Chwefror 7fed; yn mĕthu aros y mae yn debyg hyd y dydd appwyntiedig, gan eu mawr awydd i gael Capel yn Dublin. Swm y casgliad hwnw ydoedd £5 11s., ynghyd a rhodd Mr. Roberts, *Tanner*, £5; cyfanswm, £10 11s.

HANESYNAU AM WHITFIELD.

I.

ARGLWYDDES HUNTINGDON, YR ESGOB A WHITFIELD.

Wedi i Arglwyddes Huntingdon gael ei dychwelyd, aeth Esgob Benson ati i geisio ei hargyhoeddi ei bod yn "rhy gyfiawn." Yr oedd hi yn foneddiges hynod o wybodus a deallgar, a darfu iddi ymresymu âg ef, gan roddi "rheswm am y gobaith oedd ynddi." Rhesymodd y prelad dysgedig allan, gan attegu ei syniadau ac amddiffyn ei phrofiad, o awdurdod Eglwys Loegr a Gair Duw. Gwasgodd yn drwm arno ei gyfrifoldeb ei hun. Cafodd y ceryddwr ei geryddu, y cywirwr ei gywiro. Gan deimlo yn flin a thramgwyddedig, cyfododd yr Esgob yn brysur i fyned allan, gan ddywedyd mai George Whitfield oedd awdwr cyfeiliornadau ei harglwyddiaeth, a bod yn ddrwg ganddo ei fod ef erioed wedi ei ordeinio. Atebodd yr Iarlles ef: "Fy Arglwydd, daliwch sylw ar fy ngeiriau. Pan y byddwch chwi ar eich gwely angeu, bydd hwnw yn un o'r ychydig ordeiniadau y byddwch yn edrych yn ol arnynt gyda boddlonrwydd." Cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon mewn modd hynod, canys pan oedd Esgob Benson yn gorwedd ar ei wely angeu, anfonodd ddeg gini o anrheg i Whitfield fel arwydd o barch, gan ddymuno rhan yn ei weddïau. Yr oedd yr Esgob erbyn hyny wedi dysgu ffordd Duw yn fanylach, ac am hyny yr oedd ganddo syniad tra gwahanol am gymeriad a gwaith George Whitfield.

ARGLWYDDES CHESTERFIELD A GEORGE WHITFIELD.

Yr oedd Arglwyddes Chesterfield, gwraig Arglwydd Chesterfield, yr hwn oedd yn awdurdod yn y byd ffasiynol, ac yn oracl ar ddefodau boneddigeiddrwydd a moesgarwch, yn wraig rinweddol a chrefyddol iawn. Yr oedd hi yn gyfeilles fynwesol i Arglwyddes Huntingdon, ac yn un o ddychweledigion Whitfield o blith y "rhai boneddigion." Dywedodd Whitfield unwaith: "Yr wyf yn clywed fod ychwaneg o goronigau *(coronets)* eto yn debyg o gael eu gosod i lawr wrth draed y Gwaredwr. Y maent yn dysgleirio yn ogoneddus, pan wedi eu gosod o fewn a'u hamgylchynu gan goron o ddrain."

CONGL NICODEMUS.

Adeiladodd Arglwyddes Huntingdon gapel yn Bath, yr hwn a agorwyd gan Whitfield, ac yn yr hwn y pregethai yn fynych. Dywedai Whitfield am y capel hwn ei fod yn "brydferth o wreiddiol; yn nodedig o blaen, ac yn llawn mor ardderchog." Yr oedd eisteddle i'r Esgobion yn y capel hwn, lle y gallent weled a chlywed, ond lle nis gellid eu gweled hwynt, am fod llen yn eu cuddio. A byddent yno yn fynych. Yr Arglwyddes Betty Cobbe, merch yn nghyfraith Archesgob Dublin, boneddiges ffraeth a hynod yn ei ffordd, a alwodd yr eisteddle hon y tu ol i'r lleni yn "Gongl Nicodemus." Yr oedd hi yn ei helfen pan y gallai gael yr Esgobion i'r lle hwn, lle y gallent "weled a chlywed y Methodistiaid heb gael eu gweled." Byddai Esgob Derry yn fynych yn yr eisteddle hon, sef Dr. Barnard, yr hwn a ordeiniodd Thomas Maxfield i gynnorthwyo Mr. Wesley, "rhag i'r dyn da hwnw" meddai, "weithio ei hun i farwolaeth."

WHITFIELD A'R GWEINIDOG CUL EI FARN.

Yr oedd gweinidog unwaith heb lawer o'r cariad hwnw ganddo, yr hwn "ni feddwl ddrwg," yn nghwmni Whitfield, ac yn ystod yr ymddyddan wedi dyweyd pethau lled galed am Wesley a'i ganlynwyr. Yn y diwedd aeth mor bell a dadgan ei ammheuaeth am gadwedigaeth dragywyddol Wesley; a gofynodd i Whitfield, "Pan awn ni i'r nefoedd, a gawn ni weled John Wesley?" "Na chawn, syr," meddai Mr. Whitfield, "yr wyf yn ofni na chawn, am y bydd efe mor agos i'r orsedd dragywyddol, a ninnau mor bell, fel mai prin y gallwn gael golwg arno." Gwridodd y rhagfarnllyd yn ei bresennoldeb.

Barddoniaeth.

PENNILLION COFFADWRIAETHOL AM Y DIWEDDAR BARCH. HUGH ROBERTS, CORRIS.

Clywir Sïon deg yn wylo
Beunydd am ei meibion cu,
Gyrchodd angeu draw o'i mynwes
I briddellau 'r ddaear ddu;
Cedyrn filwyr yr efengyl,
Gwelir angeu 'n gwywo 'u gwedd,
Yna wedi cystudd caled
Yn gorphwyso yn y bedd.

Yn eu mysg Hugh Roberts, Corris,
Dorwyd lawr o blith y byw,
Wedi caled iawn lafurio
Yn ngwasanaeth pur ei Dduw;
Cafodd ras i bara 'n ffyddlawn
I'r Gwaredwr drwy ei ðaith,
Hyd nes dyfod gwŷs i'w gyrchu
At ei wobrwy am ei waith.

Hynod chwith er hyn yw meddwl
Nad yw mwyach yn ein mysg,
Na chawn glywed ei gynghorion
Llawnion gan ysbrydol ddysg;
Wrth ei goffo, hiraeth calon
Daena brudd-der dros ein gwedd;
Poenus ini ydyw 'r syniad
Fod Hugh Roberts yn y bedd.

Prudd yw gwedd ardalwyr Corris
Wedi colli 'r duwiol dad;
Ag y bu ei ddwys gynghorion
I'w heneidiau yn llesâd;
Gwnai ddefnyddio pob cyfleusdra
I wneyd llesiant i'w gyd-ddyn;
Treuliodd oes o bur ogoniant
I'w Greawdydd mawr ei hun.

Coffadwriaeth fendigedig
Sydd i'r cyfiawn hwn i'w gael:
Ymorphwysodd am ei fywyd
Byth ar ras ei Brynwr hael;
Dyg ei groes,—dilynodd Iesu
Drwy holl droion bywyd maith,
Ni ddiffygiodd nes myn'd adref
I orphwysfa pen y daith.

Nid oedd gormod zel enwadol
Yn anurddo 'i fywyd gwiw,
Ond ei zel oedd dros gysegru 'r
Bywyd i wasanaeth Duw;
Gwreiddyn mater mawr y bywyd
Gafwyd yn ei galon ef;
Ffrwytho wnaeth er clod i'r Arglwydd
Nes cyrhaeddyd bro y nef.

Gwrthwynebai hyd ei eithaf
Rwysg pechodau yn y byd;
Yn ei 'siampl, ac yn ei eiriau,
Addysg roddai ar bob pryd:
Tra cyhoeddai ffordd y bywyd,
Teithiai hyd-ddi tua 'r nef;
Cariad Iesu a'i tywysai,
Ac a ddaliai 'i ffydd yn gref.

Ymhlith cewri penaf dirwest,
Ffyddlawn fu am flwyddau hir,
Gydag ymgais gref i attal
Drygau meddwdod yn ein tir;
Milwr fu dan faner sobrwydd,
Yn ymdrechu gyda'r gwaith,
Gwnaeth yn gyfan ei ddyledswydd
Mewn esiampl gref, ac iaith.

Nid hyawdledd fel pregethwr
A'i hynodai yn ei ddydd,
Ond ei zel, a'i wir weithgarwch,
Purdeb byw, a chadarn ffydd;
Ei dduwioldeb diammheuol
Brofid gan ei waith i gyd,
A dysgleirdeb ei gymeriad
A oleuai ar y byd.

Bu 'n offeryn yn llaw 'r Arglwydd
I ðroi llawer ato Ef,
Rhai sydd wedi cyrhaedd gwynfyd,
Neu a deithiant tua 'r nef
Mewn gafaelgar, taer weddïau,
Gwnai nesâu at orsedd Ior,—
Pwysai ar yr addewidion
Am fendithion maith yn 'stor.

O fewn capel teg Rehoboth,
Bu ei air o ddirfawr werth,
Yn cysuro y trallodus,
Ac i'r ofnus yn rhoi nerth;

Gwnai ymroddi trwy ei fywyd
I gryfhau yr enaid gwan;
Dangos wnai trwy ddrws trugaredd
Iddynt nefol, dawel lan.

Ymhob rhan o waith yr Arglwydd
Hynod am ffyddlondeb fu,
Ow! nid ydyw yma mwyach—
Cuddiwyd e 'n y beddrod du;

Uwchlaw gofid, gwae a galar,
Mae ei enaid yn y nef:
Na alarwn mwy, ond ceisiwn
Ymdebygu iddo ef.

JOHN JONES (Ieu.),
Bryncrug. *(Geufron).*

Adolygiad y Wasg.

FLASHES FROM THE WELSH PULPIT. *Edited by the Rev.* J. GWYNORO DAVIES, *Barmouth. With an Introductory Paper by the Rev.* T. C. EDWARDS, D.D., *Principal of the University College of Wales, Aberystwyth.* London: Hodder & Stoughton: 1889.

Idea hapus oedd dal, a chasglu, a rhwymo y fflachiadau dysglaer hyn mewn llyfr. Y maent yn gynnyrchion tri a thriugain o weinidogion, hen a diweddar, byw a meirw, Methodistiaid gan amlaf, ond y mae yma rai Annibynwyr, Wesleyaid, a Bedyddwyr. Cyrhaeddant mor bell yn ol a Daniel Rowlands, Llangeitho, a deuant i lawr at un mor ieuanc a'r Parch. J. Puleston Jones, B.A., Bala. Darllenasom y gyfrol gyda boddhad mawr. Gallasai teitl y llyfr beri i ambell un feddwl nad oedd yma nemawr sylwedd, ond gwreichion o ffraethineb a ffaglau o syniadau barddonol yn unig. Ond gwêl y darllenydd nad felly y mae. Y mae y detholion hyn yn sylweddol ac yn ddysglaer. Y maent yn *flashes*, ond nid yn *flashy*. Ceir yma feddyliau wedi eu haddurno â chymhariaethau prydferth; ond y maent gan mwyaf, ac fe allai oll, yn feddyliau gwerth eu haddurno. Ac fel y dylai fod, y mae y gymhariaeth yn wisg am feddwl mwy ei werth na hi ei hunan; y mae yma "afalau aur" o feddyliau mewn "gwaith arian cerfiedig" o gymhariaethau. Busasai yn dda genym pe gallasem roddi lle i engreifftiau; ceisiwn wneyd hyny mewn rhifyn dyfodol. Chwanegir yn fawr at werth a dyddordeb y gyfrol trwy ddau gyfansoddiad a osodwyd yn ei dechreu: y Papyr nodedig a ddarllenodd Principal Edwards, D.D., o flaen y Cynghrair Henaduriaethol y flwyddyn ddiweddaf yn Llundain; a'r desgrifiad, sydd bellach wedi dyfod yn un o ddarnau clasurol yr iaith, gan fel y mae wedi ei ddyfynu drachefn a thrachefn ymhob peth bron ar bregethu Cymreig, o bregeth ryfeddol y Parch. John Jones, Talysarn, yn Nghymdeithasfa Caerfyrddin, gan y Parch. J. Thomas, D.D., Liverpool. Llongyfarchwn y Golygydd ar ei chwaeth dda a'i ddetholiad hapus. Tybed, rhwng pob peth, nas gellir o'r diwedd ddulio i mewn i benau ein brodyr y Saeson fod pethau rhagorol yn Nghymru, ac yn bendifaddeu *pregethu* na chlywsant ei gyffelyb! Un awgrym caredig i'r Golygydd—onid gwell fuasai gadael i'r rhai sydd yn fyw ddethol eu darn eu hunain? Yr ydym yn dygwydd gwybod am un o'r darnau sydd yma, nad yw yn cyfateb i deitl y gyfrol. Nid yw yn *flash*, ac ni fu erioed yn mhulpud unrhyw iaith na chenedl.

Y CERDDOR. *Cylchgrawn Misol. Dan olygiad* Mr. D. JENKINS, *Mus. Bac.*, a Mr. D. EMLYN EVANS. Cyf. I., Rhifynau 1, 2, 3 — Ionawr, Chwefror, Mawrth, 1889. Hughes & Son, Wrexham.

DYMA gyhoeddiad newydd i gerddorion Cymru i gyfranu addysg ynddo, ac i dderbyn addysg trwyddo—mewn Adolygiaeth, Beirniadaeth, Bywgraffyddiaeth gerddorol, Barddoniaeth delynegol, Hanesion Cyngherddau a Chymanfaoedd Cerddorol, Offeryniaeth a Cherddoriaeth. Gallem feddwl fod y Rhifynau hyn yn "flasus-fwyd" i gerddorion, "o'r fath a garant." Y mae enw Mr. Jenkins, a'r eiddo ei gyd-olygydd, yn adnabyddus trwy Gymru oll, ac yn sicrhâd digonol o deilyngdod pob peth a ddaw o'u dwylaw. Dymunwn iddo bob llwyddiant.

THE QUIVER: *an Illustrated Magazine for Sunday and General Reading.* March, 1889. Cassell & Company, London.

Y MAE amryw Rifynau o'r Cyhoeddiad deniadol hwn ger ein bron. Cynnwysa erthyglau rhagorol yn benaf mewn crefydd brofiadol ac ymarferol, ac weithiau athrawiaethol ac esboniadol, megys yr eiddo Esgob Derry ar "Saith Gair diweddaf ein Harglwydd ar y Groes." Ceir yma ystoriau difyrrus, oll o naws a thuedd grefyddol; darluniadau o gymer-

iadau a lleoedd hynod; hanesion dyddorol am waith Cristionogol mewn gwahanol feusydd yn y wlad hon, ac mewn gwledydd eraill. Un nodwedd arbenig ynddo ydyw erthyglau desgrifiadol o ddynion enwog, yn cynnwys manylion dyddorol am eu heglwysi, eu tai, eu dull o fyw, a phethau cyffelyb. Rhoddir hefyd ddarlun o honynt, a darlun o'u hefrydfa *(study)*. Ysgrifenir y rhai hyn gan un sydd wedi ei neillduo yn benodol i'r gwaith hwn. Ceir lluaws o ddarluniau rhagorol yn mhob Rhifyn; ac y mae yr argraffwaith, er yn fân, yn glir a phrydferth.

Y Traethodydd. *Mawrth*, 1889. Treffynnon: P. M. Evans & Son.

Deil y *Traethodydd* ei deilyngdod uchel yn y ffurf newydd o rifynau swllt daufisol. Rhifyn rhagorol yw hwn. Cawn yma erthygl ddysgedig a dyddorol ar eiriau; un arall ddifyrus iawn gan Mr. Isaac Foulkes ar yr Arlunydd Cymreig Richard Wilson; un arall hynod o dda a dyddorol ar y diweddar Broffeswr Howells gan y Parch. William Williams, Abertawe. Y mae yma ail erthygl ar "Ddammeg y Cwymp" gan M., yr hon a ddengys fod ei hysgrifenydd yn efrydydd Beiblaidd meddylgar, gwybodus a llafurus. Cawsom foddhâd mawr wrth ddarllen erthygl y Parch. John Thomas, D.D., Liverpool, ar y Gynnadledd a gynnaliwyd yn Llundain ar Bregethu Efengylaidd. Adrodda hanes y Gynnadledd yn fedrus a dyddorol iawn; ac y mae y sylwadau ar y gwahanol bynciau a fu dan sylw ynddi yn ddoeth a phwrpasol. Barnem fod yr erthygl hon mewn mater, arddull ac ysbryd yn gynllun o'r hyn y dylai y cyfryw erthygl fod. Y mae yr holl Rifyn yn dda, ac yn glod i'r ysgrifenwyr ac i'r Golygydd llafurus.

Ceninen Gwyl Dewi. *Mawrth* 1*af*, 1889. Caernarfon: D. W. Davies & Co.

Rhifyn arbenig yw hwn, fel y gwelir, o'r *Geninen*. Ac y mae ei gynnwys yn arbenig a llawn dyddordeb, yn cael ei wneyd i fyny yn benaf o erthyglau bywgraffyddol a beirniadol ar enwogion ymadawedig o blith pob enwad crefyddol, a rhai gwladweinwyr enwog megys y diweddar Henry Richard, Ysw., A.S. Y mae yma lawer o wybodaeth ddyddorol am y personau hyn, a rhai sylwadau da iawn arnynt, er nad yw yr holl erthyglau o gyfartal deilyngdod. Ceir yn y Rhifyn lawer iawn o addysg a mwynhâd.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Henllan, Chwefror 7 a'r 8fed, diolchwyd i'r Parch. John Williams, Rhyl, am ei lywyddiaeth fedrus, a'i Anerchiad ar sefyllfa crefydd o fewn cylch y Cyfarfod Misol; ac hefyd i'r Parch. R. Ambrose Jones, am y modd doeth a medrus y gwasanaethodd yntau y Cyfarfod Misol fel ysgrifenydd am y ddwy flynedd ddiweddaf. Darllenwyd llythyr oddiwrth Mr. J. Morgan, y Wyddgrug, yn hysbysu am y gyfran o £1000, sef rhodd Samuel Smith, Ysw., A.S., i eglwysi Sir Fflint at leihau dyledion eu capeli. Nodid y gyfran oedd yn dyfod i ran yr eglwysi hyny oedd yn perthyn i'r Cyfarfod Misol hwn, ond y rhai ydynt yn wladol o fewn terfynau Sir Fflint. Penderfynwyd anfon diolchgarwch gwresocaf y cyfarfod i Mr. Smith. Galwyd sylw at bamphledyn o eiddo y Parch. Isaac Jones, Nantglyn, yr hwn sydd gyfieithiad i'r Saesoneg o bapyr a ddarllenwyd ganddo yn Nghyfarfod Misol Tanyfron, ac annogwyd ei ddwyn i sylw yr Eglwysi Seisonig yn y Sir.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fynwy, a gynnaliwyd yn Brynmawr, Chwefror 13eg, gwnaed sylwadau coffadwriaethol parchus a hiraethlawn am y diweddar Barch. John Williams, Risca. Hefyd, dadganwyd gofid y Cyfarfod wrth glywed am gystudd trwm y Parchn. David James a Thomas James, gan obeithio am eu hadferiad buan. Caed anerchiad gan y Parch. John Jones, Jiwai, ar weithrediadau a llwyddiant y Genadaeth Dramor. Diolchwyd iddo am ei ymweliad â'r Sir, yr hwn a fernid a fyddai yn dra bendithiol. A dymunwyd hefyd ar i Mr. Jones ddwyn cofion serchocaf y Cyfarfod Misol at Mr. Pengwern Jones, a Miss John, Sylhet.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynnaliwyd yn Penfro, Chwefror 5 a'r 6ed, mynegodd swyddogion y lle eu hiraeth am eu hanwyl weinidog; ond deallid eu bod, o dan arweiniad medrus y Parch. W. Powell, wedi ymaflyd o ddifrif yn eu dyledswyddau, ac wedi dwyn yr achos

ymlaen yn gysurus o hyny hyd yn awr. Hysbysid eu bod wedi gosod i fyny *memorial tablet* prydferth yn y capel, er cof am y Parch. John Rees Owen, eu diweddar weinidog, yr hwn oedd wedi bod yn llafurio yn eu plith gyda pharch neilldnol, am yr ysbaid o ddeuddeng mlynedd. Derbyniwyd gyda'r boddhad mwyaf y newydd fod yr eglwys yn Penfro wedi ymgymeryd â thalu £150 o ddyled capel Hundleton, a £100 o ddyled capel Gilead. Pasiwyd penderfyniad yn dadgan boddhad a gwerthfawrogiad y Cyfarfod Misol o'r weithred haelfrydig hon, ac yn cyflwyno i'r eglwys ei ddiolchgarwch dyfnaf am ei charedigrwydd nodedig. Hyderid y byddai eglwysi eraill yn dylyn esiampl ardderchog yr eglwys hon.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn Nhrefriw, Chwefror 13 a'r 14eg, cafwyd adroddiad dymunol am agwedd lwyddiannus yr achos yn y lle yn ei holl ranau. Gwnaed sylwadau coffadwriaethol serchog iawn am y diweddar Mr. Isaac Williams, Llwyndu. Dywedwyd yn helaeth am ei rinweddau neilldnol fel penteulu, ac fel swyddog eglwysig. Agorwyd y mater penodedig "Cariad brawdol" gan Mr. D. P. Davies, Ty'n-y-coed; a chyflwynwyd diolchgarwch diffuant y cyfarfod i Mr. Davies am ei anerchiad rhagorol, gan ddymuno arno ei gyhoeddi yn y modd y gwelai yn oreu. Pasiwyd penderfyniad yn ffafr y Gronfa Fenthyciol, ond ystyriai y Cyfarfod y dylai fod gan y Cyfundeb arolygiaeth fwy effeithiol rhagllaw ar adeiladu capelau. Hefyd, o blaid cael argraffiad newydd a rhatach o'r Llyfr Tônau Cynulleidfaol presennol: ac o blaid symudiad Cymanfa Ddirwestol Gwynedd er cael llais y trethdalwyr ar bwnc y fasnach feddwol.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Uchaf, a gynnaliwyd yn Llanidloes, Chwefror 13 a'r 14eg, diolchai y Cyfarfod am yr amlygiadau o gydymdeimlad amryw o Gyfarfodydd Misol â hwynt yn y golled fawr a gafodd y wlad, a'r Cyfarfod Misol hwn yn enwedig, yn marwolaeth eu hanwyl frawd a thad, y diweddar Barch. Joseph Thomas, Carno. Penderfynwyd anfon dymuniad i'r Gymdeithasfa am gael argraffiad newydd diwygiedig o Feddiannau y Cyfundeb, yn cynnwys yr holl gyfnewidiadau sydd wedi cymeryd lle yn ystod y deng mlynedd diweddaf, ac mai dymunol fyddai cael adroddiad newydd bob deng mlynedd." Penderfynwyd hefyd "daer gymhell cyfeillion yn y gwahanol gymydogaethau i gasglu pob adgofion sydd ar gael am y diweddar Barch. Joseph Thomas, gan eu hysgrifenu, fel y caffer y defnyddiau cyflawnaf ag sydd mold at Gofiant iddo; a bod y Cyfarfod Misol yn annog y Parch. D. Lloyd Jones, M.A., i ymgymeryd âg ysgrifenu y Cofiant, ynghyd a chymaint sydd ar gael o'i bregethau; a bod y Parch. D. Lloyd Jones i ohebu â'r Parch. O. Jones, M.A., gynt o'r Drefnewydd, ynghylch pregethau Mr. Thomas." Annogwyd yr eglwysi i fod yn ymdrechgar i eangu cylchrediad y ddwy Drysorfa; hefyd, i ymdrech adnewyddol gyda'r achos dirwestol.

Yn Henaduriaeth Swydd Lancaster, &c.; a gynnaliwyd yn Nghaer, Chwefror 5ed, pasiwyd penderfyniadau o gymeradwyaeth i'r casgliad at Gofeb yr Esgob Morgan, ac yn mhlaid y "Gronfa Fenthyciol," ac hefyd yn condemnio yr arferiad o roddi diodydd meddwol mewn arwerthiadau; ynghyd a phleidlais o ddiolchgarwch i Samuel Smith, Ysw., A.S., am ei rodd haelionus o £1000 i eglwysi Sir Fflint tuag at leihau dyledion eu capelydd, o ba un y cyfranogodd amryw o'r Eglwysi Seisonig; hefyd, i Robert Davies, Ysw., Menai Bridge, am ei rodd haelionus o £160 tuag at glirio dyled yr Eglwys Seisonig yn Coedpoeth.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Chwefror 26ain, pasiwyd penderfyniad yn mawr gymeradwyo y Gronfa Fenthyciol.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, a gynnaliwyd yn Llansawel, Chwefror 20fed, hysbyswyd fod 500 o lyfr J. H. Roberts, Ysw., M.A., Bryngwenallt—*Ymweliad â Kassia*—wedi eu gwerthu, a bod yr arian wedi eu hanfon i'r trysorydd i Liverpool.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn Fflint, Chwefror 24 a'r 25ain, pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch cynhes i Samuel Smith, Ysw., A.S., am ei rodd haelionus (yr hon y cyfeiriwyd ati yn nghofnodau Cyfarfodydd Misol eraill), ac hefyd i Mr. John Morgan, Wyddgrug, am y dyddordeb a'r drafferth y mae wedi ei gymeryd gyda'r achos hwn.

Yn Nghyfarfod Misol Gogledd Aberteifi, a gynnaliwyd yn Swyddffynnon, Chwefror 27ain, galwyd sylw at y Gymanfa Ddirwestol sydd i'w chynnal yn Aberystwyth, Mehefin 26ain; hysbyswyd trefn y cyfarfodydd, ac annogwyd i bob ymdrech er ei gwneyd yn llwyddiannus. Cyflwynwyd i'r Cyfarfod *blocks* yr *Arwyddlun Cyfundebol;* a phasiwyd fod diolchgarwch cynhes yn cael ei anfon i'r Parch. T. J. Wheldon, B.A., am y drafferth a gymerodd i wasanaethu y Cyfarfod Misol yn y mater hwn.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Llanrhaiadr, Mawrth

7 a'r 8fed, hysbysodd y Parch. D. R. Griffith, Rhyl, ei fwriad i ymweled â'r America am ychydig fisoedd yr haf nesaf; a dymunai gael llythyr o'r Gymdeithasfa i'w gyflwyno i sylw y frawdoliaeth yn America. Penderfynwyd anfon y cais i'r Gymdeithasfa.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Capel Coch, Llanberis, Mawrth 13 a'r 14eg, penodwyd y Parchn. W. Rowlands, Cefnywaen; T. Roberts, Jerusalem, a T. Gwynedd Roberts, Rhostryfan, i barotoi cofiantau, yn y ffordd a farnont hwy yn briodol, am y diweddar Barchn. Rees Jones, David Morris, a William Herbert; a dymunid ar i bawb ag y mae ganddynt ffeithiau am y brodyr ymadawedig eu hanfon i'r brodyr a nodwyd.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn Rhydbach, Mawrth 11eg a'r 12fed, penderfynwyd rhoddi llythyr cyflwyniad serchog i'r Parch. J. R. Williams, Rhydbach, ac anfon dymuniad i'r Gymdeithasfa am lythyr cyffelyb, gan ei fod yn bwriadu talu ymweliad â'r America. Darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. R. Davies, Amwythig, yr hwn oedd yn llawn fwriadu bod yn bresennol yn y cyfarfod (wedi ei benodi i draddodi yr Araeth ar Natur Eglwys, ar ordeiniad y Parch. W. Jones, y cenadwr yn Enlli), ond wedi ei luddias i fod yn bresennol o herwydd afiechyd. Penderfynwyd anfon llythyr at Mr. Davies, yn datgan cydymdeimlad mwyaf didwyll y Cyfarfod Misol âg ef yn ei waeledd. (Gwelir manylion y gwasanaeth Ordeinio mewn rhan arall o'r Rhifyn hwn.)

Yn Nghyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, a gynnaliwyd yn Llandrillo, Mawrth 8fed a'r 9fed, datganwyd teimlad o chwithdod mawr wrth golli y Parch. J. Puleston Jones, B.A., yr hwn sydd yn ymadael i ymgymeryd â bugeiliaeth eglwys Seisonig *Prince's Road*, Bangor. Penderfynwyd rhoddi y cyflwyniad serchocaf iddo i Gyfarfod Misol Arfon; a phenodwyd y Parch. Ellis Edwards, M.A., a Dr. Hughes, Bala, i fyned i gyfarfod ei sefydliad, i gynnrychioli y Cyfarfod Misol. Pasiwyd pleidlais gynhes o ddiolchgarwch i'r Parch. T. J. Wheldon, B.A., am ei anerchiad rhagorol ar ran y Drysorfa Gynnorthwyol.

DARLITHIAU.

Traddodwyd Darlith ragorol yn Ysbytty Ystwyth, Chwefror 25ain, ar "Gymeriadau *Taith y Pererin*," gan eu cyn-weinidog, y Parch. R. J. Williams, Aberllefenni. Llywyddwyd gan y Parch. T. M. Jones, y gweinidog presennol. Rhoddwyd canmoliaeth uchel i'r Ddarlith, ac amlygwyd teimladau cynhes y gynnulleidfa a'r eglwys at Mr. Williams, yr hwn a fu yn eu gwasanaethu fel bugail am rai blynyddoedd.

Traddodwyd Darlith ddyddorol ac addysgiadol yn Abergele, Chwefror 20fed, gan y Parch. Francis Jones, ar "Bregethwyr a phregethu y can' mlynedd cyntaf yn hanes y Methodistiaid Calfinaidd." Cafodd y ddarlith y derbyniad mwyaf croesawgar, ac amlygwyd dymuniad cryf am ail ddarlith gan Mr. Jones ar yr un mater, yn cymeryd i mewn y pethau ag y bu raid eu gadael allan y tro hwn.

CYFARFOD YMADAWOL DR. HUGHES.

Cynnaliwyd y cyfarfod hwn yn nghapel Fitzclarence Street, nos Fawrth, Chwefror 18fed. Galwyd y cyfarfod, fel y mae yn hysbys, er rhoddi cyfleusdra i eglwys Fitzclarence Street, a holl eglwysi Liverpool, i ddangos y parch a'r edmygedd mawr a goleddid ganddynt tuag at y Parch. J. Hughes, D.D., eu gwerthfawrogiad o'i lafur yn eu plith am dymmor o ddeng mlynedd ar hugain, eu galar yn wyneb ei ymadawiad, a'u dymuniadau goreu ar ei ran ef a'i deulu rhagllaw. Am bump o'r gloch, yr oedd cyfarfod tê yn yr ystafell. Cynnaliwyd y cyfarfod cyhoeddus yn y capel am saith o'r gloch, dan lywyddiaeth Mr. John Williams, Moss Bank, yr hwn oedd cadeirydd y pwyllgor a ffurfiwyd i gario allan y trefniadau. Dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. E. J. Evans, trwy ddarllen a gweddïo. Traddodwyd anerchiadau gwresog gan y Llywydd, ynghyd a Mr. Thomas Lloyd, Mr. John Griffith, ysgrifenydd y Cyfarfod Misol, y Parch. Hugh Jones, y Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle, y Parch. Josiah Thomas, M.A., Dr. John Thomas, y Parch. David Williams, a'r Parch. W. Roberts. Cyflwynwyd yr Anerchiad canlynol i Dr. Hughes gan y Parch. Josiah Thomas, M.A., yr hwn oedd wedi ei wneyd yn y modd mwyaf celfydd ac addurniadol, gyda darlun o Dr. Hughes yn y pen uchaf, ac o gapel Fitzclarence Street yn y gwaelod.

AT Y PARCHEDIG JOHN HUGHES, D.D.

Anwyl Frawd,—Gyda theimladau cymysglyd yr ydym yn eich anerch ar yr achlysur presennol. Y mae yr hyn ni feddyliasom am dano wedi dygwydd i ni. Yr oeddych wedi bod cyhyd o amser yn ein

plith, ac wedi myned mor ddwfn i serch-iadau yr holl frawdoliaeth, ac yn myned yn fwyfwy felly y naill flwyddyn ar ol y llall, fel na ddarfu i ni o gwbl ddychymygu am i chwi ymadael byth oddiwrthym, ac ni fynem gredu fod hyny yn bosibl. Wedi deall, pa fodd bynag, fod perygl i ni eich colli, fe dderbyniwyd yr hysbysiad gan ein Cyfarfod Misol, a chan yr eglwysi yn gyffredinol sydd mewn cysylltiad âg ef, gyda syndod a thristwch; ac fel y gwyddoch, fe arferwyd pob moddion a olygid genym yn briodol, er eich perswadio i aros yn ein plith, a pharhau i gadw, hyd nes y torid ef gan angeu, y cysylltiad dedwydd a bendithiol oedd wedi bod rhyngom â chwi am un mlynedd ar ddeg ar hugain. Mae yn ddrwg, ac yn ddrwg iawn genym, i ni fod yn yr ymgais hwnw yn aflwyddianus. Am resymau a ymddangosent i chwi yn ddiamheu yn hollol ddigonol, chwi a ddaethoch i'r penderfyniad i ymadael â ni, ac ymsefydlu yn Nghymru. Felly nid oes genym ddim i'w wneuthur ond ymostwng ac ymdawelu; gan obeithio eich bod yn yr amgylchiad yn cael eich arwain gan y Llywodraethwr mawr ei hunan, ac y bydd i'r nyn sydd mor brofedigaethus i ni droi allan yn gysur mawr i chwi ac i'ch teulu anwyl, ac er llwyddiant gwirioneddol i achos y Gwaredwr.

Ond yn awr, anwyl frawd, gan eich bod wedi penderfynu ein gadael, goddefwch i ni gydnabod ein teimladau diolchgar i'r Arglwydd, am ei ddaioni mawr tuag atom yn eich rhoddi i ni, a'ch cadw i ni am gymaint o amser; am yr amddiffyn tyner sydd wedi bod dros eich einioes a'ch iechyd chwi, a'ch anwyl briod, a'ch anwyl blant, am gynifer o flynyddoedd, tra yn ein plith; am y gras mawr a roddwyd i chwi yn ystod eich arosiad yn ein mysg, i'ch cynnal yn eich holl gymeriad yn anrhydedd i'r efengyl, heb roddi lle i neb i allu beïo o'ch plegid chwi ar y weinidogaeth; am eich addurno â doniau mor neilduol at y gwaith mawr yr ydych wedi cysegru eich hunan iddo, ac wedi ei gymeryd yn orchwyl arbenig eich bywyd; ac yn enwedig, am yr holl lafur, a'r pwyll, a'r medrusrwydd, a ddangoswyd genych i egluro gwirionedd yr efengyl i'n cynnulleidfaoedd yn eich pregethau, a'r holl ffyddlondeb a'r doethineb a arferwyd genych bob amser yn eich gofal am yr achos mawr yn gyffredinol yn ein plith.

Yn ychwanegol at eich llafur mawr gyda'r weinidogaeth, yr ydych wedi gwasanaethu eich cenedl yn dra effeithiol mewn ffyrdd eraill. Bydd i'ch cynnyrchion trwy y wasg,—*Unoliaeth y Bibl, Y Weinidogaeth, Hanes yr Athrawiaeth Gristionogol*, ynghyd a lliaws o erthyglau galluog i'r cylchgronau Cymraeg—barhau yn hir yn feddiant gwerthfawr i'n cenedl.

Fel arwydd bychan o'n teimladau da tuag atoch, ac o'n parch diffuant i chwi, fe gyflwynir i chwi, gyda'r anerchiad hwn, bwrs o aur, ynghyd a llestri arian i Mrs. Hughes, y rhai a dderbynir genych, yr ydym yn hyderu, yn hollol megys y maent wedi eu bwriadu genym ni, nid megys yn mesur nac yn pwyso ein cariad tuag atoch, ond yn unig fel arddangosiad egwan o hono.

Ac yn awr, anwyl frawd, yr ydym yn eich gorchymyn chwi, a'ch anwyl briod, a'ch anwyl blant, i Dduw, ac i air ei ras ef. Ein gweddi yw, ar iddo fod yn dyner iawn o honoch, yn eich einioes a'ch iechyd; arbed eich bywyd am flynyddoedd lawer i'w wasanaethu Ef yn yr Efengyl am ei Fab; rhoddi i chwi yn eich ysbryd eich hunan brofiad helaeth o'r tangnefedd sydd uwchlaw pob deall, y tangnefedd nas gŵyr y byd oddiwrtho; a phan y daw y diwedd, ymhen blynyddoedd lawer, ni a obeithiwn, cael hwnw yn dangnefedd pur.

Ydym, Anwyl Frawd,
Yr eiddoch yn ddiffuant,

Ar ran y Cyfarfod Misol.
Owen Thomas, D.D.
Hugh Jones.
David Hughes, J.P.
William Jones, *Llywydd.*
John Griffith, *Ysgrifenydd.*

Ar ran Eglwys Fitzclarence Street.
T. Lloyd.
John Williams, Perth Street.
John Davies.
W. Patton.
Richard Jones.

Ar ran y Pwyllgor.
John Williams, Moss Bank, *Cadeirydd.*
Rowland Evans, *Trysorydd.*
Josiah Thomas, M.A., } *Ysgrifen-*
O. H. Owen, } *yddion.*

Liverpool, Chwefror 18*fed*, 1889.

Cyflwynodd Mr. O. A. Owen, Hantley Street, i Dr. a Mrs. Hughes, lestri arian pur, *Queen Ann's pattern* o wneuthuriad Elkington, gan ddadgan y teimladau cynhes a'r parch uchel a goleddid tuag at Mrs. Hughes. Cyflwynodd Mr. W. Patton, Sheil Road, hefyd i Dr. Hughes bwrs o aur, gan wneuthur sylwadau ar gysylltiad Dr. Hughes â'r eglwys ac â'r achos yn y dref.

Yna, cydnabyddwyd yr anrhegion a'r teimladau caredig a amlygid trwyddynt, a thrwy yr holl gyfarfod, gan Dr. Hughes, yr hwn a dderbyniwyd gyda chymeradwyaeth faith a brwdfrydig. Sicr yw fod yn anhawdd prisio colli gwasanaeth effeithiol ac arweiniad gŵr o fath Dr. Hughes i achos y Methodistiaid yn Liverpool. Hyderwn y caiff Cymru, ac Arfon yn neilduol, fwynhau ei wasanaeth gwerthfawr yn yr efengyl am flynyddoedd lawer i ddyfod.

ORDEINIAD Y PARCH. W. JONES, Y CENADWR YN ENLLI.

Cynnaliwyd y gwasanaeth Ordeinio y tro hwn, prydnawn Llun, Mawrth 11eg,

fel eithriad i'r drefn arferol, yn unol â phenderfyniad Cymdeithasfa y Dyffryn, yn Nghyfarfod Misol Rhydbach, dan lywyddiaeth y Parch. J. Jarrett, Nefyn. Hysbysodd y llywydd amcan y cyfarfod; yna galwyd ar Mr. R. Rowland, U.H., Pwllheli, i egluro yr amgylchiadau a arweiniodd i'r ordeiniad hwn, a'r awdurdod a roddwyd i'r Cyfarfod Misol gan y Gymdeithasfa i ordeinio Mr. W. Jones, fel cenadwr yn Ynys Enlli. Darllenwyd y rhanau arferol o'r Ysgrythyr gan y Parch. J. Jones, Pen-cae-newydd. Traddodwyd yr araeth ar Natur Eglwys gan y Parch. J. J. Roberts, Portmadoc, seiliedig ar Col. i. 24: "Er mwyn ei gorff ef, yr hwn yw yr eglwys." Gofynwyd y cwestiynau o'r *Cyffes Ffydd* gan y Parch. T. Owen, Portmadoc. Amlygodd yr holl swyddogion oedd yn bresennol, trwy godi ar eu traed, eu cymeradwyaeth i'r dewisiad. Offrymwyd yr urddweddi gan y Parch. Thomas Ellis, Llanystumdwy. Traddodwyd y Cynghor gan y Parch. John Hughes, D.D., Caernarfon, seiliedig ar 2 Cor. iv. 5: "Canys nid ydym ni yn ein pregethu ein hunain, ond Crist Iesu yr Arglwydd, a ninnau yn weision i chwi er mwyn Iesu." Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. Robert Hughes, Uwchlaw'rffynnon. Hysbysir fod eneiniad neillduol ar yr holl wasanaeth.

CYFARFOD YMADAWOL Y PARCH. W. LANDECK POWELL.

Cynnaliwyd y cyfarfod uchod yn Ammanford, ar ymadawiad Mr. Powell i fugeilio yr eglwys Seisonig yn Nantymoel. Cyflwynwyd *album* hardd i Mrs. Powell, ac anerchiad wedi ei arwyddo gan y diaconiaid ar ran yr Eglwys, a chan dri eraill ar ran y trefwyr yn gyffredinol. Amlygid teimladau o ymlyniad mawr wrth Mr. Powell, ac o golled neillduol yn ei ymadawiad.

CAPEL PENDLETON.

Cynnaliodd Eglwys Pendleton, Manchester, ei chyfarfod tê blynyddol, mewn cysylltiad â'r gronfa adeiladu, prydnawn Sadwrn, Chwefror 2il, dan lywyddiaeth Mr. D. S. Davies, Moss Side. Yr oedd adroddiad y trysorydd, Mr. John Davies, yn dra chalonogol. Casglwyd yn ystod y flwyddyn £222 at y weinidogaeth a'r gwahanol gymdeithasau. Casglwyd £223 at ddyled y capel. Cliriwyd £400 trwy y *Sale of Work*. Casglwyd felly at bob achos £845. Y mae rhagolygon yr eglwys weithgar hon yn awr yn dra siriol, wedi bod am flynyddoedd yn llafurio dan faich trwm o ddyled. Y mae y Parch. Samuel Owen, Tanygrisiau, yr hwn a benodwyd gan y Gymdeithasfa i ymgymeryd â chasglu yn Ngogledd Cymru, wedi llwyddo eisoes i gasglu £200, heblaw i gael addewidion am lïaws o symiau ar lôg bychan, a rhai yn ddilôg. Hysbysid y gellid talu yn ddioed £700 o'r ddyled. Anerchwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, a chan y Parchn. W. James, B.A., T. Gray, ac E. Humphreys, Rochdale. Cyflwynwyd hefyd yn ystod y cyfarfod *marble timepiece* hardd i Mrs. Grace Williams, aelod ffyddlawn a gweithgar o'r eglwys am 30 mlynedd, ar ei hymadawiad i'r Brifddinas i fyw. Gwnaed y cyflwyniad gan Mr. John Roberts, Mount Pleasant Square. Y mae eglwys Pendleton wedi bod, ac yn parhau i fod yn esiampl ragorol o fywyd, gweithgarwch, a haelioni crefyddol. Byddai gwybod hyn yn fwy cyffredinol yn gymhelliad i gynnulleidfaoedd ac i bersonau cyfoethog ddyfod allan yn haelionus i roddi ymwared iddi o'r baich sydd wedi bod er ys cymaint o amser yn gwasgu mor drwm arni.

RHODD HAELIONUS.

Y mae yn hyfryd iawn genym allu ychwanegu yr hyn a ganlyn at yr hanes cysurus uchod am eglwys Pendleton, yr hyn a gymerodd le rai wythnosau ar ol y cyfarfod uchod. Y mae yn hysbys i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr fod John Rylands, Ysw., Manchester, wedi marw yn ddiweddar mewn henaint teg. Yr oedd Mr. Rylands yn un o fasnachwyr mwyaf y deyrnas, ac wedi casglu cyfoeth mawr. Gadawodd ar ei ol tua dwy filiwn a hanner o bunnau. Rhoddodd lawer o filoedd yn ei ewyllys at luaws o Gymdeithasau ac achosion daionus. Cofiodd hefyd yn ei ewyllys am luaws oeddynt wedi bod am dymmor hir yn ei wasanaeth, ac wedi ennill ei barch a'i ymddiried. Un o'r rhai hyn oedd Mr. John Edwards, blaenor galluog a gweithgar yn eglwys Pendleton. Yr oedd Mr. Edwards wedi bod am amser maith yn llanw sefyllfa o ymddiried mawr yn ystorfa Mr. Rylands, a thrwy ei fedrusrwydd a'i ffyddlondeb wedi dringo yn uchel yn ei ffafr. A gadawodd Mr. Rylands iddo yn ei ewyllys y swm hardd o *dair mil* o bunnau. Penderfynodd Mr. Edwards gysegru y *ddegfed ran* o honynt at waith yr Arglwydd. Felly anrhegodd eglwys Pendleton â'r swm haelionus o *Dri Chant* o bunnau tuag at leihau dyled y capel. Yn ychwanegol at hyny, rhoddodd Mrs. Edwards ddau gant o bunnau at yr un achos yn ddilôg. Dyma esiampl ardderchog.

Nodiadau Misol.

Y PARCH. C. H. SPURGEON.

Pregethodd Mr. Spurgeon, Sabboth, Chwefror 24, yn ei gapel, y *Metropolitan Tabernacle*, am y tro cyntaf wedi dychwelyd o Mentone, ar ol tri mis o absennoldeb. Edrychai Mr. Spurgeon yn rhagorol o dda, a phregethai gyda'i nerth arferol. Yr oedd y cynnulleidfaoedd yn fawr iawn y boreu a'r nos. Pregethodd y Sabboth canlynol oddiar y geiriau "Mi a esmwythâf arnoch." Gwnaeth gyfeiriadau effeithiol at y poenau corfforol a ddyoddefodd, nosweithiau digwsg, a llawer o bethau i flino ei feddwl. Am y pethau olaf, dywedai "Duw a ŵyr fod genyf fwy na'r rhan fwyaf." Adroddai yn niwedd ei bregeth hanesyn am ryw hen gyfaill oedd "wedi myned adref," a dywedai fod yn y gynnulleidfa anferth hono rai a fyddent wedi myned adref cyn y cyfarfyddent drachefn: a chwanegai, "Buaswn yn ewyllysio pe buasai yn disgyn i fy rhan I i fod y cyntaf o honoch i fyned." Dywedir ei fod yn fwy poblogaidd nag erioed.

YMNEILLDUAETH YN BECHOD MARWOL.

Cyhoeddodd y Parch. F. A. Gace, ficer Great Barling, Essex, gatecism yn ddiweddar, yn yr hwn y dywedid fod myned i gapel Ymneillduol yn mhlith y pechodau marwol, ei fod ar yr un tir a lladrata neu ddyweyd celwydd. Darfu i esgob Sant Albans ei geryddu yn llym trwy lythyr am wneyd haeriadau mor annghyfiawn; ond ofnai nas gall wneuthur dim i roddi attalfa arno. Dywed yr esgob fod yn ddrwg ganddo na fêdd y gallu i gosbi y ficer mewn unrhyw ffordd.

MR. CAINE AR Y CENADAETHAU.

Hysbys yw i luaws o'n darllenwyr fod Mr. W. S. Caine, A.S., newydd ddychwelyd o'r India, a'i fod wedi gwneyd ymosodiad difrifol ar Gymdeithas Genadol y Bedyddwyr, a thrwyddi hi ar yr holl Gymdeithasau Cenadol, gan ei hystyried hi yn engraifft deg o'r cwbl. Haera Mr. Caine nad yw India yn cael ei hennill at Gristionogaeth; nad yw ymdrechion Cenadol yn cyrhaedd eu hamcan, ac nad yw y ffrwyth mewn un modd yn cyfateb i'r draul. Addefa eu bod yn gwneyd gwaith rhagorol, ac edrych arnynt yn unig fel sefydliadau i gyfranu addysg, ond nad ydynt yn gwneyd y brodorion yn Gristionogion. Argymhella efe ddulliau y Jesuitiaid a'r Fyddin Iachawdwriaeth. Nis gallwn ymhelaethu ar haeriadau Mr. Caine. Y mae wedi bod yn cario ymlaen ddadl hirfaith ar y pwnc yn y papyrau â dau o ysgrifenyddion Cymdeithasau Cenadol, Mr. A. H. Baynes a'r Parch. R. Wardlaw Thompson. Nid ydym am briodoli amcanion drwg i Mr. Caine. Gall y daw daioni o'r ymchwiliad hwn i weithrediadau y Cymdeithasau Cenadol. Ond y mae dau air i'w dyweyd. Un yw fod Mr. Caine fel pe byddai wedi anghofio y rhybudd a roddes ein Hiachawdwr, yn sylfaeniad ei deyrnas, am y dull araf, graddol ac anweledig y dygid ei waith Ef ymlaen: "Canys y mae teyrnas Dduw fel pe bwriai dyn hâd i'r ddaear." Nis gellir mesur gwaith ysbrydol, na rhoddi ond ychydig o hono mewn ffigyrau. Rhaid iddo gael ei amser ei hun i addfedu a dwyn ffrwyth. Nis gellir gwneyd cyfrifiad arno yn ol "hyn a hyn y pen." Y mae yn ddrwg genym orfod dyweyd y gair arall. Y mae yn ffaith fod Mr. Caine, cyn myned i'r India, wedi gofyn i Gymdeithas Genadol y Bedyddwyr a wnaent ei appwyntio ef i archwilio gwaith ac amgylchiadau y Gymdeithas yn India, fel goruchwyliwr drosti. Gwrthododd y Gymdeithas yn barchus dderbyn ei gynnygiad. Nid oes eisieu ychwanegu. Y mae golygydd un o'r papyrau yn benthyca ymadrodd rhifyddol, ac yn dyweyd fod Mr. Caine i'w weled yn wyneb y ffaith hon, "*reduced to his lowest terms.*"

Y PARCH. JOHN MC NEILL.

Pregethodd y gweinidog newydd, am y tro cyntaf fel y cyfryw, yn nghapel Regent Square, Llundain, nos Sabboth, Mawrth 3ydd. Pregethodd Principal Rainy yn y boreu. Ymddengys i Mr. McNeill wneyd argraff dda, ar y cyfan, ar y gynnulleidfa fawr a ddaethai i'w wrando; er nad oedd yn marn rhai yn dyfod i fyny âg un neu ddau o'r troion y buasai yn pregethu yn nghapel Mr. Spurgeon. Y mae yn "llefaru yn *arw*" ar adegau; ond y mae yn ddiammheuol fod ynddo lawer o'r un peth anghenrheidiol—*nerth.*

MESUR CAU Y TAFARNAU AR Y SABBOTH.

Darllenasom gyda dyddordeb mawr yn yr *Alliance News* am Mawrth 2il, adroddiad cyflawn, dybygem, o'r Araeth a draddodwyd gan y Parch. Daniel Rowlands,

M.A., Bangor, ar y testyn uchod, yn nghyfarfod blynyddol cyhoeddus y *Central Sunday Closing Association* yn Manchester. Y mae yr araeth yn rhagorol mewn mater ac iaith, ac yn gwrthbrofi yn hollol yr haeriad nad yw y Mesur hwn wedi bod yn llwyddiannus yn Nghymru. Nid dyma y tro cyntaf i'n cyfaill Mr. Rowlands ymddangos ar yr esgynlawr o flaen cynnulleidfaoedd mawrion yn y ddinas hono. Bu yn areithio flynyddoedd yn ol gyda nerth a hyawdledd yn y *Free Trade Hall* ar ran y Feibl Gymdeithas, ac yn nghyfarfodydd Cynghrair y Deyrnas Gyfunol; ac yr oedd bob amser yn cynnrychioli ei genedl a'i gyfundeb crefyddol yn anrhydeddus.

Syr Wilfrid Lawson, fel y mae'n hysbys, yw prif arwr y rhyfel yn erbyn y fasnach feddwol. Parodd ddifyrwch mawr yn Nhŷ y Cyffredin trwy ei arabedd diail bron, a'i allu i chwareu ar eiriau mewn ystyr ddwbl, yn y ddadl ar Fesur Mr. Stevenson dros gau y tafarnau ar y Sabboth yn Lloegr, ychydig flsoedd yn ol. Yr oedd un aelod wedi hynodi ei hun fel gwrthwynebwr pybyr y mesur hwn, a phob mesur cyffelyb i gyfyngu ar hawl-freintiau y tafarnwyr. Gwyddai Syr Wilfrid fod y gŵr hwn yn berwi wrth wrando arno, ac yn ymbarotoi i wrthwynebu ei araeth mor fuan ag y byddai drosodd. "Gwelaf," meddai, "fod yr aelod anrhydeddus dros ——(gan enwi y lle), gyferbyn â mi; diau y bydd yn anerch y Tŷ heno ar bwnc y cwrw, *ac y mae yn ymddangos yn llawn o'i bwnc!*" Ac meddai drachefn, wrth ddiweddu ei araeth: "*And now we shall see, when the division takes place, who are on the side of the Lord, and who are on the side of the landlord—who are on the side of the public, and who are on the side of the publican.*"

ATHROFA Y BALA.

Y MAE yn hysbys fod Cyfeisteddfod yr Athrofa wedi rhoddi galwad galonog ac unfrydol i Principal Edwards, D.D., i ddyfod yn Brifathraw Athrofa y Bala. Naturiol iawn yw i bob Methodist trwy y Gogledd lawenychu yn y gobaith y bydd iddo gydsynio â'r alwad. Nid oes dwy farn i fod am yr ennill a fyddai hyny i'r Athrofa ac i'r Cyfundeb yn y Gogledd. Ond y mae yn gwestiwn mawr a phwysig dros ben; ac y mae dwy ochr iddo. Y mae llawer i'w ddyweyd dros iddo fyned i'r Bala; ond y mae rhesymau cryfion (ac yn marn llawer, cryfach) dros iddo beidio gadael y sefyllfa uchel a phwysig y mae ynddi yn awr, sefyllfa o ddylanwad mor fawr ac eang, sefyllfa ag y mae y dyfodol mor *amlwg* o'i phlaid, a sefyllfa yn yr hon y mae yntau wedi bod mor nodedig o lwyddiannus. Dyma gwestiwn mawr y byd Methodistaidd yn y dyddiau hyn. Hyderwn yr arweinir Dr. Edwards i'r iawn benderfyniad. Paham nad allem ni, genedl mor fechan, grynhoi yn lle gwasgaru fein nerth, a chael *un* Athrofa ddiwinyddol gref ac effeithiol i'r holl Gyfundeb?

Byrnodion Amrywiaethol.

Y MAE Mr. A. H. Baynes, ysgrifenydd Cymdeithas Genadol y Bedyddwyr, newydd roddi prawf diymwad o'i ymgysegriad i'r achos cenadol, trwy wrthod swydd yn yr hon y buasai yn derbyn *pum' waith* y swm o gyflog a dderbynia yn bresennol. Dyma weithred a ddylai gael ei chyhoeddi yn mhell ac yn agos. Y mae Mr. Baynes yn myned ar ail ymweliad i India yn mis Hydref.

Aeth Dr. Matthews i ymweled â'r eglwysi Ellmynaeg, yn ei gymeriad swyddol fel Ysgrifenydd Cyffredinol y Cynghrair Henaduriaethol.

Yr oedd y rhan fwyaf o lawer o'r barwniaid a arwyddasant y Siarter Fawr *(Magna Charta)* yn nheyrnasiad y brenin Ioan, yn analluog i ysgrifenu eu henwau, ac yn arwyddo y weithred â'u "croes" neu *farc*.

Bu farw yn ddiweddar James Hudson, un o weision Arglwydd Nelson, mewn tŷ bychan yn Merton, yn un ar bymtheg a phedwar ugain mlwydd oed.

Y mae aelodau Tŷ yr Arglwyddi yn meddiannu mwy na'r drydedd ran o holl dir Prydain.

Dywed *Principal* Cairns fod yn debyg fod saith miliwn o Babyddion yn Unol Daleithiau America. Yr wythfed ran o'r boblogaeth yw hyny, yr hon sydd yn 56 miliwn. Dywed yr awdurdodau goreu nad yw y cyfartaledd yma yn agos gymaint ag a ellid ei ddysgwyl, wrth gyfrif y nifer sydd yno yn Babyddion o'u genedigaeth.

Bywgraffiaeth.

MR. DAVID LEWIS, 45, BLACKMAN STREET, BOROUGH, LLUNDAIN.

Gan y Parch. J. E. DAVIES, M.A.

UN o flaenoriaid yr eglwys yn Jewin Newydd, Llundain, oedd y gŵr da uchod; a than deimladau eithriadol ofidus yr ydym yn ysgrifenu ei linell goffa, am fod yr amgylchiadau yn eithriadol o brudd. Rhyw fis cyn ei symudiad ef, bu farw ei anwyl

fab, Bertie, neu, yn fwy cyflawn, Robert Owen, yr hwn oedd wedi ei enwi felly ar ol ei daid, y Parch. Robert Owen *(Eryron Gwyllt Walia)*. Tra fu Mr. Lewis am fisoedd yn dihoeni, yr oedd Bertie, fel y mab hynaf, yn ymdeimlo â phwysigrwydd ei sefyllfa, ac yn ymdaflu ati o ddifrif i geisio llanw lle ei dad cystuddiol. A phan yr oeddym fel yn dysgwyl clywed, bob dydd, am farwolaeth Mr. Lewis, y newydd disymwth a'n cyrhaeddodd gyntaf oedd, fod Bertie, gobaith y teulu, wedi marw, heb gael ond yn brin wythnos o gystudd. Bachgen ieuanc cyflym, gwybodus, a hyddysg iawn yn egwyddorion crefydd, oedd Bertie; ond erbyn fod gobeithion dysglaer yn dechreu ymagor o'i gwmpas, a'i anwyl fam yn edrych arno fel ei hunig gysur, daeth angel Duw i'w gyrchu, cyn ei fod yn 17 oed, i wasanaethu mewn cylch uwch. Dan yr amgylchiadau, chwerw iawn oedd ei golli; ond diammheu y gellir dyweyd am dano, "Gwyn ei fyd," am ei fod mewn gwlad well.

Nis gallasai marwolaeth annysgwyliadwy y mab lai nag effeithio yn ddwys ar y tad yn ei gystudd trwm, ac ni chafodd fyw ond yn brin fis ar ei ol.

Yr oedd Mr. Lewis yn enedigol o Gaerfyrddin, ac yn fab i Mr. Lewis, Johnston, yr hwn sydd yn un o flaenoriaid zelog yr eglwys Fethodistaidd yn Heol-dŵr. Yr oedd felly yn hanu o deulu da, ac wedi cael pob mantais grefyddol yn moreu ei oes. Cafodd grefydd ei hun pan nad oedd ond megys plentyn yn 14 oed, a glynodd wrthi yn ddifwlch hyd y diwedd. Pan yn nghymydogaeth yr 20 oed, symudodd i Lundain, gan ymaelodi yn yr eglwys yn Jewin Crescent. Ymdaflodd ar unwaith â'i holl egni i lafur a gweithgarwch gyda'r achos; darllenai lawer, a meddyliai fwy. Gwnaed ef yn athraw yn yr Ysgol Sul yn fuan ar ol ei ddyfodiad i'r lle, ac yr oedd yn perthyn iddo ragoriaethau amlwg yn y cylch hwnw. Llafuriai yn ddidwyll ar gyfer ei ddosbarth, a meddai ar ddawn i ennill a chadw sylw y rhai oedd dan ei ofal. Bu yn arolygwr yr Ysgol am ddwy flynedd, a chyfnod llewyrchus iawn yn hanes yr Ysgol oedd y cyfnod y bu dan ei arolygiaeth ef. Ychydig flynyddau yn ol etholwyd ef, ymhlith eraill, i wasanaethu swydd blaenor yn eglwys Jewin Newydd; ac ar ei neilldued i'r swydd hono fe ymgysegrodd yntau yn fwy llwyr eto i wasanaethu achos yr Arglwydd yn yr holl gylch. Gyda phriodoldeb mawr y gellir dyweyd am dano, "Efe oedd ŵr ffyddlawn, ac yn ofni Duw yn fwy na llawer." Yr oedd yn ddyn, yn foneddwr, ac yn Gristion mawrfrydig. Meddai ar farn glir, ac yn ol y farn hono gweithredai bob amser yn onest a chydwybodol. Yr oedd yn ëang ei syniadau, heb fod yn eithafol; yn ddeallus heb fod yn hunanol; ac yn benderfynol heb fod yn dreisiol. Yr oedd yr achos yn Jewin Newydd yn agos iawn at ei galon, a chawsom le cryf i gredu lawer tro ei fod yn meddwl mwy am lwyddiant yr achos nag am ddim arall. Dysgwyliem ni bethau mawrion oddiwrtho yn y dyfodol; ond ewyllys ei Arglwydd oedd ei gymeryd ato ei hun megys o ganol ei waith: "Nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd I." Y mae marwolaeth Mr. Lewis wedi gadael bwlch amlwg yn yr eglwys, bwlch yn yr Ysgol Sul, ac yn arbenig fwlch yn y teulu. Esbonio nis medrwn. Gwell genym beidio cynnyg hyny. Ein lle yw ceisio ymostwng i ewyllys Duw, gan gofio mai ein Tad ydyw.

Gadawodd ein cyfaill dystiolaeth dda ar ei ol; oblegid pan ofynwyd iddo ychydig cyn ei symud os oedd Iesu Grist gydag ef, dywedodd, er fod y tafod yn floesg, "Y mae yn siwr o fod, y mae yn siwr o fod." Ac wedi dyweyd felly, diangodd ei enaid yn nghwmni ei Waredwr i drigfannau'r wlad well; a diau fod Bertie, ei anwyl fachgen, yn un o'r rhai cyntaf i'w gyfarfod a'i longyfarch ar ei ddyfodiad yno. Tad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon fyddo yn bob amddiffyn i Mrs. Lewis a'i phlant bychain, yn eu profedigaeth chwerw!

MRS. FOULKES ROBERTS, DOLENOG, LLANIDLOES.

Gan y Parch. N. CYNHAFAL JONES, *Llanidloes.*

YR oedd Mrs. Foulkes Roberts yn ferch i'r diweddar Mr. Hugh Jones, Bodlondeb, Llanidloes, gŵr ag y darfu i'w ddylanwad daionus adael effeithiau gwerthfawr ar yr eglwys yn Llanidloes, y rhai sydd yn aros, ac yn amlwg hyd y dydd hwn. Yr oedd llawer o ôl ei thad i'w weled ar fywyd a chymeriad Mrs. Roberts. Nis gellid bod yn hir yn ei chyfeillach na byddai rhywbeth yn dygwydd a barai iddi ei gofio, a son am dano, gan adrodd naill ai rhywbeth a arferai efe ei ddywedyd neu ei wneuthur. Sonid weithiau am ryw bethau a berthynent iddo yn ei gymeriad cyhoeddus; ond yn ei gymeriad fel tad a phenteulu yr oedd efe wedi gadael yr argraffiadau dyfnaf a mwyaf cysegredig arni. Yr oedd duwioldeb ei thad, fel yr oedd yn dyfod i'r golwg yn ei fywyd gartref yn y teulu, ac yn enwedig taerineb ei weddïau yn yr addoliad teuluaidd, wedi gwneyd ei ôl yn annileadwy arni. A pha faint bynag o "ddawn Duw" y cynnysgaeddwyd hi, tybiem fod y dawn hwnw ynddi trwy arddodiad dwylaw ei thad.

Nid y lleiaf o'r rhoddion a ddaeth trwy Mrs. Roberts i ran yr Eglwys Fethodistaidd yn Llanidloes, ac yn wir i ran y dref a'r wlad oddiamgylch, oedd y gŵr ieuanc o Sir Fôn, yr hwn a ddaeth yn briod iddi,—y diweddar Mr. Thomas Foulkes Roberts. Fel y bu Mr. Hugh Jones o'i flaen, felly y bu Mr. Roberts yn "golofn" yn yr eglwys yn Llanidloes, o'r adeg y daeth yma hyd ddiwedd ei oes. Pa faint bynag o egwyddorion da a thueddiadau rhinweddol oedd yn Mrs. Roberts yn flaenorol, y mae yn sicr iddynt gael pob help i ymgadarnhau a dadblygu yn y cydymdeithas cydnaws a dedwydd fu rhyngddi â Mr. Roberts.

Gartref, yn nghanol ei theulu, y cafodd ei chrefydd y lle a'r cyfleusderau mwyaf i wneuthur daioni. Yr oedd yn wastad yn dra gwyliadwrus na chaffai dim ei oddef o fewn cylch ei llywodraeth hi a fuasai yn niweidiol i burdeb a rhinwedd. Cyfranogai o'r un ysbryd ac o'r un penderfyniad a'r Salmydd:—"Rhodiaf mewn perffeithrwydd fy nghalon o fewn fy nhŷ. Ni osodaf ddim anwir o flaen fy llygaid. Yr hwn a rodio mewn ffordd berffaith, hwnw a'm gwasanaetha i. Ni thrig o fewn fy nhŷ yr un a wnelo dwyll, ni thrig yn fy ngolwg yr un a ddywedo gelwydd." Yr un pryd, caniateid digon o ryddid i ddigrifwch a rhempau diniwed natur i gael tori allan; cydnabyddai fod gwahaniaeth anfesurol rhwng pleserau diddrwg â phechod. Am y tueddiadau drwg sydd yn gynhenid yn y natur ddynol, ceisid eu dadwreiddio yn hytrach na'u llethu a'u brig-blygu, a gadael iddynt wreiddio yn ddirgel a thori allan pan y caent amgylchiadau gwahanol.

Yr oedd ein hanwyl chwaer, ar y naill law, yn adnabod pechod yn rhy dda, ac ar y llaw arall, yn rhy hyddysg yn y ffordd sydd yn arwain i gysur a llwyddiant tymorol ac ysbrydol, fel ag i ddysgwyl y gellid gorchfygu y naill na chyrhaeddyd y lleill, heb ddefnyddio, gyda chysondeb, y moddion ordeiniedig at hyny. Nid pethau ag y byddai yn ddymunol eu harfer os byddai amgylchiadau yn caniatâu oedd "Gair Duw a gweddi" yn ei golwg hi; ond pethau yr oedd yn rhaid wrthynt. Ni ddymunem awgrymu fod y cysondeb gyda pha un y cynnelid yr addoliad teuluaidd yn Nolenog i'w briodoli yn fwy iddi hi nag i Mr. Roberts; y mae yn ddiammeu genyf eu bod ill dau yn unfryd gyda'r mater; ond y ffaith y dymunem alw sylw ati ydyw, fod addoliad teuluaidd yn sefydliad mor gyson ac mor bwysig yn eu golwg fel na oddefid i ddim gymeryd ei le na chyfyngu ar ei amser. Ynglŷn â'r ffaith yma cyfeiriwn at un arall:—cadwyd hwy fel teulu ar hyd eu bywyd yn hynod rydd oddiwrth brofedigaethau chwerwon. Bid sicr, ni luddiwyd i angeu gyflawni ei weinidogaeth tuag at eu teulu hwy fel yr eiddo eraill; ond, y mae rhywbeth "chwerwach nag angeu" yn bod. Cawsant hwy eu cadw rhag y fath chwerwder chwerw, ac yr oedd cyflawnder o ddaioni, tangnefedd a llawenydd yn wastad yn eu pabell. Ni ddywedwn ddim yn awr am y cysylltiad oedd rhwng y ffaith gyntaf a'r ail, ond yn unig dywedyd fod y rhïaint hyn yn credu yn ddiysgog mai i'r naill yr oeddynt yn ddyledus am y llall. Wrth ofyn i'r Arglwydd eu cymeryd fel teulu dan ei nodded, eu cadw rhag pob drwg, a'u bendithio a'u gwneuthur yn fendith i'w gilydd ac i bawb, credent eu bod yn ymbil ar Un oedd yn eu gwrandaw—Un oedd yn abl ac ewyllysgar i roddi iddynt yr hyn a ofynent. Och ni! na bae mwy yn ein gwlad yn meddu y gyffelyb werthfawr ffydd! Ofnwn fod cynnal gwasanaeth crefyddol yn y teulu yn beth sydd yn cael ei esgeuluso mewn llawer o deuluoedd sydd yn ymgyfenwi ar enw yr Arglwydd; ac y mae yn rhy amlwg fod ffrwyth yr esgeulusdra hwnw i'w ganfod yn fynych yn ein heglwysi.

Fel y gallesid dysgwyl mewn un a ddygwyd i fyny ac a dreuliodd ei bywyd yn y fath gysylltiadau, yr oedd Mrs. Roberts wedi ei "magu yn ngeiriau y ffydd ac athrawiaeth dda;" a byddai yn fynych, o ran ei gwybodaeth ysbrydol a'i phrofiad o Grist, mewn ystâd uchel a hyfryd iawn.

Yr oeddym wedi sylwi er ys rhai blynyddoedd bellach, nad oedd ganddi ond dau beth ar y ddaear ag y cymerai hi lawer o ddyddordeb ynddynt,—ei phlant ac Eglwys Dduw. Yr oedd Eglwys Dduw, fel yr oedd yn cael lle yn ei bryd hi, yn eangach o lawer na'r gynnulleidfa o ffyddloniaid sydd yn arfer ymgynnull yn nghapel China Street, Llanidloes; cynnwysai "bawb" ymhob man "sydd yn anwyl gan Dduw, wedi eu galw i fod yn saint." Yr oedd yn hysbys iawn yn hanes gweithrediadau y Cenadaethau Tramor a Chartrefol; darllenai yn awyddus beth a wneid gan y gwahanol gymdeithasau sydd yn amcanu at ddyrchafu a gwneuthur daioni i ddynion, a chymerai ddyddordeb ymhob symudiad sydd yn ymdrechu dwyn gwybodaeth o Dduw i gyrhaedd y rhai sydd yn ddyeithr i'r efengyl; gan gydweithio â hwynt oll trwy weddïo am eu llwyddiant a chyfranu at eu cyllidau. Y mae amryw sefydliadau o'r fath yn Llundain, Bristol, Manchester, a lleoedd eraill, wedi cael colled yn ei marwolaeth hi. Yr un pryd, teimlai ei bod yn fwy rhwymedig i'r Eglwys yn yr hon y magwyd ac y meithrinwyd hi a'i theulu nag i neb arall, a gwir ofalai na chaffai yr Eglwys hono fod yn fyr o un ddawn tuag at fyned rhagddi yn y gwaith, hyd y byddai ganddi hi allu i gyflawni ei diffyg.

Bu yn ddiwyd i ddefnyddio y cyfleusderau a ddeuent i'w chyrhaedd i weithio yn bersonol yn ngwinllan ei Harglwydd. Nis goddefai i ddynion fyw mewn pechod ac annuwioldeb yn ei hymyl heb dori atynt a cheisio eu hargyhoeddi, yn enwedig os byddai yn eu hadnabod. Meddai hyfder ac eofndra i wneuthur gwaith felly nad oes ond ychydig yn ei feddu. Hwyrach mai ei pherygl, yn ei hawydd i waredu dynion rhag angeu, oedd "taflu ei gemau o flaen y moch." Pa fodd bynag, gadawai argraff ar feddwl pawb a argyhoeddid felly ganddi ei bod yn eu caru ac yn dymuno eu llesâd. Tanysgrifiai yn flynyddol at Gymdeithas y Traethodau Crefyddol, a gwasgarai lawer o lenyddiaeth iachus y Gymdeithas ymysg y tlodion, ac ymysg y rhai y gwyddai oeddynt yn esgeuluso ordinhadau crefydd, ac yn anwybodus am ffordd iachawdwriaeth.

Un rhinwedd y rhagorai Mrs. Roberts ynddo, ag y carem weled merched ieuainc a gwragedd anrbyddeddus ein heglwysi yn ymgymeryd yn fwy ato, ydoedd ei gofal am dlodion y gynnulleidfa, ac am deuluoedd mewn cyfyngder ac eisieu. Nid gwrando ar gŵyn y rhai a elent ati yn unig a wnai. Nid hono fyddai y ffordd ddiogelaf, mae yn sicr genym, i gyfranu "fel da-

ionus oruchwylwyr amryw ras Duw." Oblegid ceir rhai yn ein plith yn ddiwyd ac yn fedrus yn y gwaith o gwyno a llefain cyn prin fod anghen wedi cyffwrdd â hwy, tra y mae eraill yn dyoddef yn ddystaw, ac yn foddlawn i ddyoddef hyd farw ymron yn hytrach na dadguddio eu tlodi, na myned ar ofyn neb. Ymholai ein hanwyl chwaer am y dosbarth olaf a nodwyd, a gweinyddodd i gyfreidiau llawer o honynt yn ddystaw, heb fod neb bron ond y teuluoedd hyny eu hunain, a'r "Tad, yr hwn a wêl yn y dirgel," yn gwybod beth a wnaethpwyd.

Yr oedd ei hiechyd yn pallu er ys rhai blynyddoedd bellach, a gwelid arwyddion a barent i ni ofni y byddai yn ein gadael cyn hir; a'r hyn a ofnem a ddaeth arnom, oblegid bore Sabboth, Medi 9fed, 1888, hunodd yn dawel yn yr Iesu. Y Sabboth hwnw yr oedd casgliad i gael ei wneuthur at y Genadaeth, ac un o'r pethau diweddaf a wnaeth oedd adgofio un o'i hanwyl ferched fod casgliad i gael ei wneyd, gan ofyn iddi ofalu fod ei chyfran hi at y Genadaeth yn cael ei dalu. Yr ydym yn credu i'w chystudd, fel pob peth arall a'i cyfarfyddai, gydweithio er daioni iddi. Fel yr addfeda yr aeron pêr dan belydrau poethion yr haul, felly addfedai ei henaid hithau dan wres y cystudd a ddyoddefodd. Gallem droi erfyniad Glân Geirionydd yn ddadganiad, a dyweyd am dani,—

"Cymhwyswyd hi drwy 'r Ysbryd Glân,
A'i rasol ddoniau Ef,
Nes ydoedd, fel tywysen lawn,
Yn addfed iawn i'r nef."

RHAI O NODWEDDAU YR YMADAWEDIG MISS MARY ELINOR PUGH.

Gan ei Thad—y Parch. JOHN PUGH, B.A., *Treffynnon.*

FEL tad yr anwyl ferch yr hon y mae ei henw uchod, tybiaf yr esgusodir fi am gyfeirio at rai pethau yn ei hanes ag oedd yn hynodi ei chymeriad. Tueddir fi i wneyd hyny gan gredu y perthynai iddi rai rhagoriaethau gwir deilwng o sylw, ac y gallai eu gweled mewn esiampl fod yn symbyliad i eraill i'w dwyn i weithrediad. Nid wyf yn ammheu ychwaith nad oes ar hyd a lled Cymru lawer o ferched ieuainc sydd yn llawn mor ragorol ag ydoedd hi, a thebygol o'i blaen mewn rhai pethau, eto gan fod ei gyrfa hi wedi dyfod i ben y mae ei henw hi y pryd hwn mewn coffadwriaeth.

Tua phedair blwydd oed oedd hi pan y symudodd y teulu o Sir Drefaldwyn i Dreffynnon; ac yr oedd yn agos i bedair ar hugain oed pan yr ehedodd i fyd arall. Profodd o'i mebyd ei bod yn eneth fechan hynaws, graffus, a meddylgar; ac amlygodd yn gynnar dueddiadau a theimladau gwir grefyddol. Pan yn dair ar ddeg oed, rhoddodd ar ddeall o honi ei hun ei dymuniad am fod yn gyflawn aelod trwy gael ei derbyn at fwrdd y Cymun. Ac fel prawf yn ol llaw o dynerwch ei chydwybod, ac o'i gwyliadwriaeth arni ei hun, nid wyf yn cofio i mi un amser gael achlysur i'w cheryddu am unrhyw fai penodol; nac ychwaith i'w beio am unrhyw beth anweddaidd yn ei dulliau a'i harferion.

Yr oedd yn meddu galluoedd i dderbyn addysg, a chymerai i fyny yn dra buan yr hyn y gelwid ei sylw ato; ac felly meddiannodd yn gynnar raddau helaeth o'r prydferthion hyny ag sydd yn effaith hyfforddiant cyfaddas. Bendith fawr iddi hi ydoedd fod ganddi fam ag oedd nid yn unig yn meddu "y rhan dda," ond hefyd yn fedrus yn yr amrywiol fân ddyledswyddau anghenrheidiol er cysur a llwyddiant teuluaidd. Darfu i'r ferch gyfranogi yn helaeth o ragoriaethau y fam. Ac felly ar ol bod am un awr yn y parlwr yn mwynhâu ei hun gyda'i chyfeillion mewn ymddyddanion chwaethus a cherddoriaeth ddifyr, medrai yr awr nesaf gymeryd ei rhan yn nyledswyddau y gegin, ac arolygu y gwahanol orchwylion ymhlith y gweinyddion.

Yr oedd y teimlad o hunan-barch yn gryf ynddi. A medrai mewn modd didramgwydd ddangos hyny pan ddygwyddai ddyfod i gyfarfyddiad âg ambell un o duedd trawsfalch ac uchelfrydig. Ond yn gyffredin pan ymhlith ei chyfeillion yr oedd ei dull mor hynaws, llednais a diymhongar, fel ag i beri fod ei hymddygiad yn dra deniadol.

Gallesid meddwl fod ganddi fath o reddf i adnabod a gwahaniaethu cymeriadau. Synwyd fi weithiau wrth sylwi mor gywir a fyddai ei barn am ambell un a adwaenwn yn dda, er mai o bosibl y pryd hwnw y byddai hi wedi dyfod i gyfarfyddiad â'r cyfryw am y tro cyntaf.

Nid llai amlwg ynddi ydoedd ei darbodaeth ddoeth a'i huniondeb diwyrni. Daeth hyn i'r golwg yn eglur pan ddisgynodd gofal y materion teuluaidd arni hi ei hunan. O dan ei llaw hi, nid oedd dim yn cael ei wastraffu na'i gamddefnyddio. Yr oedd mor nodedig am ei chynnildeb a'i threfnusrwydd fel yr oedd gan ei thad yr ymddiried llwyraf yn ei gofal a'i doethineb.

Teimlodd yn ddwys pan gollodd frawd bychan er ys cryn nifer o flynyddoedd yn ol. Nid oedd efe ond ychydig ieuengach na hi, a chan ei fod yn hynod ffraeth a pharablus, yr oeddynt yn dra chyfrinachol â'u gilydd.

Ond yr hyn a effeithiodd fwyaf arni ydoedd hir gystudd a marwolaeth ei hanwyl fam, yr hyn a gymerodd le bellach er ys pedair blynedd. Bu y fam yn wael am tua dwy flynedd, a dyoddefodd yn ddwys oddiwrth anhwyldeb nychlyd a phoenus; ond darfu i'r ferch weini arni gyda'r serchogrwydd a'r ffyddlondeb mwyaf hyd yr awr ddiweddaf. Ac nid yw yn annhebyg na chafodd cyfansoddiad yr un ieuanc i raddau ei anmharu trwy yr oruchwyliae h flinderus hon.

Yn ei dyddlyfr bychan, yr hwn y daethom o hyd iddo ar ol ei hymadawiad, y mae yn cyfeirio rai gweithiau mewn modd

galarus at yr amgylchiad pruddaidd hwn. Gyda golwg ar ei gwaith yn gwylied ei mam yn ei horiau diweddaf dywed (yn Saesoneg yr oedd yn ysgrifenu), "Mae fy anwyl fam yn marw; O y fath gysur ydyw ei bod wedi adnabod y Gwaredwr yn flaenorol! O bydded ei Gwaredwr hi yn Waredwr i minnau!" Ac ar ol ei hymadawiad dywedai ymhellach, "Pan oeddwn yn gwylied fy anwyl fam, ac yn sylwi ar y bywyd yn raddol yn cilio, nis gallwn lai na meddwl am yr adnodau yn Dat. vii. 13—17. "Pwy ydyw y rhai hyn sydd wedi eu gwisgo mewn gynau gwynion, ac o ba le y daethant? &c."

Yr ydwyf yn ymattal rhag rhoddi pigion ychwanegol o'i dyddlyfr nac ychwaith o lyfr ei hamrywion, rhag estyn yr ysgrif fechan hon yn ormodol

Bu hi yn gystuddiol i raddau mwy neu lai am tua deunaw mis; ac arferwyd llawer o foddion gan geisio gwellhad, ond er y cwbl yr hen anhwyldeb, sef y darfodedigaeth, a gafodd yr oruchafiaeth. Nodwedd neilduol ei hysbryd yn ei chystudd ydoedd siriioldeb yn deillio oddiwrth ymostyngiad i ewyllys y Llywydd Mawr, a chynefindra â gwirioneddau gwerthfawr yr efengyl. Cafodd y fraint o fod yn ffyddlawn dros ychydig amser yn ngwasanaeth ei Harglwydd; cyflawnodd yn gynnar y gwaith a ymddiriedwyd iddi; ac ar yr 11eg o fis Rhagfyr, 1888, symudwyd hi i'r orphwysfa dragywyddol. Galar dwys sydd ar ei hol. Yr oedd y teimlad serchocaf rhyngddi hi â'i hunig frawd; a darfu iddo yntau weini arni yn y modd ffyddlonaf dros yspaid ei chystudd, a hyny hyd y fynyd olaf cyn ei hymadawiad.

Teimlaf gyda golwg ar y goruchwyliaethau sydd wedi myned heibio, briodoldeb un o ddywediadau yr hybarch Henry Rees: "Mae y saint trwy yr oesoedd yn dyfod allan o'r cystudd mawr, a'u hwyneb yn fudr gan wylo; dagrau newyddion yn tori ffosydd ar hyd eu gruddiau megys trwy grest yr hên, ond fe sych Duw ymaith ddagrau oddiar bob wyneb, ac oddiwrth bob llygad. . . . Bydd holl arwyddion ac achosion galar wedi cyd-ddiflanu."

Lloffion.

CRIST YN TYNU TRWY EI FAWREDD.

TYNIR dynion at Grist trwy ddeddfau attyniad, ac y mae deddfau Kepler yn dal gyda golwg ar eneidiau fel y maent gyda phlanedau. Y mae Crist yn tynu yn ol ei faintioli—ei swm mawr; ei fôd mawr, ei gyfoeth o gymhorth, ei allu i dosturio, ei ddoethineb anfeidrol, ei ystôr o dynerwch, sydd wedi tynu trwy yr oesoedd, ac a wna trwy yr holl oesoedd eto, dynu calonau dynion ato.—GLOVER.

ENGRAIFFT HYNOD O HIRHOEDLEDD.

Y MAE gan un o'r areithwyr dirwestol enwocaf yn Nghymru was, yr hwn, ynghyd a'i feistr, oedd yn bresennol yn Nghyfarfodydd Gweddïau yr wythnos gyntaf o'r flwyddyn. Wedi dyfod i'r tŷ un noson o'r Cyfarfod Gweddi, meddai y gwas:—"A wyddech chwi, meistr, fod *dau ugain ar bymtheg o flynyddoedd* yn cynnal y Cyfarfod gweddi heno?" Na wyddai y meistr, ac ni wyddai yn iawn beth oedd y gwas yn ei feddwl. Yr esboniad oedd hyn: gwyddai y gwas oedran y pedwar brawd oedd wedi cymeryd rhan yn y Cyfarfod gweddi y noson hono. Yr oedd y cyntaf yn 86 mlwydd oed, yr ail yn 86, y trydydd yn 85, a'r pedwerydd yn 84; felly yr oedd oedran unedig y pedwar yn gwneyd i fyny 341 o flynyddoedd.

GEIRIAU Y DOETHION.

Y MAE meddyliau drwg yn fwy peryglus na bwystfilod gwyllt ion. Cedwch eich pen a'ch calon yn llawn o feddyliau da, ac ni bydd lle i'r rhai drwg. Ni ddeil y gwpan ond ei llon'd.

Cofied pregethwyr ddylanwad yr orphwysfa (*pause*). Gwneir cân aderyn i fyny o gathl a dystawrwydd; ac y mae y dystawrwydd yn rhan o'r gân.

Ryw noswaith wedi ymdaith flinderus dros yr anialwch, gosododd Mahomet a'i ganlynwyr eu pebyll i fyny am y noson. Meddai un o'r dynion blinedig, "Gollyngaf fi fy nghamel yn rhydd, a rhoddaf ef yn ngofal Duw." Clywodd ei feistr ef, a dywedodd, "Gyfaill, rhwyma dy gamel, a rho ef yn ngofal Duw."

Y mae yni moesol yn fwy gwasanaethgar mewn bywyd na galluoedd dysglaer. Y mae felly yn mhethau cyffredin bywyd yn gystal ag yn ei bethau pwysicaf.

Cronicl Cenadol.

Lydaw.

CYFARFODYDD YN GUILVINEC.

LLYTHYR ODDIWRTH MR. EVAN JONES.

Pont l'Abbé,
Mawrth 8fed, 1889.

YR ydwyf yn ysgrifenu atoch y tro hwn er mwyn rhoddi ychydig o hanes ymweliad arall o'n heiddo â Guilvinec. Y mae trigolion y dref yn bur rydd oddiwrth ddylanwad offeiriadol, ac yn rhoddi derbyniad croesawgar i ni. Iaith eu hymddygiad tuag atom ydyw—"Ni a'th wrandawn drachefn am y peth hwn." Yr ydym newydd gynnal cyfres arall o gyfarfodydd yno, gan ddechreu nos Wener, Chwefror 22ain, a pharhau hyd nos Lun, y 25ain, cyfarfod bob nos, ac un yn ychwanegol prydnawn Sabboth, y 24ain, am ddau o'r gloch. Nid oedd nifer y gwrandawyr mor luosog y tro hwn ag y dysgwyliem. Y rheswm ydyw fod adeg pysgota wedi

dechreu yn gynt eleni nag arfer, a'r pysgotwyr yn manteisio ar y cyfleusdra er ennill eu bywoliaeth, heb eithrio hyd yn nod y Sabbath. Ni ddaeth felly neb o'r pysgotwyr i'n gwrando, gan eu bod bob nos yn brysur gyda'u galwedigaeth. Yr oedd er hyny nifer bur dda o wrandawyr yn mhob cyfarfod, a rhoddent wrandawiad astud a pharchus i'r hyn a leferid wrthynt. Yr oedd eu hagwedd wrth wrandaw yn dangos eu bod yn cymeradwyo y gwirioneddau; a gobeithiwn yn hyderus na bydd y cyfarfodydd yn ofer, ond y ceir gweled ffrwyth da mewn canlyniad iddynt ryw ddiwrnod.

Rhoddwyd nodwedd ymddyddanol y tro hwn i'r cyfarfodydd, ac yr ydym yn cael lle i gredu fod hyny wedi ychwanegu cryn lawer at eu dyddordeb. Yr oeddynt drwy hyny yn fwy tebyg i ymddyddan teulu ar yr aelwyd gartref nag i gyfarfodydd cyhoeddus. Dechreuem bob cyfarfod gyda darlleniad o ryw gyfran o Air Duw a chydganu mawl, yna rhoddid anerchiad ar ryw gwestiwn pwysig ynglŷn wrth liachawdwriaeth. Rhoddid gwahoddiad taer wedi hyny i bwy bynag a deimlai ar ei galon wneyd unrhyw sylwadau oedd yn ymgynnyg i'w feddwl, yn gystal ag i ofyn cwestiynau, neu godi gwrthwynebiadau. Derbyniwyd y gwrthddadleuon hyn yn siriol, a llonid ni yn fawr wrth weled amryw yn ymollwng mor rydd i ymddyddan, ac i godi gwrthddadleuon, a hyny mewn ysbryd mor ragorol. Gwnaeth fy mrawd gynnyg teg at ateb, ac amlygai y gwrandawyr eu boddlonrwydd i'r atebion a wnaed. Cafodd rhai o'r cyfarfodydd eu troi yn hollol yn ymddyddanol, ac yr oeddent yn bur ddyddorol ac adeiladol, gallem feddwl. Gydag anhawsder nid bychan y gallodd fy mrawd gynnal y cyfarfodydd y tro hwn, gan ei fod yn cael ei boeni yn fawr gan y *neuralgia* tra y bu yn aros yn Guilvinec, a gorfu iddo absennoli ei hun o rai o'r cyfarfodydd; ond yn ffodus, yn ei absennoldeb cymerodd y Bibl-gludydd ei le, a chymerodd ran hefyd yn mhob cyfarfod o'r bron.

Yn y cyfarfod am ddau o'r gloch, prydnawn Sabboth, yr oedd amryw o Lydawiaid uniaith yn dygwydd bod yn bresennol. Cefais gyfleusdra i geisio eu cyfarch yn Llydawaeg am ychydig amser. Er yn bur bryderus cyn y cyfarfod, trôdd allan yn well nag y dysgwyliwn. Cynnaliasom y cyfarfod diweddaf ar nos Lun, pryd y cymerodd y Bibl-gludydd y rhan fwyaf o'r ymddyddan. Dysgwyliwn wrth yr Arglwydd am fendith ar ein llafur.

Brynian Rhasia.

DOSBARTH CHERRA.

Rhan o Lythyr y Parch. J. Roberts.

Mewn llythyr dyddiedig Chwefror 1af rhydd Mr. Roberts adroddiad y gwaith mewn amryw o'r pentrefi sydd yn awr dan ei ofal.

Nongsawlia a Cherra.—Y mae y Cristionogion yma wedi gweithio yn dda yn ystod y flwyddyn, ac yr ydym wedi gweled cryn ffrwyth. Y mae pentref Cherra yn dal yn galed iawn, a llawer o wrthwynebiad. Cawsom rai cyfarfodydd da yn y farchnad, ond y mae casineb Brenin Cherra at Gristionogaeth wedi profi yn ormod iddynt; gorchymynodd i ni eu rhoddi i fyny, a than yr amgylchiadau barnasom mai gwell oedd ufuddhau. Byddai yn anhawdd i chwi o bell gael dirnadaeth am yr elyniaeth sydd yn y dyn hwn at Gristionogaeth. Yr wyf yn gwneyd pob peth a allaf tuag at ei foddio, ac y mae yn neilluol o gyfeillgar â mi yn bersonol. Cawsom amryw gyfarfodydd hefyd yn y gwahanol ysgoldai, ac yr oedd rhai o honynt yn dda iawn. Y mae y cyfeillion yma yn myned o dŷ i dŷ yn ddau a dau, neu dri a thri fel y dygwyddo. Byddant yn canu, darllen, a gweddïo ymhob tŷ y caniateir iddynt. Ychydig sydd yn ddigon gelyniaethus i wahardd hyny o honynt eu hunain, ond y mae llawer iawn yn gwahardd rhag ofn y brenin. Yr wyf yn cwbl gredu na byddai ein sefyllfa ni yma nemawr gwell nag ydyw sefyllfa y cenadon mewn llawer parth o Affrica oni b'ai am gysgod y Llywodraeth drosom.

Nid yw ein cynnulleidfa lawn gymaint ag oedd flwyddyn yn ol. Y mae rhai wedi cilio yn ol, ond y rheswm mawr am hyny ydyw ein bod wedi gosod pob lle ar ei ben ei hun, fel nad oes neb yn d'od i'r moddion Sabbothol heblaw pobl Nongsawlia a Cherra. Y mae yr Ysgol Sabbothol yn cael ei mynychu yn lled dda ar y cyfan, ac y mae yma gryn lawer o adnodau yn cael eu dysgu allan. Y mae o 50 i 60 o bennodau o'r *Catechism* yn cael eu hadrodd bob Sabboth; ac yr ydym yn dal ein ffordd gyda'r *Hyfforddwr* hefyd. Trwy fod yma gymaint o leoedd o fewn saith neu wyth milldir o bellder i anfon yr efengylwyr ac eraill iddynt i bregethu, yr wyf mewn cryn helbul aml i Sabboth i gael athrawon i'r dosbarthiadau, ac y mae yn anfantais fawr hefyd fod yn rhaid newid yr athrawon mor fynych. Mewn lle fel Nongsawlia, lle mae dynion a merched ieuainc yn dyfod o leoedd eraill i gael addysg, y mae yn bur bwysig fod yma Ysgol Sabbothol ac athrawon da; oblegid er i ni wneyd ein goreu yr ydym yn cael fod amryw yn ymadael heb fod yn gwybod yn agos yr hyn a ddylent. Y mae y cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac yr ydym yn cael lle i feddwl eu bod yn gwneyd daioni. Y mae gan Mrs. Roberts bedwar o ddosbarthiadau heblaw y dosbarth sydd ganddi yn yr Ysgol Sul.

Y mae genym erbyn hyn gapel helaeth a chyfleus, a bwriadwn gynnal yr Henaduriaeth nesaf ynddo. Prin yr ydym wedi gallu talu am dano, ond yr ydych i ddeall nad ydym am gydnabod am foment ein bod mewn dyled. Addawodd y frawdoliaeth ar y dechreu 1000 o *rupees*, ond pan welsant

fod y gôst yn myned yn fawr, rhoisant 500 o *rupees* wedi hyny; hyny yw, gan y brodorion yn unig. Ac y mae y cyfeillion yn gofyn i mi ddiolch yn garedig iawn i'r brodyr a'r chwïorydd da a'n cynnorthwyasant oddiyna. Heb eu help hwy nis gallasem helaethu y capel fel hyn.

Umniuh.—Derbyniwyd saith i'r eglwys yn Umniuh, ac y mae y gynnulleidfa wedi ychwanegu, a'r Cristionogion yn fwy gweithgar, a'r casineb at Gristionogaeth wedi cynnyddu cryn lawer er ys blwyddyn. Ni bu ericed gystal golwg ar achos Iesu Grist yn y pentref hwn ag sydd yn awr. Yr oeddwn wedi bod yn ddigon ffol, ac yr wyf yn cyfaddef yn rhwydd mai ffolineb ydoedd, i dybio y gellid ennill y pentref hwn heb orfod ymladd â'r bobl. Yr oeddent yn edrych mor ddwl a hywaeth fel na buasai neb yn meddwl fod digon o ddichell na stremp ynddynt i ymladd. Dechreu y flwyddyn hon daeth teulu cyfan i'r eglwys —tad a mam a phump o blant. Yr oedd gan y wraig hon lwyn cnau betel (*betel nut grove*) wedi ei etifeddu ar ol ei mam. Mor fuan ag y daeth i'r eglwys, dyma ei modryb, chwaer ieuengaf ei mam, yn gorchymyn iddi roddi ei holl lwyn iddi hi, gan nas goddefai iddi ddal troedfedd o dir ar ol iddi droi yn Gristion. Gan nad ufuddhâi rhoddodd y fodryb yr achos yn llaw Sirdar y pentref, a phenderfynodd hwnw ar unwaith fod y fodryb yn iawn, a dirwyodd y Cristion am ammeu gair ei modryb. Daeth y Cristionogion yma a rhoddwyd y *case* yn y *court*. Wedi hyny newidiasant eu cynlluniau, oblegid gwyddent na wnai eu rhesymau yn y pentref ddal dwr yn y llys. Yr wyf yn deall fod yr *Extra Assistant Commissioner*, yr hwn sydd yn Kasi o'r Kasiaid, wedi gwneyd ei oreu yn erbyn y Cristionogion, ond yr wyf yn meddwl eu bod wedi eu dal yn eu dichellion eu hunain. Ceir gweled yn fuan beth ddaw o'r achos. Byddai ennill y *case* hwn yn fantais fawr iawn. Ond y mae llawer mwy na hanner y pentref yn credu yn gydwybodol fod y fodryb hon yn iawn, nad oes hawl gan y ddynes hon i gael tir ei hetifeddiaeth am ei bod wedi troi yn Gristion. Gellwch weled oddiwrth hyn yr anhawsderau sydd yn ein cyfarfod beunydd, ond fe ddaw pen ar bethau fel hyn rywdro.

Y mae y gwaith yn sicr yn myned rhag ddo — yn dyfnhau ac yn lledu. Wrth edrych ar y cyfraniadau gartref mae arnaf ofn yn sicr am y dyfodol. Nid wyf fi yn gallu gweled ymha le i gwtogi yma, ac yn sicr y mae y Cristionogion yn gweithio ac yn cyfranu yn dda—yn llawn cystal ag y gellid yn rhesymol ddysgwyl iddynt. O! frodyr a chwïorydd anwyl, byddwch "helaethion" yn eich cyfraniadau. Yr oedd yn llawenydd calon i mi glywed am rodd haelionus R. Davies, Ysw., Bodlondeb. Pe ceid ychydig yn ychwaneg o rai tebyg, y fath fendith fyddai i'r gwaith. Duw o'i ras a faddeuo i ni ein holl golliadau y flwyddyn a aeth heibio, ac a'n bendithio â nerth ac arweiniad y flwyddyn hon eto.

YR YSGOL ATHRAWOL.

Rhan o Lythyr oddiwrth y Parch. J. Ceredig Evans.

Ionawr y 30ain, ysgrifena Mr. Evans adroddiad am yr amrywiol ranau o'r gwaith sydd dan ei ofal ef. Am yr Ysgol Normalaidd dywed:—

"Nifer y rhai dan addysg yn yr Ysgol Normalaidd a'r ysgolion eraill cysylltiedig â hi oedd 209 ar ddiwedd y flwyddyn. O'r nifer hwn perthynai 33 i ddosbarthiadau o'r adran Normalaidd. Nid oes genyf ddim i'w ddyweyd ar effeithiolrwydd yr Ysgol ymhellach na fy mod yn hyderu nad ydyw yn colli tir. Saif yn ail yn rhestr Ysgolion Normalaidd talaeth Assam, o ran nifer y rhai sydd yn llwyddo yn yr arholiadau. Yn yr arholiad diweddaf bu 18 yn llwyddiannus—12 o fechgyn a 6 o ferched—i ennill *Government Teachership Certificates* yn y gwahanol raddau. Methodd rhai o'r bechgyn dreiodd, ond fe fu y merched oll yn llwyddiannus."

DOSBARTH SHELLA.

Rhanau o Lythyr oddiwrth y Parch. W. Williams.

Shella, Ion. 29ain, 1889.

Shella.—Y mae yn dda genyf allu dyweyd fod gwedd hollol ddymunol ar y gwaith yn y pentref yma ar hyn o bryd. Mor bell ag y gallaf ddeall, y mae yr oll o'r Cristionogion mewn heddwch â'u gilydd. Y mae Shella wedi cael yr enw (ac nid heb achos) o fod yn bentref lle mae llawer o "gwympo i maes" yn arfer bod. Diffyg gwybodaeth derfynol ynglŷn â pherchenogaeth, ac hefyd ffiniau Llwyni yr Aurafalau, yw yr achos mawr o'r drwg hwn mewn byd ac eglwys yn Shella. Ymhlith pentrefi y wlad y mae Shella yn hollol ar ei ben ei hun. Y mae gwahaniaeth mawr iawn rhwng dyn Shella a dyn y Bryniau (a mwy fyth yn y ddynes), a daw hyny i'r golwg yn y ffaith mai Gwerinlywodraeth sydd yma, tra y mae Breiniaethau ar y Bryniau. Y mae pethau o'r fath yma yn gadael eu hargraff hyd yn nod ar yr Eglwys.

Gellir dyweyd am Shella mai nid pentref heb wybodaeth ydyw. Y mae yma ddegau ac ugeiniau o ddynion ieuainc a chanol oed yn medru darllen ac ysgrifenu, ac amryw o'r cyntaf yn gallu siarad Saesoneg yn weddol, ond nid byth yn myned i dŷ o addoliad. Y mae nifer luosog o'r rhai hyn wedi bod yn yr Eglwys, ond wedi methu dal eu tir. "Ar bwy mae'r bai"? Ar bwy yr oedd y bai yr amser hwnw,—"A llawer o'i ddysgyblion Ef, a aethant yn eu hol, ac ni rodiasant mwyach gydag Ef?" Diffyg bywyd ysbrydol. Y mae bywyd yn dal tir, ac yn gofalu am dano ei hun yn wyneb temtasiynau. Yr wyf yn hollol gredu fod dylanwad anuniongyrchol Cristionogaeth yn gryfach yn Shella nag mewn un lle ar y

Bryniau. Nodaf engraifft. Nid yw y llys gwladol, lle y mae y penaethiaid *(Wadadars)*, yn ymgynghori, byth yn agored ar Ddydd yr Arglwydd.

Pentrefi Lynkin a Nongnah.—Nid oes fawr iawn rhwng y cyntaf a bod yn hollol Gristionogol. Derbyniwyd amryw yn ystod y flwyddyn i'r eglwysi o'r ddau bentref, ac yn eu plith yr oedd hen wraig tua phedwar ugain oed. Cawsom gyfarfod hapus pan y derbyniwyd hi i'r *society*. Y mae wedi digio am byth wrth y diafol a'i gythreuliaid. Y mae yna ddynes yn dysgu y merched yn y pentrefi yma, a gwna waith *Bible-woman* hefyd. Y mae wedi bod yn hynod o lwyddiannus yn ei gwaith. O hyn allan bydd yr ysgol ddyddiol sydd yn Lynkin o dan ofal yr athraw sydd yn Nongtrai. Nid yw y pellder ond rhyw hanner milldir neu lai.

Derbyniwyd amryw i'r eglwys yn Tynger o bentref Lyng Khom yn ystod y flwyddyn. Clywais yr hanesyn canlynol am un o honynt, a dywedodd ef ei hun wrthyf ei bod hi yn hollol wir. Pan yn ceisio byw fel Cristion, yn bur fuan wedi i'r ysgol gael ei chychwyn yno, clywodd fod pris rhyw ffrwythau oedd ganddo i'w gwerthu yn bur uchel yn y farchnad yn Shella, ac yr oedd dydd y farchnad yn dygwydd bod ar Ddydd yr Arglwydd. Y cwestiwn oedd, beth i wneyd? Daeth i'r penderfyniad mai myned oedd oreu. Rhwng Tynger a Lyng Khom, ar y ffordd i Shella y mae afon fechan, ac yn ystod y gwlaw chwydda i faintioli mawr. Cyrhaeddodd yr afon yn ddyogel, ond wrth geisio croesi, rywfodd neu gilydd, fe gollodd y cwbl—y fasged a'r ffrwythau, ac nid yn unig hyny ond hefyd y darn arian *(Rupee)* oedd yn ei feddiant. Derbyniodd yr awgrym ac aeth yn ei ol yn ddystaw, a byth oddiar hyny y mae wedi glynu yn ffyddlawn wrth Gristionogaeth. Creda yn ddiysgog mai cerydd oddiwrth Dduw ydoedd, a chafodd nerth i beidio a'i ddirmygu.

Nongsynrih.—Lle newydd. Y mae yno 24 o Gristionogion. Yn ddiweddar danfonais yr athrawes oedd yn Lait gyda ei gŵr i ofalu am danynt hyd nes caf ganiatad oddicartref i anfon iddynt athraw. U Don Lyngdoh yw y prif ddyn sydd yno. Yn ddiweddar daeth yma, wedi dianc am ei fywyd o'r pentref. Yr oedd yno rai yn bygwth ei frathu â'u cyllyll o herwydd ei fod yn Gristion, ac amheuent ei allu i farnu achosion perthynol i'r pentref fel "*Lyngdoh*" o herwydd ei fod yn Gristion. Danfonais lythyr gydag U Ksan ac eraill at frenin Jakrem ynghylch y peth, gan ddymuno arno i gynnorthwyo U Don Lyngdoh. Gwnaeth hyny gyda pharodrwydd mawr. Danfonodd am y drwgweithredwyr a cheryddodd hwynt yn llym, a chadarnhäodd hefyd apwyntiad U Don Lyngdoh fel un i farnu achosion yn y pentref. Y mae y brenin hwn yn dal ei dir yn dda hyd yn hyn fel ymgeisydd. Y mae wedi llwyr adael y diodydd meddwol. Y mae yr ysgolda yn barod yn ei bentref. Yr ydym yn dysgwyl am awdurdod oddicartref i roddi athraw yno.

DOSBARTH MAWPHLANG.

Llythyr oddiwrth y Parch. Dr. Griffiths.

Mawphlang, Chwefror 14, 1889.

Er pan ysgrifenais atoch ddiweddaf yr ydym wedi derbyn teulu i'r eglwys o'r newydd—tad a mam, a thri o blant. Daethant yma i fyw tuag wyth mis yn ol, ac y mae un o'r plant eisoes yn gallu darllen y Testament Khasiaeg yn dda, a'r rhieni hefyd yn ymlwybro yn ddiwyd trwy y *Llyfr Bach*. Wrth eu holi yn y cyfarfod eglwysig, atebent yn dda a dirodres, ac er nad ydynt eto wedi deall llawer, y maent yn deall digon am drefn iachawdwriaeth i wybod beth oeddynt yn wneuthur. Yr ydym yn dysgwyl dau neu o dri o deuluoedd newyddion i fyw ar y tir cenadol yn fuan,—rhai o Mawphlang, a'r lleill o bentrefi cymydogaethol.

Yr ydym yn teimlo yn wir ddiolchgar i'r cyfeillion sydd wedi cyfranu i gael llestri cymundeb i eglwys Mawphlang, ac hefyd i "Un o Abergele," "E. M.," ac "Un a'i galon yn llwyddiant yr efengyl," am ein cofio gyda'r gwaith. Byddaf yn teimlo yn hunan-gondemniol iawn wrth edrych ar ddalen olaf y Drysorfa bob mis,—gweled fod y cyfeillion yn Nghymru mor ymdrechgar a hunanymwadol gyda'u rhan hwy o'r gwaith, a ninnau yma wyneb yn wyneb â phaganiaid ar ddarfod am danynt, ac yn gwneyd can lleied o ymdrech i'w dwyn at y Gwaredwr.

Beyniau Jaintia.

DOSBARTH JIWAI.

Rhan o Lythyr oddiwrth Dr. A. D. Hughes.

Mewn llythyr dyddiedig Chwefror 12fed, ymha un y mae yn cymeryd golwg ar waith y flwyddyn ddiweddaf, dywed Dr. Hughes:—"Y mae dull ymosodol wedi cael ei ddwyn ymlaen gan yr holl weithwyr yn y dosbarth, gyda mwy o yni nag arferol, a chyda llwyddiant anghyffredin. Mae tir newydd wedi cael ei agoryd, a than fendith ddwyfol mae pedwar o bentrefi newyddion wedi derbyn goleuni yr efengyl. Mewn dau o honynt Mawstem, a Morropassa, ffurfiwyd eglwysi ieuainc cryfion, ac y mae y bobl yn dangos awydd, sydd yn barhaus yn ychwanegu, am gynnʃddu ymhob gras Cristionogol. Yn y ddau bentref arall adeiladwyd ysgolion a phenodwyd athrawon, y rhai a gofleidiant bob cyfleusdra posibl i bregethu i, ac addysgu y trigolion pryderus. Credaf fod a wnelo y Genadaeth Feddygol lawer iawn â dinystr ofergoeledd ac ysbryd-addoliaeth yn y pentrefi hyn.

Mae trwy y dosbarth o ben bwygilydd deimlad cyffredinol o ddiolchgarwch i'r Cyfarwyddwyr am sefydlu Cenadaeth Feddygol yn Jaintia, a dengys y casgliadau fod y diolchgarwch yn cymeryd ffurf sylweddol. Yr oedd yr Henaduriaeth a gynnaliwyd yn Jiwai mis Hydref diweddaf, yn adeg o adfywiad mawr i'r holl eglwysi yn y dosbarth, gan eu cylymu yn rhwymau cariad brawdol a chymdeithas Gristionogol. Mae llawer o weithgarwch wedi cael ei arddangos gan aelodau eglwys Jiwai yn ystod y flwyddyn ddiweddaf,—nid yn unig yn helyntion lleol yr eglwys ei hun, ond hefyd yn efengyleiddiad pentrefi eraill. Anfonir allan gwmnïau bychain o bregethwyr bob Sabboth, ac fel hyn gofelir am saith o bentrefi o fewn cylch o naw milldir o gwmpas. Hyd y mae yn bosibl mae y gwaith wedi cael ei ddwyn ymlaen yn absennoldeb y Parch. J. Jones ar yr un llinellau a chyn iddo ef ymadael. Gofelir am y cyfarfodydd crefyddol arferol, y dosbarthiadau Beiblaidd, y Dosbarthiadau Duwinyddol, &c., ond, wrth gwrs nad yw dyledswyddau eraill fel cenadwr meddygol wedi caniatau i mi roddi iddynt y sylw a deilyngant, hyd yn nod pe gallaswn ddilyn ol traed fy rhagflaenydd teilwng a diflino."

Sylhet.

Hysbysa y Parch. J. Pengwern Jones ei fod o'r diwedd wedi llwyddo i gael tir cyfleus i adeiladu tŷ ac ystafelloedd at wasanaeth y Genadaeth. Y mae ar y tir rai adeiladau y gellir gydag ychydig draul gwneyd defnydd o honynt am dymmor o leiaf. Mae y Cyfeisteddfod wedi rhoddi caniatâd i Miss John, o herwydd ei sefyllfa unig yn Sylhet, ac er mwyn cael ychydig adnewyddiad yn ystod yr hîn boeth, i dreulio rhai misoedd ar y Bryniau, gan obeithio y gall fod o ryw gynnorthwy gyda'r gwaith yno. Yn un o'r llythyrau diweddaf a dderbyniwyd oddiwrthi, dywed fod Ysgol y Genethod yn llewyrchus, fod yn fynych 31 yn bresennol; mae merched Babu Gour yn rhoddi llawer o help gyda'r ysgol. Chwefror 6ed, ysgrifena Mr. Pengwern Jones: "Yr wyf yr wythnos hon yn gofalu am ysgol y genethod, gan fod Miss John yn analluog i fyned yno. Heblaw hyn, yr wyf yr wythnos hon wedi dechreu ysgol mewn Gardd Dê, ychydig bellder oddiyma, ac y mae genyf i fyned i'r ysgol hono bob bore nes y bydd wedi dyfod i dipyn o drefn, ac heblaw hyn oll, mae genyf gyfarfodydd bob nos. Yr wyf yn gorfod bod i fyny yn bur gynnar bob bore, gan mai dyma yr unig gyfle sydd genyf i ddysgu yr iaith."

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar ei fod wedi derbyn y symiau canlynol er pan wnaed yr hysbysiad diweddaf:—

Derbyniwyd llestri cymundeb at wasanaeth eglwys Mawphlang oddiwrth Ysgol Sabbothol Salem, Cwm, Llansamlet, a derbyniwyd y gweddill o'r casgliad, sef 17s. 6c., tuag at amcanion cyffredinol y Genadaeth. Mae y llestri a gyfranwyd gan y cyfeillion yn y Cwm wedi eu hanfon allan. Anfonodd caredigion eraill symiau at yr amcan hwn; mae y rhai hyny yn ol eu cyfarwyddyd yn cael eu defnyddio tuag at y gwaith cenadol.

Derbyniwyd am y llyfr *Ymweliad â Khasia*, £5 7s. 6c.

[Mae rhai cyfeillion eto heb anfon arian am y sypynau a dderbyniasant; teimlir yn ddiolchgar os bydd iddynt wneyd hyny yn ddioed. Mae hefyd rai copïau o'r ail argraffiad ar law, y rhai y gellir eu cael am chwe' cheiniog yr un. Oni fydd i ryw frawd neu chwaer mewn cymydogaethau lle nad yw y llyfr yn adnabyddus, geisio enwau a gofalu am yr arian? Mae rhai wedi gwneyd hyny gyda ffyddlondeb. Ceid £10 ar unwaith i'r Genadaeth pe byddai i'r ddau can' copi sydd yn aros gael eu gwerthu fel y gwerthwyd llawer o'r rhai blaenorol, a chynnyrchid dyddordeb yn yr achos cenadol trwy y darlleniad o honynt.]

	£	s.	d.
Derbyniwyd oddiwrth Mr. W. Prytherch, Ffrwd, Wrexham	1	1	0
O Sir Gaerfyrddin	8	14	0
O Bagillt	6	18	0
Casglwyd gan Miss Sarah Hughes, Oakland, California	1	8	6
Pandy Tudur	0	15	8
Cymunrodd Mr. Richard Jones, Fferam Bailly, Trefdraeth, Sir Fôn, trwy law ei gymunweinyddes, Miss Thomas	30	0	0
Casglwyd gan Mr. J. Evans (Caredig), Ceinewydd, i'w hanfon i'r Parch. J. Ceredig Evans, tuag at adeiladu ysgoldŷ yn Cherra	6	10	0
Dienw, at gapel Myllim	0	10	0
E. M. eto	3	0	0
Mr. John R. Davies, Palmyra, Ohio, trwy law y Parch. Ebenezer Evans, Youngstown, O., Talaethau Unedig	2	0	0
Mrs. Mary Lewis, Palmyra, eto	0	4	0
Sir Frycheiniog	13	9	7
Sir Gaerfyrddin	2	2	2

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.